# Calfaria
# Eglwys y Bedyddwyr
# Penygroes

## Dathlu
## Canmlwyddiant

## 1896-1996



Marian Cwmnant

Gyda Phob Diolch a Bendith
Margaret A. Griffith
8. 9. 96.

# HANES CAPEL Y BEDYDDWYR, CALFARIA, PENYGROES

Y Parch. H. V. Watkins

*Cyhoeddwyd gan*
*Capel y Bedyddwyr, Calfaria, Penygroes*

Hawlfraint yr argraffiad:
Capel y Bedyddwyr, Calfaria, Penygroes © 1996

Cyhoeddwyd gan
Capel y Bedyddwyr, Calfaria, Penygroes

*Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r llyfr hwn na'i storio mewn system adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull, na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, peirianyddol, llungopïo, recordio, nac mewn unrhyw ffordd arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr.*

Argraffwyd gan
Wasg Dinefwr, Heol Rawlings, Llandybïe
Sir Gaerfyrddin, SA18 3YD.

# CYNNWYS

Rhagair ..... 4

Diolchiadau ..... 5

*Pennod I* CANMLWYDDIANT CALFARIA, EGLWYS Y BEDYDDWYR, PENYGROES, LLANELLI (1896-1996) ..... 7

*Pennod II* CYCHWYN YR ACHOS ..... 9

*Pennod III* GWEINIDOGAETH Y PARCH. D. HANDEL TURNER (1942-46) ..... 29

*Pennod IV* GWEINIDOGAETH Y PARCH. E. B. JONES, B.A., B.D. (1947-55) ..... 34

*Pennod V* GWEINIDOGAETH Y PARCH. T. ELWYN WILLIAMS (1957-63) ..... 44

*Pennod VI* GWEINIDOGAETH Y PARCH. WYNN VITTLE (1964-73) ..... 52

*Pennod VII* GWEINIDOGAETH Y PARCH. D. CARL WILLIAMS (1974-82) ..... 65

*Pennod VIII* GWEINIDOGAETH Y PARCH. DR. D. DENSIL MORGAN, B.A., B.D. (1982-88) ..... 73

*Pennod IX* GWEINIDOGAETH Y PARCH. J. GERAINT MORSE, B.D., M.Th. (1989-94) ..... 86

*Pennod X* GWEINIDOGAETH Y PARCH. H. VINCENT WATKINS (1994- ) ..... 96

*Pennod XI* SWYDDOGION YR EGLWYS ..... 106

# RHAGAIR

Braint a hyfrydwch yw cael cyflwyno y llyfr hwn ar achlysur dathlu Canmlwyddiant Eglwys Calfaria, Penygroes. Ni allwn lai nag edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd a chydnabod yn ddiolchgar bod Duw wedi bod ar waith drwy yr Eglwys hon. Bu llawer tro ar fyd yn ystod y cyfnod maith hwn, ond er yr holl newidiadau gallwn dystio bod Iesu Grist yn para'r un, a'i Efengyl hefyd yn para'r un, sef gallu Duw ar waith ei iachawdwriaeth i bob un sy'n credu. Profwyd nerth yr Ysbryd Glân a fu'n ysbrydiaeth i wynebu pob amgylchiad, i faeddu pob gelyn ac i gyfarfod â phob gofyn.

Dyledus yw talu teyrnged i'r ffyddloniaid dewrion gynt a dweud gyda gwyleidd-dra 'eraill a lafuriasant a ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt'. Oni bai am eu haberth a'u hymroddiad i waith y Deyrnas, ni fyddai dathlu yn 1996. Gweddus yw dilyn eu ffydd a'u hesiampl.

Anrhydeddwn y gorffennol drwy fwrw ati i ennill y dyfodol i Grist a'i deyrnas. Ni wyddom beth ddigwydd i'r yfory ond diolchwn mai Duw pia'r yfory, ac mae'r Duw hwnnw yn annog meibion a merched Calfaria Penygroes i gerdded rhagddynt.

Bydded i fflam yr Efengyl barhau i losgi ar yr aelwyd ysbrydol, a'r Eglwys hon i barhau i fod yn oleuni ac yn halen i'r gymdeithas.

Carwn ddiolch yn gynnes iawn i Mrs M. A. Griffiths am ei gwaith amhrisiadwy, a'i llafur diflino wrth baratoi y llyfr gwerthfawr hwn sy'n tystio'n glir bod Duw wedi ymaflyd mewn dyn ar y llawr.

**H. Vincent Watkins**



# DIOLCHIADAU

Pleser i mi yw cydnabod fy nyled i sawl un am eu cynorthwy er dod a'r hanes hwn o Eglwys Calfaria i olau dydd. Diolchaf yn gyntaf i'r Parch. Ddr. D. D. Morgan, gweinidog yr Eglwys ar y pryd a'r swyddogion am ymddiried y gwaith hwn i'm gofal; yn ail, i'r diweddar ysgrifenyddion, John Griffiths, Aeron Villa, a Gwilym Davies, Mabons Row; y cyn-ysgrifennydd, Vernon Samuel, a'r ysgrifennydd presennol, Andrew Williams, am gofnodion manwl yr Eglwys o 1940, hyd yn awr. Eto, diolch i Dr. Morgan am ddogfennau helaeth o hanes a dynnodd allan o hen gopïau o *Seren Gomer* a *Seren Cymru*; i Vernon Samuel am lith gwerthfawr ychwanegol ac i Andrew Williams am fenthyg y gweithredoedd a rhai adroddiadau'r Eglwys.

Diolch cynnes iawn i'r Parch. Peter Richards, M.B.A. a Staff Tŷ Ilston am eu hynawsedd yn fy nerbyn i chwilota yn y llyfrgell, heb anghofio'r tê a'r bisgedi.

Datganaf fy nyled hefyd i rai o aelodau a chyn-aelodau hŷn yr Eglwys am sicrhau rhai atgofion nad oeddwn yn rhy siŵr ohonynt.


Cydnabyddaf yn ddiolchgar iawn gyfraniadau'r cyn-weinidogion, o 1957 ymlaen, am eu hanesion personol ac am eu hymdrechion unigol, arbennig dros lwyddiant a pharhad yr Eglwys annwyl hon.

Fe welwch bod cofnodion mwy na'r cyffredin am rai personau, yn frith drwy'r gyfrol, a hynny am iddynt fod yn 'bileri'r' Eglwys, mewn llawer ystyr; y meini bywiol a fu'n gymaint o ran yn adeiladaeth ysbrydol yr Eglwys, yn ei chynnal drwy ddrycin a hindda. Ni fyddai'r darlun yn gyflawn o gwbl, hebddynt. Bydded eu hymroddiad a'u ffyddlondeb hwy yn ysbrydiaeth newydd i ni'r, aelodau presennol, i gerdded ymlaen i'r ganrif nesaf, yn llawn hyder, ffydd a pharodrwydd i weithio er cadw drws Eglwys Calfaria ar agor, i bwy bynnag a ddymuna dderbyn yr Arglwydd Iesu Grist yn Iachawdwr.

Diau, fe welir llawer gwall yn y llyfr hwn, ond yr hwn a rydd y gofid mwyaf i mi bydd canfod i mi adael allan enw rhyw aelod ffyddlon o restr yr, 'Er Cof', a luniwyd oddiar 1940, adeg y cofnodion cyntaf. Nid o fwriad y bydd hynny ond oherwydd gwendid dynol.

Cyn gorffen, diolch cynnes iawn i Mrs Joan Davies am lunio clawr y llyfr; i Mr W. M. Davies am fap 1813 o ardal Penygroes; i Sian a Rhian Jones, Mrs Mary Roberts a Mrs Anita Humphreys am deipio'r sgript; ac i'r Parch. D. Dewi Jenkins am ddarllen y sgript ac am lawer awgrym gwerthfawr. Hefyd i Wasg Dinefwr am y gwaith graenus hwn a'i hir amynedd wrth ei baratoi.

**M. A. Griffiths**



*Eglwys y Bedyddwyr, Calfaria, Penygroes*



*Y Parch. Job Herbert, 1896-1941*



*Pennod I*

# CANMLWYDDIANT CALFARIA, EGLWYS Y BEDYDDWYR, PENYGROES, LLANELLI (1896-1996)

Cyn cychwyn yr hanes uchod, efallai y bydd o ddiddordeb i'r darllenwr wybod rhywbeth am bentref Penygroes. Fel y gwyddys, fe saif ar ochr ddwyreiniol y Mynydd Mawr, chwe chan troedfedd a mwy uwchben y môr. Yn ei wynebu gwelir y Mynydd Du a Mynydd y Betws a rhyngddynt ddyffrynnoedd Marlais, Aman a Llwchwr a'u pentrefi poblog – Llandybie, Cwmaman a Bwrdeisdref Rhydaman.

Pentref bach ac ifanc iawn oedd ar adeg cychwyn Achos i'r Bedyddwyr ynddo yn 1896. Yn ôl map o'r cylch, dyddiedig 1813, nid oedd 'run pentref yma, na sôn am bentrefi Gorslas, Cefneithin na Chross Hands. Ni welid yn y cylchoedd hyn ond rhan o Gomin y Mynydd Mawr, a hynny ddwy flynedd ar ôl Deddf Cau'r Tir 1811. Cawsai trigolion yr ardal o gwmpas ganiatâd i ddanfon eu hanifeiliaid i bori i'r man hwn o bryd i'w gilydd, ond ni welwyd ond llwybrau'n croesi drosto, er cysylltu'r gwahanol fannau a boblogwyd o amgylch y comin. Diddorol oedd sylwi taw'r pwysicaf ohonynt oedd yr un a gysylltiai Llandybie ag ardaloedd Penygroes, Gorslas a Chefneithin; yr un o ardal Maes y Bont i Gross Hands a'r un o Fanc y Llyn i Flaenhirwaun. Sylwer taw ar hyd rhain y datblygwyd pentrefi Penygroes, Gorslas, Cross Hands a Chefneithin, maes o law.

Gweundir pur lwm oedd ansawdd tir y Mynydd Mawr ond sylweddololdd trigolion prin yr ardal fod na gyfoeth gwerthfawr yn ei grombil, yr 'aur du', y glo caled gorau'n y byd. Felly bu twrio amdano yn rhan o weithgaredd y brodorion ers canrifoedd. Wrth hyn medrent ychwanegu at y fywoliaeth brin a gaent o'u tyddynnod a'u ffermydd bychain. Graddol oedd y poblogi yn yr ardal hyd nes i'r rheilffordd o Dir-y-Dail, Rhydaman, ymestyn i fyny i Benygroes ac i Gross Hands yn 1850 a datblygu gweddol gyflym o byllau bach glo gerllaw: y Cae Mawr, ar safle'r parc presennol, y Gilfach ar safle Bryngelli a'r California ar safle Gwaith Blociau Concrid Andrew Williams a'i Feibion.

Hyd yn oed yn 1865, ni chynwysai'r pentref ond un stryd a ymestynai o Gapel

Penygroes (1825) hyd safle Jeriwsalem (adeiladwyd yn 1875). Erbyn 1896 gwelid ddatblygu o stryd yr ochr arall iddi, ond dim ond ychydig dai hwnt ac yma oedd ar hyd heolydd y Gât, Waterloo a Phlasgwyn.

Bu agor Pwll Mawr yr Emlyn, gan Aeron Thomas, Abertawe, yn 1890 yn hwb sylweddol i'r fasnach lo yn yr ardal, ac yn symbyliad i ddylifiant cynyddol o 'bobl ddwad' i fewn i'r pentrefi, o bellafoedd gogledd Sir Gaerfyrddin a Siroedd Penfro, Aberteifi a Morgannwg. Diau bod ceisio llety a chartrefi i'r newydd ddyfodiaid hyn yn broblem enbyd, ond yn sgîl yr addewid am waith parhaol, fe ddaeth dau adeiladydd medrus a hirben, yn y man i gynorthwyo'i datrys. Y cyntaf oedd teulu Mr Peter Evans o ardal Llangeler ac ymhen ychydig Mr Lewis Davies o'r Cynghordy, ger Llanymddyfri. Y ddau hyn a'u teuluoedd a fu'n bennaf gyfrifol am adeiladu cartrefi newydd i'r mewnfudwyr. Yn raddol fe estynwyd y pentref ar hyd y pedair heol ac i Gorsddu. Codwyd siopau a masnachdai yng nghanol y brif stryd ac ar hyd Heol Waterloo a threfnwyd y Lamb Siding ger gwaith California i dderbyn nwyddau o bob math i ddiwallu anghenion y trigolion. Felly erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd Penygroes yn un o bentrefi mwyaf bywiog a phrysur yr ardal.

Roedd yma Ysgol Gyngor Newydd oddiar 1878 a rhaid bod rhyw gyfleusterau addysg cyn hynny. Soniai'r hen bobl am ysgolion ym Mhlas Cwmcoch a chan John Abel ac y mae hanes am Timothy Richard (Cenhadwr enwog i China, dan Gymdeithas y Bedyddwyr) yn dysgu mewn ysgol yma tua 1861-1862.

Gwael iawn oedd ffyrdd y fro a'r unig olau ar y stryd yn y nos oedd yr hyn a ddeuai o ffenestri'r siopau. Ceffyl a chart, trap a phoni, neu frêc a phâr o geffylau oedd yr unig gyfryngau trafnidiaeth. Rhaid oedd mynd i orsaf Llandybie cyn cael trên i fynd i Lanelli, Llandeilo ac Abertawe. Felly bywyd go gyntefig oedd rhan y pentrefwyr yn y cyfnod hwn, er hynny pentref ar ei dyfiant oedd.



*Pennod II*

# CYCHWYN YR ACHOS

Yn dilyn y ffyniant a'r cyffro yn yr ardal, cododd galwadau newydd am ddiwallu anghenion crefyddol y bobl. Roedd yr Annibynwyr eisioes wedi sefydlu Eglwys lewyrchus ar sgwâr y pentref oddiar 1825, a'r Methodistiaid Calfinaidd un yn 1875, ond mae'n amlwg taw prin iawn oedd rhif Bedyddwyr y cylch. Bu cychwyn eglwys yn Saron tua 1814, fel canlyniad i bregethu tanbaid y Parch. Tom Morris, Penrhiwgoch, yn yr ardaloedd oddi amgylch. (Twm deg capel, fel y'i gelwid.) Ond wrth gwrs ar yr adeg honno doedd ond y da a'r defaid iddo i'w cyfarch yn yr ardal hon. Rhaid oedd aros am fwy o bobl o'r tu allan i'r pentref i ddod i fewn i gynorthwyo cychwyn Achos i'r Bedyddwyr yma yn 1896. Gresyn yw nad oes yr un cofnod o'r dechreuad hwn ar gael, felly rhaid llwybro yn ôl traddodiad y tadau a'r mamau ac â'r briwsion bach prin a geir yn *Seren Gomer* a *Seren Cymru.*

Yng nghyfarfod dathlu Hanner Canmlwyddiant y diweddar Barch. Job Herbert yn y Weinidogaeth, cafwyd amlinelliad o hanes Eglwys Calfaria gan y brawd John Griffiths, Aeron Villa, Ysgrifennydd yr Eglwys. Soniodd bod rhai o aelodau eglwys Carmel yn gweithio ym Mhenygroes, ac yn ystod tywydd garw'r gaeaf byddent yn lletya yno yn ystod yr wythnos. Teimlent fawr angen am le i gynnal Cwrdd Gweddi a Dosbarth Beiblaidd, fel yr arferent yn eu heglwys gartref. Tystiai rhai Bedyddwyr eraill o blith y 'dynion dwad', iddynt deimlo 'run fath. Felly o'r awydd hwn gan fintai o 'du allan' i Benygroes yr eginodd yr ymdrech i godi man cyfarfod i'r Bedyddwyr yma.

**Yr Arloeswyr**

Y cyntaf i drafod y pwnc, tua Mis Hydref 1895, oedd y brodyr John Griffiths, Bwlch-carreg-y-Mynydd, Carmel, John Griffiths, Tŷ'r Glyn, a David Mathews, Fforest Fach. Cyn bo hir ymunodd William Thomas a James Jones, Casllwchwr, ac eraill â nhw. O dipyn i beth cafwyd rhai caredigion o'r pentref yn barod i agor eu drysau iddynt, er cynnal cyrddau gweddi. Y cyntaf o'r rhain oedd George Phillips, Caerbryn Fach, bwthyn a safai wrth ochr y rheilffordd a redai o Benygroes i Rydaman.

Cyn bo hir, teimlodd y cwmni bach angen am le mwy sefydlog, fel y gallent gynnal oedfaon pregethu ar y Sul ynddo. Cefnogwr mwyaf gwresog y brodyr hyn

oedd Gweinidog eglwys Carmel, y bardd bregethwr cenhadol ei ysbryd, y Parch. Dafydd Morgan (Mathryfardd). Yn ôl y Parch. W. J. Rhys, hanesydd yr Enwad, y gŵr hwn a fu'n annog Bedyddwyr y cylch, yn daer iawn, i roi pob cynorthwy posibl i'r ddiadell ym Mhenygroes er iddynt fedru sefydlu eglwys yma. Wedyn gwelwyd eraill o aelodau Carmel yn ymateb i'r alwad ac yn ymuno â'r aelodau cyntaf.

**Y Cartref Cyntaf yn 'Sied y Band'**

Ar yr amser hwn safai adeilad hirgrwn pren ar y man lle gwelir y Feddygfa bresennol. Yn ôl yr enw arno tebygid iddo fod yn fan ymarfer i'r seindorf leol rhywbryd ond erbyn hyn masnachdy gwag ydoedd. Er nad oedd yn fawr iawn, eto balch oedd y cwmni bach o fedru ei rentu oddiar Mr Price y perchennog a'i fabwysiadu'n fan cyfleus i addoli ynddo. Mae'n debyg iddynt gyd-gyfarfod yma'n gynnar yn 1896, ac yn ei ysgrif a welir yn *Seren Cymru*, Mawrth 25, 1898, rhydd y Parch. Job Herbert Ebrill 8, 1896, fel dyddiad sefydlu'r Achos. Ar y Sul cyntaf yn 'Sied y Band', gwelwyd y canlynol yn bresennol: John Griffiths, Y Bwlch, a'i deulu John Griffiths, Tŷ'r Glyn, a'i deulu; George Phillips, ei wraig a'i dad a'i fam-yng-nghyfraith; William Jones, Pantyclai, a'i frawd Daniel Jones; Dafydd Mathews; Hannah Rees, Glan Nant a'i merched; John Dafis, Cwmcoch, a'i deulu; William Thomas; James Jones a Richard Morgan.

Y Sul canlynol gwelwyd yno ychwaneg: Jenkin Davies, London House (hen daid y chwaer Margaret Samuel) a'i deulu; William Edwards, Spien; John Morgan; Barbara John a'i mab (y diweddar Barch. D. R. John) a Marged Harding. Parhau i gynyddu a wnaeth yr eglwys a daeth yn amlwg yn fuan y byddai'n rhaid ystyried adeiladu capel yn y dyfodol agos.

Y rhai cyntaf i bregethu yn yr eglwys fach oedd Mr D. P. Bevan, Llandybie, y Parch D. Morgans, Carmel a Thabor, Cross Hands, a'r Parch. D. Thomas, Llandeilo.

Cyflwynwyd yr achos yn swyddogol i sylw'r Cwrdd Chwarter ym Mhorthyrhyd, Llanwrda, a chorffolwyd hi yng Nghwrdd Chwarter, Bethania, Llanelli, Mai 1896. Pregethwyd ar yr adeg gan y Parch. W. E. Watkins ac M. Jones, Llandyfân. Derbyniwyd hi i'r Gymanfa ym Methel, Llanelli, a rhoddwyd iddi ganiatâd i adeiladu capel yr un pryd.

Yn ôl ysgrif yn *Seren Cymru*, Gorffennaf 3, 1896, ymwelodd y Parch. W. Watkins â'r ddiadell fach, yn ei swydd fel Llywydd Pwyllgor Cenhadol y Bedyddwyr. Ar ôl y bregeth, cafwyd anogaethau gwresog ganddo ef ac amryw o weinidogion eglwysi'r cylch, ar i'r aelodau gario ymlaen â'r gwaith da a ddechreuwyd ganddynt. Mor hyderus a ffyddiog oedd yr arloeswyr cynnar hyn fel y bu iddynt roddi galwad i'w gweinidog cyntaf, y Parch. Job Herbert, Bethlehem, Porthyrhyd, a Sitim, Felingwm, ym mis Awst 1896.



**Y Gweinidog Cyntaf – Y Parch. Job Herbert**

Diau bu cael gweinidog o fath y Parch. Job Herbert yn gynorthwy mawr i'r Eglwys hon. Ordeiniwyd ef ym Methlehem, Porthyrhyd, a Sitim, Felingwm, ym mis Mai 1889; felly roedd bron wyth mlynedd o brofiad tu cefn iddo.

Brodor o Drecynnon, Sir Forgannwg, oedd. Ganwyd ef ar Dachwedd 14, 1863, a bedyddiwyd ef yn 14 oed yn Libanus, Treherbert, gan y Parch. Lewis Jones. Anogwyd ef i ddechrau pregethu yn 17 mlwydd oed, ac yntau'n brentis groser ym Mhenarth. Addysgwyd ef yn Academi Aberfan a Phontypridd a derbyniwyd ef i Goleg Pontypŵl ym mis Medi 1886.

Roedd y Parch. Job Herbert yn fawr ei barch yn y ddwy Eglwys dan ei ofal oherwydd ei bregethu grymus, ei ymroddiad cydwybodol i'w waith fel bugail a'i ymddygiad boneddigaidd a siriol.

Roedd hefyd yn gerddor medrus, a bu'n cynnal dosbarthiadau Sol-ffa, yn gyson yn ei Eglwysi. Aelod o Bethlehem oedd Mrs Herbert hefyd ac yn y cyfarfod ymadawol i'r ddau, talwyd teyrnged uchel iddi hithau. Ynghyd â'r dysteb a gawsant, cynhaliwyd 'Cantata'r Tymhorau' gan Gôr yr Eglwys, yn werthfawrogiad ychwanegol iddynt.

**Y Diaconiaid Cyntaf, 1896-1912**

Mae'n debyg y bu tair etholiad rhwng 1896 a 1912, a rhestrwyd y canlyniadau isod, gan y diweddar Eben Griffiths:

| | |
|---|---|
| **Yr Etholiad Gyntaf** | John Griffiths, Y Bwlch (fel yr adnabyddid ef); John Griffiths, Tŷ'r Glyn, a David Mathews. |
| **Yr Ail Etholiad** | John Davies, Cwmcoch; William Edwards, Spien; Jenkin Davies, London House; Eben Griffiths, Caerbryn, a William Jones, Pant y Clai. |
| **Y Trydydd Etholiad** | John Davies, Brynyreithin, Dafydd Bowen, Tŷ Uchaf, Thomas Richards, Heol y Meadows, Cross Hands; Daniel Jones, Pantyclai a Stephen Davies, Cwmcoch. |

Dyma'r gwŷr glew a gymrodd arnynt y baich a'r cyfrifoldeb o adeiladu capel i'r Bedyddwyr, ym Mhenygroes yn 1898.

## ADEILADU'R CAPEL

**Prynu'r Tir**

Mynd yn ei blaen a wnaeth yr Eglwys ifanc a phenderfynu bod rhaid adeiladu capel i gwrdd â'r cynnydd yn yr aelodaeth. Tua mis Medi 1897 gwnaed ymholiad ynglŷn â'r darn tir y saif y capel presennol arno. Yr Anrhydeddus Archibald Vaughan, Arglwydd Emlyn oedd y perchen, ac ar Rhagfyr 19, 1897, arwyddwyd cytundeb rhyngddo ef â'r 'Baptist Connection' am lês o'r tir am 99 mlynedd, am 30s (£1.50c) y flwyddyn.

Jenkin Davies, London House, oedd yn gyfrifol am y cytundeb cyntaf ond ar Ebrill 28, 1898, gwnaed un arall, yn trosglwyddo'r lês i enw'r holl ymddiriedolwyr 'to Mr John Griffiths, Bwlch Carreg y Mynydd, and others'. Gwelir rhestr llawn o'r enwau ar ddiwedd yr ysgrif hon.

**Y Capel**

Gellir synhwyro'r awydd a'r brwdfrydedd dros adeiladu'r capel a berthynai i'r ddiadell fach, oherwydd tynnwyd cytundeb adeiladu rhwng Mr Lewis Davies (yr adeiladydd dewisiedig) a'r ymddiriedolwyr ar Fawrth 12, 1898, mwy na mis cyn gorffen y cytundeb am y tir. Roedd y garreg sylfaen i'w gosod yr wythnos gyntaf o Ebrill 1898 a'r gwaith i'w gwblhau erbyn y dydd olaf o Awst 1898. Trefnwyd seddau i 260 o bobl ar y llawr yn unig, gyntaf, a gobeithid adeiladu orielau (*galleries*) nes ymlaen. Pinwydd oedd defnydd y seddau a'r pulpud, a lleolwyd y fedyddfan o dan y sedd fawr. Amcanwyd taw £660 fyddai'r draul am hyn, ond tebygai'r Parch. Job Herbert y byddai'n nes i £750 i £800 erbyn bod y capel yn hollol barod i'w ddefnyddio.

Yn sicr baich go drwm oedd hwn i eglwys cyn lleied ei rhif i'w ysgwyddo. Glowyr, tyddynwyr a pherchenogion busnesau bach y pentref oedd yr aelodau a go brin oedd eu bywoliaeth. Felly rhaid eu bod wedi aberthu er mwyn cychwyn yr Achos. Clywsom fod John Griffiths y Bwlch, wedi gwerthu buwch tuag at y cyllid a thebyg iawn bod eraill wedi cyfrannu'n aberthol mewn ffyrdd eraill.

**Dulliau Cod Arian**

Mae'n amlwg bod llawer o weithgareddau arbennig ar waith, er codi arian. Fe welwyd yn hen lyfr cownt yr Eglwys o ddechrau'r ganrif gyfeiriadau at Eisteddfodau, Nosweithiau Gyda'r Delyn a Darlithiau, a gynhelid er chwyddo'r gronfa.

Yn *Seren Gomer* Chwefror 25, 1898, ceir nodyn am gymdeithas Adulam, Felinfoel, yn dod i fyny i Benygroes i gynnal cantata 'Joseph a'i Frodyr' a throsglwyddo'r elw i gyd i'r gronfa. Ar ôl agor y capel, trefnwyd bod pob aelod i dalu o dair i chwech cheiniog y mis am ei sedd. Ar adegau Cyrddau Blynyddol a Hanner Blynyddol, trefnwyd casgliadau penodol o swllt i chweugain (5cn – 50cn) yr aelod fel bo'r gallu. Cofier taw bach iawn oedd cyflog y gwŷr mewn oed, yr adeg honno, o bunt i ddwy bunt, ac ambell i löwr ffortunus yn medru crafu ychydig yn fwy. Heblaw hynny roedd llond tŷ o blant gan y mwyafrif o'r aelodau.

**Clirio'r Ddyled**

Wrth gwrs roedd rhaid benthyca corff y draul er talu'r adeiladydd fel yr âi'r gwaith ymlaen. Benthyciwyd symiau wrth Banc yr Eidion Du, ac wrth unigolion eraill, rhai o fewn yr Eglwys a rhai o'r tu allan. Rhwng talu rhan o gorff y ddyled a'r llog



bob blwyddyn, codi'r orielau tua 1903 a phrynu lês y tir, ni chaed yr Eglwys yn rhydd o ddyled tan 1921. Dathlwyd y Jiwbili y flwyddyn hon ac er nad oes gennym nodyn am yr amgylchiad mae cof gennyf am dê parti go iawn a chyrddau pregethu arbennig, a rhai o'r hoelion wyth yn cymryd rhan.

**Agor y Capel**

Ni orffennwyd adeiladu'r capel erbyn y dyddiad penodedig. Mae'n anodd dweud paham. A oedd gormod o wasgfa ar yr adeiladydd i sicrhau tai i'r mewnfudwyr neu a oedd yr Eglwys yn methu a dod o hyd i ddigon o arian i gwrdd â'r gofyn? Pwy â ŵyr? Beth bynnag yn ôl nodyn yn *Seren Cymru*, Rhagfyr 30, 1898, gwelir taw yn niwedd mis Tachwedd y cynhaliwyd y Cyfarfod Agoriadol cyntaf, a bu cyfarfodydd pregethu'n dilyn am dros bythefnos, Sul Tachwedd 27 i Ddydd Mawrth, Rhagfyr 13. Ni fu cynifer o gyfarfodydd gyda'i gilydd mewn un man, er cof neb. Clywyd sêr y Bedyddwyr a rhai a berthynai i enwadau eraill yn pregethu yno, ar eu gorau.

Fel y bu datblygiad cyson yn hanes pyllau glo'r Emlyn, Caerbryn a Chross Hands, felly hefyd y bu amlhau yn nifer aelodaeth eglwysi'r cylch, a Chalfaria yn eu plith.

Daethom ni yma fel teulu yn 1910 a gwn am sawl teulu arall a ymaelododd yn yr eglwys tua'r un adeg. Nid oedd y 'dynion dwad' yn dderbyniol iawn gan yr hen drigolion ar y cyntaf ond yn raddol, fel y cymerasant hwy eu lle ym mywyd y pentre ac yng ngweithgareddau'r Eglwysi, fe'u derbyniwyd yn llawen.

**Bywyd yr Eglwys yn y Capel Newydd**

Fel y gwelir, Calfaria oedd y dewis enw ar y capel. Pa rif oedd yn perthyn i'r eglwys yr adeg honno, mae'n anodd dweud, ond erbyn 1910, roedd y mwyafrif o'r seddau wedi eu neilltuo i ryw deulu neu'i gilydd. Dim ond y sedd bellaf wrth ochr chwith y pulpud oedd ar gael i ni fel teulu, felly barnaf bod yr Eglwys dros y cant mewn aelodaeth erbyn hyn. Er mai prin tair oed oeddwn pan ymwelais â'r capel am y tro cyntaf, cofiaf yn dda am y syndod a deimlais wrth weld y llawr yn llawn, a'r llu o wynebau o'm blaen. Wrth gwrs roedd hyn yn bod am fod plant gan bron bob teulu ac arferai'r rhai llai eistedd gyda'u rhieni ar y llawr, tra caniateid y rhai hŷn, yn ferched a bechgyn, i eistedd ar y galeri gyda'r 'gwrandawyr'. Roedd llawer o'r olaf i'w gweld yno weithiau – pobl mewn oed nad oeddent wedi eu bedyddio nac wedi ymaelodi mewn unrhyw Eglwys.

Cofiaf yn dda y tro cyntaf i mi weld y Parch. Job Herbert yn y pulpud. Fel Rhys Lewis, tybiais innau am ei fod yn sôn cymaint am yr Arglwydd Iesu taw efe oedd yr Iesu. Ar yr adeg honno, roedd ef a'i wallt a'i farf du mor debyg i'r darlun o'r Iesu a oedd ar fur ein cegin gartref. Yn raddol wedyn y sylweddolais taw am un arall y soniai.

Bodau parchus dros ben oedd y llond Sedd Fawr o ddiaconiaid a welwn yno bob Sul, a'r mwyafrif ohonynt yn medru cymryd rhan yn y Cyrddau Gweddi ac yn y Gyfeillach a gynhelid ar ôl Gwasanaeth y Cymun.

**Gweithgareddu'r Eglwys**

Sefydlodd Eglwys Calfaria batrwm o weithgareddau crefyddol yn gynnar iawn yn ei hanes; gweithgareddau addas i bob oedran o'i haelodau.

**Y Cwrdd Gweddi**

Dyma'r sail yr adeiladwyd yr Eglwys arni o'r dechreuad pell, megis y bu yn nechreuad y mwyafrif o Eglwysi Enwadol Cymru. Nid y diaconiaid yn unig a gymerai ran ond llawer y tu allan i'r Sedd Fawr, yn wŷr a gwragedd. Coffa da am Richard Morgan, Josua Griffiths, John Davies, Maes y Gwaed, Henry Davies, William Davies, Mrs John, Miss Let Rees a Mrs Josua Griffiths.

Oddiar y flwyddyn 1900, cynhelid Cwrdd Gweddi, fore a hwyr ar y Sul, unwaith y mis, oherwydd y flwyddyn honno derbyniodd y Parch. Job Herbert ofal am Benrhiwgoch, ac felly am ddau Sul y mis, yn unig y pregethai yng Nghalfaria. Gwasanaethwyd gan leygwr neu fyfyriwr ar y trydydd Sul. Bu'r Parch. Evan George, Capel Hendre yn ymwelydd cyson yma am rai blynyddoedd wedi'i ymddeoliad cynnar oherwydd dallineb. Pregethai'n felys, gyda chymorth y 'Braille'.

**Y Cwrdd Gweddi Cenhadol a'r Cwrdd Paratoad**

Cynhaliwyd hwn bob nos Lun cyntaf yn y mis. Un cefnogol iawn i'r Genhadaeth Dramor oedd Mr Herbert. Efe a fyddai'n gyfrifol am ddosbarthu'r *Missionary Herald*, am ddosbarthu cardiau casglu'r plant ac am eu gwobrwyo am eu gwaith. Rhwng yr arian a gasglwyd felly a chasgliadau cyson y cyrddau gweddi misol, medrai'r Eglwys drosglwyddo cymorth sylweddol i'r Genhadaeth Dramor bob blwyddyn. Ar ôl dydd y Parch. Job Herbert parhawyd y gwaith da drwy ymdrechion y chwiorydd canlynol: Mrs John, Mrs Mary Ann Griffiths; Mrs A. M. Thomas; a Miss A. J. Davies; Mrs (Parch.) Bryn Jones; Miss Mabel Edwards a Mrs Margaret A. Griffiths.

Arferid cynnal y cwrdd Paratoad ar y nos Iau cyn Sul y Cymundeb. Cwrdd amrywiol o ddatgan profiadau, darllen rhannau o'r Ysgrythur a gweddïo oedd, a pharatoad teilwng i'r Oedfa Gymun, cwrdd o naws arbennig ac ynddo'n aml amlygwyd llawer dawn annisgwyl.

**Cwrdd Gweddi'r Bobl Ifanc**

Cynhelid rhain ar fore Sul, am 9.30 o'r gloch. Yma bu meithrin pobl ifanc i weddïo'n gyhoeddus fel y bônt maes o law yn aeddfed i gymryd lle'r gweddïwyr hŷn, fel y byddent yn llesgáu neu'n cael eu galw adref.



**Yr Ysgol Sul**

Bu hon yn ddylanwad adeiladol iawn ym mywyd yr Eglwys, yn enwedig pan oedd yn ei bri yn ystod hanner cyntaf y ganrif hon. Mynychwyd hi gan nifer fawr o'r aelodau o bob oedran. Yn ei hanterth, hyfryd oedd yr olygfa; dosbarthiadau ym mhob cwr o'r llawr a'r galeri. Gellid ei thebygu i gwch gwenyn, yn llawn murmur a sisial, a'r sŵn yn cynyddu'n raddol fel y codai gwres y dadlau yn y dosbarthiadau, nes yn y diwedd rhaid oedd i'r Arolygwr geisio tawelu'r dwndwr drwy glapio'i Feibl yn galed ar ford y Sedd Fawr. Nes ymlaen, prynwyd cloch at y gwaith angenrheidiol hwn.

Nid oedd prinder athrawon yn y cyfnod cynnar hwn, diaconiaid ac aelodau tu allan i'r Sedd Fawr, yn wŷr a gwragedd. Mrs Williams y Bandmaster oedd f'athrawes gyntaf i, yn bum mlwydd oed, yn cael dysgu'r A, Bi, Ec. Un fywiog a llawen iawn oedd hi hefyd. Erys ei mab, y brawd Eddie Williams yn aelod gyda ni o hyd, er ei fod yn cartrefu nawr yng Nghartref Awel Tywi. Ei hwyresau yw Mrs Betty Jenkins a Mrs Glenda Mathias.

Cofir yn arbennig hefyd am ddosbarth John Dafis, Brynyreithin, ac yntau'n ceisio ymgodymu â rhyw 18-20 o fechgyn o'r 16-35 mlwydd oed. Roedd y gloch fach yn aml ei sain ar adegau dadleuon mwy ffyrnig nag arfer yn y dosbarth hwn. Gwelaf yn awr, yr hen ŵr â'i wên foddhaus, a'i ddannedd i gyd yn y golwg, pan deimlai fod rhai o'r bechgyn gwybodus, modern eu syniadau, wedi methu â'i lorio. Ie, yr Ysgol Sul oedd meithrinfa gadarn yr aelodau yn yr Ysgrythurau a magwrfa effeithiol i lu o ddiaconiaid, athrawon ac egin bregethwyr. Roedd yn golled enbyd i lwyddiant yr Efengyl a naws ysbrydol ein Heglwysi pan ddaeth trai ar yr Ysgol Sul.

**Trip a Thê Parti'r Ysgol Sul**

Gwefreiddiol oedd y disgwyl ymlaen am drip yr Ysgol Sul i blant dechrau'r ganrif. Abertawe oedd y dewis fan hyd ddiwedd y Rhyfel Byd Gyntaf (1914-1918) ac amheuthun o brofiad oedd ymweld â'r ddinas fawr a rhodio glan y môr. Mynd ar y trên o Landybie oedd raid y pryd hwnnw. Cludid y plant a'u mamau ym mrêc Mr George Rees, tra cherddai'r gwŷr a'r ieuainc y ddwy filltir a hanner i Landybie. Cerbyd hir â seddau bob ochr iddo oedd y brêc a thynnwyd ef gan ddau geffyl cryf, taith go rwydd wrth fynd i lawr ond un pur drafferthus wrth ddod nôl i Benygroes, i fyny'r 5-6 tyle fel yr oedd y ffordd y pryd hwnnw.

Ar yn ail flwyddyn â'r trip cynhaliwyd tê parti, a hwnnw yn y capel. Dodwyd planciau hir ar draws y seddau, i gymryd lle bordydd ac yr oedd yn drefniant hwylus iawn, gan nad oedd gennym festri. Syml iawn oedd y wlêdd ond roedd y jeli, y bara brown a gwyn a'r cêc yn dipyn o foethau i ni, blant yr oes honno.

Ar ôl y rhyfel daeth dulliau teithio mwy hwylus i fod, megis y charabang, ac o hynny ymlaen 'doedd wiw' sôn am dê parti mwyach, ond trip bob blwyddyn, ac

nid i Abertawe chwaith ond yn hytrach i Borthcawl, Tenby neu Barry. Wrth gwrs nid ar chwarae bach y rhoddai'r rhieni hŷn i fyny y cyfle i fynd i Abertawe. Onid oedd yn fan hwylus i brynu dillad newydd? Oherwydd hyn bu llawer dadl wresog, cyn penderfynu'r union le i ymweld ag ef. Yn y diwedd y plant a'r bobl ifainc a orfu ac aeth Abertawe allan o'r rhestr yn llwyr.

### Y Cyfarfodydd Chwarterol

Bob rhyw dri neu bedwar mis cynhelid yr uchod, pryd y cymerai aelodau'r Ysgol Sul at y gwasanaeth hwyrol yn gyfangwbl. Clywid y plant yn canu unawdau, deuawdau, mewn partïon neu'n adrodd yn unigol. Yna cai'r ieuenctid a'r oedolion eu cyfle, ond penllanw'r cyfarfod oedd datganiad y côr, o wŷr a gwragedd. Dyma'r fan y cai disgyblion yr Ysgol Sul arfer eu doniau, er rhaid dweud taw swil iawn oedd plant dechrau'r ganrif i gymryd rhan yn unigol, ond gyda thipyn bach o berswâd gan yr Athrawon a'r Arolygwr cytunent i wneud hynny.

### Yr Ysgol Gân

Tebyg i Gymru ddod yn 'Wlad y Gân', yn ystod chwarter olaf y ganrif o'r blaen, a hynny'n bennaf drwy ymdrechion arloeswyr megis Ieuan Gwyllt, Ambrose Lloyd a Tanymarian i sefydlu'r Gymanfa Ganu ac i hybu'r wybodaeth o'r Sol-ffa ymysg y werin. Dyma sefydliad a apeliodd at anian grefyddol a cherddorol y Cymry. Enillodd y Gymanfa lawer trwy ei chysylltiad â phrif gerddorion y dydd a thrwyddynt hwy codwyd safon ein canu cynulleidfaol. Bu eu cyfraniad gwerthfawr a gwych i'n llyfrau emynau a'n rhaglenni, mewn tonau ac anthemau, a chaneuon i blant yn dreftadaeth y gallwn ymfalchïo ynddi.

Bu Eglwys Calfaria'n ffodus o'r cychwyn cyntaf, iddi gael rhai brodyr cerddorol ymhlith eu harloeswyr. Mae'n debyg taw'r brodyr Jenkin Davies a William Vaughan oedd yr arweinyddion canu cyntaf. Mae 'na ddarlun ar glawr o gôr dan arweiniad yr olaf, a dynnwyd tua 1902-1904. Gwelir ynddo ddeg ar hugain o frodyr a chwiorydd cymharol ifanc.

Y brawd John Griffiths, Tŷ Uchaf (Aeron Villa), oedd Arweinydd y Gân cyntaf a gofiaf i, tua 1912, y brawd R. T. Roberts yn arweinydd y plant a'r brawd Sidney Morris wrth yr organ, a leolwyd ar y galeri, uwchben y cloc, y pryd hwnnw. Paratoi'r plant a'r oedolion erbyn Cymanfa'r Pasg oedd prif waith y brodyr da hyn, a hynny ar ôl yr Ysgol Sul, y cyfarfod hwyrol, ac ar nos Fercher.

Ar ddechrau'r ganrif, perthynai'r Eglwys i Gylch Saron a Rhydaman, ond tua 1913 ymwahanodd y ddau Gylch, oherwydd y cynnydd mawr yn y ddwy adran. Erbyn hyn, gwaetha'r modd, gorfu iddynt ail-ymuno oherwydd y lleihad yn y cantorion.



### Y Gymanfa Ganu

Penllanw'r ymarfer brwd drwy'r gaeaf, ar emynau ac anthemau rhaglen y flwyddyn oedd y Gymanfa, a disgwylid ymlaen yn eiddgar am Sul a Llun y Pasg gan aelodau'r eglwysi, am flynyddoedd lawer. Cymaint oedd y pleser wrth ymweld â'r eglwysi Saron, Tycroes, Llandybie a Llandyfan a chwrdd â hen gyfeillion, a chael tê a chinio gyda'n gilydd rhwng yr oedfaon, a gwneud hynny'n aml, ym malchder ein dillad newydd gogyfer â'r achlysur!

O'r braidd, y mae cof na syniad gan ein hieuenctid am y tyrfaoedd a fynychai'r Gymanfa a'r rihyrsal a gynhelid dros benwythnos y Pasg, capel llawn i bob oedfa, cynulleidfa ddisgwylgar ar y llawr, yn llawn edmygedd o'r côr trwsiadus ar y lloft. Mor fawr y wefr a redai drwy'r gynulleidfa wrth weld yr arweinydd gwâdd yn esgyn i'r pulpud er mwyn dechrau ar ei waith! Coffa da am rai o'r enwogion a ymwelodd â ni, sef y Mri. Daniel Jones, Pontypridd (ac o Gefneithin); Emlyn Evans, o Gaerdydd; John Davies, Treorci, ac Arthur Duggan. Ie, dyddiau braf oedd rheiny pan glywyd canu'r anthemau godidog, megis 'Teyrnasoedd y Ddaear', 'Dyn a Aned o Wraig', 'Y Nefoedd Sy'n Datgan' a llu eraill o weithiau Handel a'r Meistri yn diasbedain drwy'r wlad.

### Gwaith Cerddorol Ychwanegol

Nawr ac yn y man paratowyd y côr i berfformio ryw waith corawl arbennig er ei lwyfannu. Y cof cyntaf sy gennyf am gymryd rhan mewn perfformiad o'r fath oedd adeg llwyfannu 'Judas Macabaeus', a hynny tua 1914. Trefnwyd y prif gymeriadau i ganu ac adrodd oddiar lwyfan a adeiladwyd dros y Sedd Fawr, a'r côr yn blant ac oedolion – yn canu ar y ddwy galeri bob tu i'r llwyfan. Y peth a erys fwyaf yn fy nghof yw'r 'Magic Lantern' a ddefnyddiwyd er taflu darluniau o'r helyntion cyffrous ar y sgrîn tu cefn; y milwyr yn fyddinoedd di-ddiwedd a'r syndod mwy oedd gweld yr eliphantod trwm yn drwsgl gerdded gyda hwynt. Ni welwyd y fath olygfa erioed yn y pentre cyn hyn, oherwydd roedd y 'pictiwrs' allan o'n cyrraedd yr adeg honno. Llwyfannwyd sawl cantata arall ar ôl honno, megis Dafydd a Goliath, Dafydd a Jonathan a Tywysog Tangnefedd yn ystod y cyfnod hwn, ond ni ddefnyddiwyd y 'Magic Lantern' byth wedyn. Pam tybed? Ond nid pawb oedd yn cyd-fynd â defnyddio'r fath offer yn y capel!

### Urdd y Seren Fore

Mudiad oedd hwn a ddechreuwyd yng Nghalfaria er cwrdd â dymuniad pwyllgor Undeb Rhydaman am gynnal Cymanfa blant a Gorymdaith, yn cynnwys plant Eglwysi'r cylch, ar y Llun cyntaf o wythnos yr Undeb yn 1933. Dewiswyd y dair chwaer, Edith John (Davies), A. M. Edwards a Margaret A. Griffiths i gymryd at y gwaith, dan arweiniad y Gweinidog. Bu'r Gymanfa a'r Orymdaith yn llwyddiannus iawn. Parhawyd i gynnal y Gymanfa hon, dan nawdd Pwyllgor Cylch

Saron. Rhaglenni Cenedlaethol Pwyllgor yr Urdd a ddefnyddiwyd, yn oedfaon y plant, a gynhelid bob nos Fercher. Ar ôl tymor y Gymanfa Ganu, dilynwyd hefyd raglen gweithgareddau'r Urdd, a gynhwysai adroddiadau a hanesion addas i blant, allan o'r Beibl. Roedd hon yn noson boblogaidd iawn a'r plant a'u ffrindiau o 7-14 oed yn cyd-ddysgu a mwynhau'n llawen. Bu'r Parch. Job Herbert yn gefnogol iawn i'r oedfaon ac yn amlwg wrth ei fodd yng nghwmni'r plant, hyd nes i'w nerth ballu. Parhawyd y gwaith wythnosol hwn hyd gyfnod perfformio'r cantawdiau yn ystod gweinidogaeth y Parch. E. Bryn Jones, ond parhawyd i baratoi gogyfer â Chymanfa'r Urdd am lawer blwyddyn wedyn.

**Y Band of Hope**

Mudiad Dirwestol y Plant oedd hwn, a bu yng ngofal Mr Herbert am rai blynyddoedd. Ar ddiwedd pob tymor anrhegwyd pob plentyn â thystysgrif ar yr amod ei fod yn ceisio cadw rhag yfed y ddiod feddwol. Ceisiwyd eu darbwyllo drwy adrodd iddynt storïau am ddioddefaint plant a'u mamau oherwydd bod y tad wedi syrthio i afael y gelyn hwn.

**Y Gymdeithas Ddiwyllidol**

Cymdeithas o wŷr a gwragedd o bob oedran oedd hon, a chynhelid hi ar nos Wener, yn ystod misoedd y gaeaf. Roedd yn fy meddiant hyd yn ddiweddar gopi o raglen a ddilynwyd yn 1902, felly gwelwn ei bod yn ran o weithgaredd yr Eglwys ers yn gynnar iawn yn ei hanes. Cwestiynau a phroblemau cyfoes byd ac Eglwys, a hanesion y gwroniaid a fu oedd mwyafrif y testunau, a threuliwyd llawer awr ddifyr yn dadlau a cheisio datrys ambell broblem ddyrus. Weithiau byddai gwres y dadleuwyr yn codi'n bur uchel ond pan fyddai pethau'n bygwth mynd dros ben llestri fe arweiniai'r gweinidog y dadleuwyr nôl yn dirion i dymheredd mwy cymhedrol.

Yn sicr cafodd ein ieuenctid bob cyfle i ymarfer eu doniau'n gyhoeddus yn ystod gweinidogaeth y Parchgn. Job Herbert a Bryn Jones. Ond edwino wnaeth y gymdeithas ar ôl hynny.

**DIGWYDDIADAU ARBENNIG**

**Y Diwygiad 1904**

Dyma'r digwyddiad mwyaf ysgytwol yn hanes Eglwys Calfaria ac Eglwysi'r cylch. Er y gwelliant tymhorol a ddaeth i ran trigolion yr ardal yn sgîl ffyniant y pyllau glo, ni welwyd mwy o ddiddordeb ac ymroddiad i'r bywyd crefyddol. Roedd meddwi'n beth cyffredin yn hanes rhai glowyr ac o'r herwydd dioddefai eu plant a'u gwragedd dlodi enbyd. Nid rhyfedd felly i aelodau'r Eglwysi fwrw ati'n gyson i weddïo'n daer am adnewyddiad ysbrydol, rhai wythnosau cyn dyfod y Diwygiad.



Yn ôl ysgrif y Parch. Job Herbert yn *Seren Cymru*, Mawrth 10, 1905, gellid dweud bod y Diwygiad wedi dechrau yng Nghalfaria gyda ymweliad y Parchgn. E. T. Jones, Llanelli, a'r Dr Gomer Lewis, Abertawe ar y 13 a 14 o Dachwedd, 1904 – dau bregethwr o'r cryfaf eu dylanwad, ac yn eu dilyn ar Dachwedd 25 y Parch. D. Morgan (Mathryfardd), Carmel, hwnnw'n dân eirias yn ei gymhellion i'r defaid crwydredig, i ddychwelyd i'r gorlan. O'r mis hwnnw hyd fis Mawrth 1905, cynhaliwyd cyrddau gweddi bron bob nos. Profwyd amser eithriadol o gyffrous a chynhyrfus. Bedyddiwyd pedwar ar ddeg o bersonau ac adferwyd wyth o blith y gwrth gilwyr (y *back sliders*). Heblaw hyn gwelwyd amryw o bobl ifanc o enwadau eraill yn ymofyn am y fraint o ddilyn yr Arglwydd Iesu drwy fedydd trochiad.

Derbyniwyd y Diwygiad yn llawen gan y mwyafrif o aelodau'r Eglwysi, fel tywalltiad o'r Ysbryd Glân, megis yn hanes yr Eglwys Fore. Mynegwyd y llawenydd a'r gorfoledd a deimlwyd gan y sawl a ddaeth i adnabod yr Arglwydd Iesu, am y tro cyntaf, mewn gwahanol ffyrdd, yn ôl eu hanian a'u natur. Mae'n wir i'r mynegiant o or-deimlad yr ystumio afreolus, y llesmeirio a'r canu di-baid dorri ar draws trefn y gwasanaeth arferol yn aml, a bu'n peri cryn anesmwythyd a gofid i rai aelodau a'r gweinidogion lleol. Er hynny, sobrwyd trigolion y pentre drwyddynt gan y dylanwad nerthol a buddiol hwn. Trodd llawer tad meddw, hunangar a thrahaus i fod yn un cyfrifol a chariadus. Collodd y tafarndai eu swyn a gwelwyd llawer o'u mynychwyr gynt yn ymuno â'r Eglwys ac yn y man yn dod yn aelodau ffyddlon a gweithgar.

Fe barhaodd gwres y Diwygiad yn hirach yn ardal Penygroes na braidd yn yr un ardal arall, ond yn raddol fe dawelodd y cyffroadau mawr. Doedd hyn ddim wrth fodd rhai. Hoffent hwy gael gwasanaethau mwy rhydd na'r traddodiadol, fel bo unigolion yn medru cymryd rhan ynddynt, fel y symudid hwynt gan yr ysbryd. Bu hyn yn gryn benbleth i'r diweddar Barch. W. Bowen, gweinidog eglwys Penygroes, ond tystiai gweinidog Calfaria na chafodd ef ei rwystro rhag pregethu 'run waith. Er hynny teimlai'n flin lawer tro bod rhai o'i aelodau pybyr yn rhy barod i ddilorni agwedd dawelach yr hen grefyddwyr profiadol.

Diau bod hi'n amser caled ar y gweinidog wrth geisio cadw heddwch rhwng y ddwy blaid; ond cyn bo hir rhwyg a fu, ac erbyn 1910 roedd o leiaf un diacon a'i deulu a sawl teulu arall wedi ymadael â'r eglwys, i ymuno ag aelodau o debyg ddaliadau, o'r Eglwysi eraill. Maes o law ffurfuasant Eglwys Efengylaidd Anenwadol, ac adeiladu capel iddynt eu hunain ar flaen Heol Gorsddu.

Bu'r rhwyg yn dipyn mwy tyngedfennol yn Eglwys Penygroes, fel y gwelodd y Parch. William Bowen taw gwell iddo ef oedd ymuno â'r ymwahanwyr a dechrau Achos newydd i'r Annibynwyr ym Mynydd Seion. Ond ymwahanu eto a fu hanes yr ymwahanwyr cyntaf, a hwy a fu'n gyfrifol am yr Eglwys Apostolaidd bresennol.

Clywais amryw weinidogion a ddaeth yn eu tro i bregethu yng Nghalfaria, yn talu teyrnged uchel i'r Parch. Job Herbert am ei arweiniad doeth i'r Eglwys yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Eglwys gynnes ac ysbrydol ei naws a fu Calfaria er cof gennyf fi, a'r gweinidog yn pregethu'n rymus efengylaidd bob amser. Cai'r swyddogion a'r aelodau o'r llawr gyfle i ddatgan eu profiadau yn y seiadau ar ôl y gwasanaeth Cymun ac yn y Cyrddau gweddi fel y dymunent. Felly er y gwahanu hwn, mynd yn ei flaen a wnaeth yr Achos, a chynyddu mewn aelodaeth a dylanwad.

**Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, Mehefin 12, 13 a 14, 1911**

Doedd hi ddim yn arferiad i gynnal y Gymanfa yng nghapel Eglwys y Llywydd yn y cyfnod hwn, felly nid y Parch. Job Herbert oedd y dewis Lywydd yn y Gymanfa hon, ond ei ffrind agos y Parch. B. Humphreys, Adiwlam, Felinfoel. Heblaw trefnu materion eglwysig, ei phrif bwrpas oedd pregethu i'r tyrfaoedd. Gwelir bod oedfaon pregethu i'w cynnal ym Mhorthyrhyd, Tabor a Saron ynghyd â chyrddau yng Nghalfaria. Cofnodaf restr o'r gweinidogion a gymrodd ran oherwydd mae gan ychydig ohonom gof am rai ohonynt a bydd eraill wedi clywed sôn amdanynt gan eu rhieni: Y Parchng. David Griffiths, Gelliwen (1 Tim iv, 1 a 2), mab y brawd John Griffiths, Y Bwlch; D. P. Williams, Penygroes, (Salm 36;) H. Evans, Penrhyncoch; D. D. Lewis, San Clêr; T. Idwal Jones, Drefach, Llandysul; H. R. Jones, Cydweli; D. Griffiths, Talog; B. Humphreys, Felinfoel; John Williams, Aberteifi; M. T. Rees, Meinciau; Trefor Jones, Llanelli; R. Jones (Trebor Aled), Talybont; R. E. Williams, Pembroke; T. R. Williams, Maescanner; N. W. Hopkins, Felingwm; R. Gimblett, Mydrim; G. E. Williams, Llangynnog; J. D. Evans, Pencader; D. Bassett, Penparc.

Diddorol yw cofnodi dau o benderfyniadau'r Cynhadledd:

1. Danfon llongyfarchion i'r Brenin Sior V ar ei esgyniad i'r orsedd.
2. Llongyfarch yr Anrhydeddus D. Lloyd George ar ddwyn i fewn y Mesur Yswiriol, er lleddfu caledi'r tlawd.

Mae'n anodd meddwl sut y medrodd swyddogion yr Eglwys drefnu bwyd a llety i gynrychiolwyr Eglwysi Sir Geredigion a Sir Gaerfyrddin. Gwyddys fod pabell wedi'i chodi ar y tir lle saif Mynydd Seion a'r Neuadd Apostolaidd, er bwydo'r ymwelwyr. Y brawd Dafydd Edwards, tad y chwaer Mabel Edwards, oedd yng ngofal y cig a brynwyd at y prydau bwyd, a diau bod digon o aelodau gweithgar eraill yn barod i gynorthwyo wrth y bordydd. Beth bynnag canmolus iawn oedd diolchiadau ysgrifennydd y Gymanfa, y Parch. Trefor Jones, i'r gweinidog a'r Eglwys am eu paratoadau trefnus a hael dros y tridiau.

**Marw Gwraig y Gweinidog**

Bu farw Mrs Herbert ar Fehefin 25, a hi'n wraig ifanc 46 mlwydd oed, gan adael



pump o blant ar ei hôl, ac Enid y lleiaf ond ychydig dros ddwy a hanner mlwydd oed. Bu hyn yn ergyd drom iawn i'r Gweinidog a'i deulu a thrist iawn oedd yr Eglwys o'u plegid.

Gwraig siriol a bonheddig iawn oedd Mrs Herbert. Dioddefodd ei chystudd caled yn dawel a dewr. Bu'n wraig deilwng i'r Parch. Job Herbert a mynychai'r oedfaon yn ffyddlon, cyn i'w hafiechyd ei hatal. Ymlwybrodd Mr Herbert ymlaen yn wrol, er gwaetha'r golled. Bu ei ddwy ferch Mrs Leyshon Thomas ac Enid, y diweddar Mrs (Dr) Tudor Morgan, yn hynod ofalus amdano, yn eu tro.

Bedyddiwyd y plant yma gan eu tad ond symud oddi yma a wnaeth pedwar ohonynt: William David i Llanelli, yntau'n Swyddog dan y Bwrdd Glo, Beatrice i Abertawe, a'i gŵr yn Swyddog Yswiriant, Gwen i Ogledd yr Alban yn Fetron mewn Ysbyty, ac Enid i'r India, yn genhades, yno gyda'i gŵr y Parch. Ddr. Tudor Morgan, Porthyrhyd.

Arhosodd Mrs Thomas yn aelod ffyddlon yma hyd ddiwedd ei hoes, a'i phlant Merfyn a Myra yn gwmni siriol i'w tad-cu. Symudodd Merfyn i Bencoed ac yna i Gaerffili a bu'n gweithio dan y Cyngor fel Arolygwr Adeiladau cyn iddo ymddeol. Mae Myra'n parhau yn aelod ffyddlon yma o hyd, a'i merch Buddug.

**Cenhedaeth y Parch. David Mathews**

Daeth yr uchod i gynnal Cenhadaeth yn Eglwys Calfaria ym mis Ionawr 1926. Mab oedd i'r brawd David Mathews, Abertawe, un o sefydlwyr yr Achos yn 1896. Bu yma'n pregethu am dair wythnos, ac er gerwinder y gaeaf, gwelwyd capel llawn yn gwrando arno bob nos. Roedd ei bregethu'n huawdl a dramatic yn foddion i ddylanwadu'n drom ar lu o bobl ac adferwyd a bedyddiwyd llawer dan ei weinidogaeth. Defnyddiai ei gasgliad personol o emynau, 'Mathews Missionary Melodies' yn yr oedfaon, a phrofodd rhain yn atyniad ychwanegol at ddenu'r cynulleidfaoedd.

Cynhaliai'r Parch. David Mathews gyfarfodydd arbennig i'r plant am 4.30 bob prynhawn. Tyrrai plant y pentre o bob enwad i'r cyrddau hyn ac yma eto defnyddiwyd casgliad o ganeuon actol, yn y ddwy iaith – 'The Children's Chimes'. Bu'r plant wrth eu bodd yn dysgu rhain dan hyfforddiant medrus y cenhadwr a hefyd yn gwrando'n astud ar ei draethu bywiog a lliwgar o storïau'r Beibl.

Yn ddiamau bu'r cyrddau hyn yn fawr eu dylanwad ar fywyd ysbrydol yr Eglwysi lleol. Gwelwyd dau o fechgyn ifanc y pentre yn cynnig eu gwasanaeth i'r Maes Cenhadol, ar ôl hyn.

**Y Cyrddau Pregethu a'r Cyrddau Cenhadol**

Cynhaliwyd Cyrddau pregethu ddwywaith y flwyddyn, ym mis Mai a mis Medi. Dyna arfer Eglwysi'r cylch hefyd. Cof gennyf am ddau ŵr gwadd yn pregethu dros y penwythnosau, un nos Sadwrn, dau bore Sul, un prynhawn Sul, a dau nos

Sul. Cefnogwyd y cyrddau hyn gan yr Eglwysi lleol, a felly roedd capeli llawn yn gwrando'r cenhadon ymhob oedfa. Yr adeg hyd yr Ail Ryfel Byd oedd oes aur y Cyrddau Mawr, fel y'u gelwid. Roedd gwrando ar 'hoelion wyth' yr enwadau yn wefr a chaed ymateb gwresog iawn gan y gynulleidfa a mynych oedd y 'Bendigedig', 'Diolch Iddo' a'r 'Haleliwia' i'w clywed o bob cyfeiriad.

Yn ystod Cyrddau Tachwedd cafwyd dwy bregeth ar un dydd, a darlith ar y noson ganlynol. Hanes cymeriadau neu bregethwyr nodedig o'r gorffennol fyddai'r testun fel rheol, ac er bod tâl am wrando ar ddarlith byddai'r capel 'run mor llawn â phan oedd oedfa bregethu.

Dyma enwau rhai o bregethwyr poblogaidd yr oes hon: Y Parchgn. Charles Davies, Caerdydd; E. T. Jones, Llanelli; Morgan Jones, Hendy-gwyn ar Daf; Jubilee a Glasnant Young; John Thomas, Glanaman; W. S. Jones, Llwyn y Pia, a W. R. Watkins, Llanelli. Er bod llawer o ddilorni ar ddull dramatig rhai o'r pregethwyr hyn a'u tebyg, gallaf dystio bod eu pregethu nid yn unig yn gyffrous ond yn addysgiadol iawn hefyd. Hanesion yr Hen Destament a'r Newydd oedd eu prif destunau ac roedd eu portreadu lliwgar a'u llefaru croyw a gorfoleddus yn gyfryngau effeithiol i wasgu ar y gwrandawyr y gwirioneddau a geisient eu trosglwyddo. O'r braidd y gallai neb fod yn 'bored' dan eu gweinidogaeth. Do, bu eu pregethau'n destun siarad rhwng llawer yn ystod yr wythnos ganlynol.

**Darlledu am y Tro Cyntaf**

Er bod eglwysi cryfach o ran aelodaeth a gallu corawl yn y cyffiniau, Eglwys Calfaria a ddewiswyd i ddarlledu gyntaf ohonynt, a hynny ar nos Sul Tachwedd 13, 1937. Rhyfedd y brwdfrydedd wrth baratoi'r canu a threfnu'r gwasanaeth. Y brawd John Griffiths oedd Arweinydd y Gân a'r brawd R. T. Roberts yn organydd. 'Darlledu byw' oedd yr arfer pryd hwnnw a phan ddaeth y cyfarwyddwr i'n trefnu ar y nos Sul cyn y darlledu rhybuddiodd ni'n daer i edrych am y golau priodol, yr arwydd i ni ddechrau'r gwasanaeth. Nid oeddem i beswch na sisial, na symud llaw na throed; yn wir cymaint y tensiwn fel o'r braidd y teimlem bod gennym hawl i anadlu. Er bod y Parch. Job Herbert yn 75 mlwydd oed yn cael y profiad newydd a dieithr hwn o ddarlledu am y tro cyntaf, daeth trwyddo'n fuddugoliaethus. Clywyd ei bregeth rymus a dwys yn eglur a mor bell a Swydd Sussex (roedd fy chwaer yn digwydd byw yno ar y pryd). Aeth John Griffiths ac R. T. Roberts drwy eu gwaith yn urddasol ac effeithiol iawn a'r Côr dan eu gofal yn eithriadol dda, er nad oedd yn fawr o rif.

Roedd y llu llythyron o werthfawrogiad a ddaeth o bob cwr o'r wlad yn bleser a rhyddhad mawr i ni i gyd.



**Dathlu Hanner Canmlwyddiant y Parch. Job Herbert yn y Weinidogaeth, Chwefror 13-16, 1939**

Y digwyddiad nesaf o bwys yn hanes yr Eglwys oedd dathlu hanner can mlynedd y gweinidog yn y weinidogaeth, a thros ddwy flynedd a deugain yn bugeilio'r praidd yng Nghalfaria. Teilwng iawn oedd cydnabyddiaeth am wasanaeth mor ddiffuant ac ymroddedig.

Nid aelodau Calfaria'n unig a deimlai awydd i'w gydnabod am eu dyled iddo. Bu'r Parch. Job Herbert yn ymwelydd cyson i Ysbytai Caerfyrddin, Llanelli ac Abertawe a thra yno bu'n ymweld ac yn gweini cysur i gleifion o bob enwad, ac i'r rhai digapel. Felly nid syndod clywed bod trigolion y pentre hefyd am gymryd rhan yn y dathlu. Trefnwyd Pwyllgor Lleol er gwneud casgliad cyffredinol iddo. Cadeirydd y Pwyllgor hwn oedd ei gydweithiwr a'i gyfaill, y Parch. L. Berian James, B.A., gweinidog Eglwys Penygroes; y trysorydd – Mr Wm. Williams, yr ysgol feistr lleol; a'r ysgrifennydd – y Parch. J. T. Jones, B.A., Tabor, Cross Hands.

**Y Cyrddau Dathlu –**

*Nos Lun, Chwefror 13 – Nos Iau 16, 1939*

| | |
|---|---|
| Nos Lun | Ym Mhenrhiwgoch am 6.30 yr hwyr |
| | Pregethwyr: Y Parch. Brynmor Thomas, Milo a Mynydd Seion |
| | Y Parch. Gwilym Owen, B.A., Gorseinon |
| Nos Fawrth | Yng Nghalfaria am 6.00 o'r gloch |
| | Pregethwyr: Y Parch. Waldo Roberts, Llanelli a Pastor D. P. Williams |
| Nos Fercher | Y Parch. D. R. John, Rhydwilym a'r Parch. Jubilee Young, Llanelli |
| Nos Iau | Y Cwrdd Anrhegu |
| | Anerchiadau: Hanes Eglwys Penrhiwgoch – Mr R. Thomas |
| | Hanes Eglwys Calfaria – Mr John Griffiths |
| | Cyflwyno'r Dysteb – Mr Sam Jones, Llandeilo, Trysorydd y Gymanfa |
| | Teyrngedau gan: Y Parchgn. D. R. John; W. R. Watkins; D. Bowen (Myfyr Hefin); T. Roberts, Llannon, a Mr Wm. Williams. |

Cafwyd cyrddau cofiadwy iawn. Er eu cynnal ynghanol stormydd gaeafol, gwelwyd y capel yn llawn bob nos ac yn wir ar y nos Fercher, a disgwyl i'r Parch. D. R. John a Jubilee Young i bregethu, roedd y dorf mor lluosog, fel nad oedd obaith i ugeiniau o'r bobl gael lle yn y capel. Felly trefnwyd bod yr oedfa i'w chynnal yng Nghapel Penygroes. Gallwch ddychmygu'r siom a'r pryder a deimlodd y rhai a eisteddent yn gyfforddus yn y capel. Pan ddaethom allan i'r ffordd rhwng y ddau gapel, dyna'r olygfa ryfeddaf yn ein disgwyl. Pawb, hen ac ieuanc,

yn carlamu nerth eu carnau yn eu hysfa i sicrhau lle iddynt eu hunain, 'Marathon' go iawn a hynny ar noswaith stormus, dywyll, heb lawer o olau ar y ffordd.

Dyna ryddhad oedd cyrraedd a chael bod digon o le i bawb yng Nghapel Penygroes. Rhaid dweud y bu pregethu'r gyfres ar ei hyd yn nodedig; y pregethwyr yn eu dulliau cwbl wahanol yn traethu'r Efengyl gydag afiaith ac eneiniad ysgubol.

**Y Cyfarfod Anrhegu**

Trefnwyd hwn i gymryd lle yng Nghapel Calfaria, a'r capel eto dan ei sang. Roedd anerchiadau'r siaradwyr a enwyd yn wych, ac yn llawn clod i'r Parchus Weinidog. Nid geiriau ystrydebol a lefarwyd ond teyrngedau diffuant gan rai a adnabu Mr Herbert yn bur dda; rhai oedd wedi cyd-weithio ag ef ym mhwyllgorau'r Undeb, y Gymanfa a'r Cwrdd Chwarter ac yn yr Eglwysi a'r pentref. Cofir fyth am eiriau'n hysgrifennydd John Griffiths wrth ddod lawr o'r pulpud ar ôl ei araith ...

'O Frenin, bydd byw byth'.

**Hwyr y Dydd**

Cyrddau a fu o gryn gysur a llawenydd i'r Parch. Job Herbert oedd yr uchod. Bregus fu ei iechyd am y ddwy flynedd olaf o'i fywyd, er hynny daliodd i fynd a dod yn ein plith a phregethu hyd 22 o Ragfyr 1940. Yna ar Fawrth 4, 1941, ehedodd ei ysbryd yn dawel at yr Hwn a'i rhoes. Bu'r angladd yng Nghapel Bethlehem, Porthyrhyd, man cychwyn ei weinidogaeth a'r fan y daearwyd ei annwyl wraig. Daeth enwogion yr ardal a'r Enwad i'r cynhebrwng a rhoddwyd yma eto deyrngedau teilwng a diffuant i'w wasanaeth a'i gymeriad gan y rhai a gymrodd ran.

**Cwrdd Coffa'r Eglwys**

Cyfarfod i aelodau eglwys Calfaria oedd hwn, a chynhaliwyd ef ar nos Sul, Mawrth 30, 1941. Y gŵr gwadd oedd y Parch. W. R. Watkins, Moriah, Llanelli, ffrind annwyl i'n diweddar weinidog ac un a fu'n gweini a phregethu'n aml yng Nghalfaria ar hyd blynyddoedd ei weinidogaeth. Cododd ei destun o Ioan I – 47. 'Iesu a ganfu Nathanael yn dyfod ato, ac a ddywedodd amdano, 'Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll'. Cafwyd pregeth deilwng o fywyd a chymeriad y Parch. Job Herbert, y person unigryw ac annwyl hwn, a thad yn y Ffydd i gymaint ohonom.

Anodd yw disgrifio teimlad yr Eglwys ar ôl ymadawiad Mr Herbert. Ar ôl cyfnod mor faith o bron pum mlynedd a deugain o'i arweiniad doeth a sicr, ei ffyddlondeb cyson i bob adran o waith yr Eglwys a'i fugeiliaeth ofalus a thyner, mewn ysbryd siriol a bonheddig, yn naturiol roedd na fwlch mawr a theimlad o wacter enbyd ar ei ôl.



Wrth fwrw trem yn ôl ar yrfa hirfaith y Parch. Job Herbert, ei hadegau llawen a gorfoleddus, a'r rhai dyrys a blin, ar lawer tro, rhyfeddwn at ei amynedd a'i sirioldeb atom ni bobl ifanc. Peidied neb a meddwl bod Eglwys Calfaria yn batwm di-frychni yn y cyfnod hwnnw chwaith. Roeddem gyda'n gilydd yn gymysgfa o eifr pen galed a defaid du a gwyn, a rheiny'n bur afrosgo ar brydiau. Diau y perthynai i'n Gweinidog rai gwendidau dynolryw ond gwelwyd iddo ddisgyblu ei hun yn rasol i gwrdd â gofynion 'yr arswydus swydd' yn urddasol a doeth; i fod yn fugail dylanwadol ac yn was da i'w Arglwydd.

Pregethwr dwys a difrifol oedd ein Gweinidog, a'i fryd bob amser ar achub eneidiau. Clywaf o hyd atsain ei gwestiwn treiddiol, 'Enaid, beth yw dy berthynas di â Duw'? Taer erfyniai arnom ni rhai ifanc i wynebu'r cwestiwn tyngedfennol hwn cynted ag y tybiai i ni gyrraedd oed digon aeddfed i ni wneud hynny.

Un peth arall a gofiaf am Mr Herbert wrth gynnal gwasanaeth oedd ei ddawn i greu awyrgylch ddefosiynol; i ategu at ddylanwad ei bersonoliaeth urddasol, roedd yn berchen llais cyfoethog, heb fod yn groch, a pharabl llithrig, melodaidd yn enwedig pan gynhesai at uchafbwynt ei apêl.

Mewn oedfa yn Undeb Treorci, yn 1929, traddododd Mr Herbert anerchiad ar 'Lle a Swydd y Cymun yn yr Addoliad'. Oedfa a'r eneiniad dwyfol yn drwm arni oedd honno a gellir tystio taw oedfa o'r un ansawdd oedd pob Oedfa Gymun dan ei ofal yng Nghalfaria. Adegau dwys a chysegredig oedd rhain, a theimlwn, hyd yn oed yn blant, fod na Bresenoldeb Sanctaidd yn ein plith.

**Y Gŵr Cyhoeddus**

Ni chyfyngai'r Parch. Job Herbert ei ddiddordeb a'i weithgarwch, yn unig i'r Eglwys dan ei ofal. Bu'n Ysgrifennydd Dosbarth y Mynydd Mawr am ddeng mlynedd a pherthynai i amryw Bwyllgorau'r Enwad a'r Eglwysi Rhyddion. Bu ar lwyfan yr Undeb mwy nag unwaith ac anrhydeddwyd ef â Chadair Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion 1923-24. Sgrifennai hefyd i gylchgronau'r Enwad, *Seren Cymru*, *Seren Gomer* a'r *Efengylydd*. Felly teilwng iawn yw'r deyrnged iddo ar y garreg goffa yn y capel:

'Ei enw'n perarolgu sydd<br>Efe oedd gannwyll yn llosgi ac yn goleuo'.

**Er Cof – Yn Ystod Gweinidogaeth y Parch. Job Herbert**

Does bosibl gallu cofnodi pob person a fu farw tra'n aelod yng Nghalfaria, yn ystod gweinidogaeth y Parch. Job Herbert, am amryw resymau. Felly yn y fan hon rhoddaf yn unig rhestr o'r rhai a fu'n amlwg eu cyfraniad a'u presenoldeb yn y cysegr, yn ystod y cyfnod hwn.

**John Griffiths, Bwlch Carreg y Mynydd**

Efe oedd un o'r tri y crybwyllwyd amdanynt fel Arloeswyr yr Achos yn 1896. Wedi dod yma o Garmel, treuliodd ugain mlynedd o'i fywyd yn un o arweinyddion blaenllaw'r Eglwys. Daeth â'i deulu gydag ef, er gwaethaf pellter y ffordd o'i gartref, ac arhosodd yma hyd 1914, hyd nes gweld y Capel wedi'i adeiladu a'r Eglwys yn gadarn lewyrchus. Symudodd ef a Mrs Griffiths nôl i Garmel gyda'r plant lleiaf gan adael dau o'r meibion John a Tom Griffiths yn ddiaconiaid yma, ac Eben a wnaed yn ddiacon yn 1935.

Anrhegwyd Mr a Mrs Griffiths â darlun olew ohonynt ill dau, yn arwydd o barch a gwerthfawrogiad yr Eglwys am eu cyfraniad eithriadol i gychwyn yr Achos yng Nghalfaria. Etifeddodd eu plant eu sêl hwythau at Achos yr Arglwydd Iesu, yn yr Eglwys hon ac mewn Eglwysi eraill. Ymgysegrodd dau o'u meibion i'w galwad i'r Weinidogaeth, y Parch. David Griffiths, Calfaria Treforys, a'r Parch. Stephen Griffiths, Rhehoboth a Chlawddcoch, ger Castell Newydd Emlyn.

Erys rhai o'r disgynyddion yn ffyddlon iawn yma o hyd: Mrs Mair Williams (priod yr Ysgrifennydd); Mrs Awen Cray a'i phriod, a'i meibion Jonathan ac Iwan a Nia'r ferch. Eto Mrs Margaret Williams a'i merch Pamela a'r wyres Marie; hefyd Mr Islwyn Griffiths a'i briod Joan, a Mrs Flossie Morgan, a'i merch a'i hwyres.

**John Griffiths, Tŷ'r Glyn**

Roedd ef yn gefnder i John Griffiths, Bwlch Carreg y Mynydd, ac yn un o'r tri arloeswr. Trigai ef a'i deulu mewn ffermdy bychain ar ochr y ffordd o Gwmcoch (gynt) i Garmel. Cofir amdano yn llefaru'i brofiad yn aml ar ôl y Cymun. Gadawai ei lais mwyn a'i gymhellion, dwys a thyner argraff arbennig ar y gynulleidfa, bob amser. Bu'n athro Ysgol Sul i oedolion am gyfnod hir ac yn drysorydd neu ysgrifennydd yn ei dro. Gŵr eiddil o gorff oedd a dioddefai llawer o afiechyd yn niwedd ei oes. Bu farw yn 1924, a chladdwyd ei weddillion yng Nghalfaria. Gadawodd weddw a thair merch; rhain eto wedi rhoi gwasanaeth ffyddlon yn yr eglwys; Mrs Griffiths a'i merch Eunice wedi gofalu am y capel hyd marw'r olaf yn 1932. Bu Mrs Griffiths fyw hyd 1954 gyda'i merch arall a'i phriod Mr a Mrs W. Harris, Gorsddu. Ymfudodd y ferch arall a'i phriod, Mr a Mrs H. Lloyd i Ganada yn y tridegau.

**John Davies, Brynyreithin**

Daeth ef yn aelod o'r Eglwys yn fuan ar ôl ei chychwyn a gwnaed ef yn ddiacon yn ystod y trydydd detholiad cyn 1912, ac yn drysorydd tua 1913. Rhoddodd oes o wasanaeth gwarcheidiol i'r adeiladau ac i weithgareddau'r Eglwys; yn un o bileri'r Cwrdd Gweddi a'r Seiad; ymwelydd cyson â'r cleifion a'i gartref yn groesawus agored i bregethwyr pan fo angen. Cofir amdano'n arbennig fel athro Ysgol Sul i fechgyn ieuainc yr eglwys, fel y soniwyd amdano eisioes, a diau i'w ddylanwad fod yn drwm ar sawl cenhedlaeth ohonynt. Gŵr o ychydig eiriau oedd fel rheol, hyd nes iddo fynd ar ei liniau i gyfarch ei Arglwydd 'a'i odrau mawr yn disgyn i lawr'. Bu farw Mawrth 9, 1940, yn 75 mlwydd oed, bu farw ei wraig Mrs Martha Davies, ychydig ddyddiau ar ei ôl, a chladdwyd y ddau ym mynwent Calfaria. Bu farw ei fab, Jack, ychydig fisoedd ar eu hôl, ond bu ei ferch Mrs Hannah Roberts yn weithgar a ffyddlon iawn yn yr Eglwys (gweler 1973). Mae eu hwyres Mrs Eirwen John yn aelod yma o hyd, hithau wedi rhoi gwasanaeth gwerthfawr yn yr Ysgol Sul a chyda llwyfannu perfformiadau cerddorol y plant yng nghyfnodau y Parchgn. E. Bryn Jones a W. Vittle.



**Mrs Rees, Glan Nant**

Mrs Rees, Glan Nant neu Mrs Rees, 'y crydd', fel yr adnabyddid hi yn y pentref. Gellir ei hystyried hi yn un o arloeswyr yr Achos, oherwydd cofnodir ei bod hi a'i merched yn bresennol yn oedfa gyntaf 'Sied y Band', ac o'r dydd hwnnw bu hi a'i theulu yn weithgar a ffyddlon iawn yn yr Eglwys. Gwraig gadarn o gorff ac o bryd tywyll, roedd yn gymeriad cryf a lliwgar a thipyn o ben arni hefyd. Roedd ei hymadroddion digri a bachog yn wybyddus i lawer. Gwraig gyfarwydd iawn â'i Beibl oedd hi ac mewn aml i ddadl yn y siop grydd ochr draw i'w chartref, 'Af i nôl y llyfr Mawr; fe dorrith y Striff', oedd ei dull bob amser o ddatrys y broblem. Pan ddaeth yr Iddew bach hwnnw a'i bac defnyddiau at y drws, meddai wrtho, 'Na' phryna i ddim gyda thi, ti groeshoeliodd Iesu Grist', ac eto wrth y Sioni Winwns o Ffrainc, 'O, fe faeddo'n ni chi yn Abergwaun'. Gydag ymadroddion ffraeth felly y brithwyd ei hymadroddion. Eto roedd ei hymrwymiad a'i ffyddlondeb i Achos yr Arglwydd Iesu'n ddiffuant a gadawodd ar ei hôl deulu'n 'run mor deyrngar; dau ddiacon, Richard a Tom Rees, a'r chwiorydd Miss Let Rees a Mrs Mary A. Griffiths a Millie'r wyres, ynghyd â nifer o wyrion ac wyresau eraill. Bu farw yn 1926 a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Calfaria.

**Coffa Da am Eraill o Ddiaconiaid Cyntaf yr Eglwys**

Bu'r mwyafrif o'r rhain farw o flaen y Parch. Job Herbert. Teilyngant eu coffáu am eu rhan amlwg yn sefydlu, a phryfiant yr Achos; am eu ffyddlondeb a'u cyfraniad cyson i'r Ysgol Sul a'r Cwrdd Gweddi ac i amrywiol weithgareddau'r Eglwys ifanc.

| | |
|---|---|
| **Jenkin Davies, London House**: | yr Ymddiriedolwr cyntaf a hefyd arweinydd cyntaf y Côr, Hen Daid Mrs Margaret Samuel a Mrs Megan Griffiths. |
| **David Mathews, Fforest Fach**: | tad David Mathews, y cenhadwr. |
| **John Davies, Cwmcoch**: | tad y Parch. S. Gwyneufryn Davies. |
| **William Edwards, Spien**: | benthycwr rhan o'r arian at y capel. |

**Eben Griffiths, Caerbryn:** tad y diweddar E. J. Griffiths a thaid Miss Margaret Elin Griffiths.

**William a Daniel Jones:** meibion Pantyclai, ddaethant o eglwys Carmel, i ddechrau'r Achos. Symudodd Daniel Jones i Dŷ'r Llyn ar ôl priodi a bu yntau fel ei frawd yn eithriadol ffyddlon er gwaetha'r pellter. Cofir William Jones yn arbennig am ei weddïau dwys edifeiriol.

**Thomas Richards, Heol y Meadows:** hen daid Mrs Esther Evans, y fferyllydd.

**David Bowen, Bryn Cwar:** tad Talfryn a David John Bowen ac Elsie a thaid Miriam, Evelyn a June.

**William Morris, Heol Waterloo:** athro Ysgol Sul ffyddlon.

**Tom Griffiths, Y Gât:** mab hynaf John Griffiths, Y Bwlch; tad Islwyn a Mrs Margaret Lodwick y Llythyrdy.

**John Rees, Y Pobydd, Gorsddu:** tad mwyn Bessie, Rosa ac Edwina a'u brodyr.

**Rees Thomas, Y Gât:** taid Marion ac Iris Dicks.

Yn ychwanegol at hyn coffeir y canlynol am eu cymorth amserol hwynt yn yr Ysgol Sul a'r Cwrdd Gweddi yn amser llesgedd ac afiechyd rhai o'r uchod.

**Richard Morgan, Y Llyfrwerthwr**: Arweinydd y Gân am gyfnod ac Arolygwr yr Ysgol Sul.

**Henry Davies, Bank y Rock**: Arolygwr yr Ysgol Sul; athro Dosbarth y Chwiorydd, ac un o'r ffyddlonaf yn y Cwrdd Gweddi, priod Mrs Esther Davies, Bro Hyfryd a thad eu phlant.

**Josua Griffiths**: Priod Mrs Mary A. Griffiths a thad Millie, Gwen, Beryl, Reggie a Cliff. Cefnogwr brwd yr Ysgol Sul a'r Cwrdd Gweddi; un gonest ei farn bob amser.





*Pennod III*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. D. HANDEL TURNER (1942-46)

Ar ôl ymadawiad yr annwyl Barch. Job Herbert, bu'n orchwyl go anodd i swyddogion ac aelodau'r ddwy eglwys i symud ymlaen i ddewis olynydd iddo. Amser digalon iawn oedd yn hanes y wlad, y pentre a'r eglwysi, yn ystod yr Ail Rhyfel Byd, â'r gofid a'r diflastod o'i herwydd. Bu cau Pwll yr Emlyn (1938-39) yn ergyd drom i'r pentref ac yn achos colli llawer o aelodau, oherwydd y rheidrwydd arnynt fynd i ffwrdd i weithio. Heblaw hyn collodd Eglwys Calfaria ryw bedwar o'i diaconiaid hynaf ychydig cyn i Mr Herbert farw a rhwng y cwbl roedd yr eglwys mewn cyflwr pur isel. Ond wynebu'r dyfodol mewn ffydd bu raid, ac ar hyd gweddill y flwyddyn 1941, llanwyd y pulpud yn gyntaf â'r gweinidogion hynny a fu mor dda a chynorthwyo'r Eglwys yn ystod gwaeledd y diweddar weinidog, a wedyn rhoddwyd gwahoddiad i rai a debygid eu bod yn symudol.

Bu'r Parch. D. Handel Turner, gweinidog Talsarn a Llanllyfni, Sir Gaernarfon yn gwasanaethu'r ddwy eglwys ar y Suliau, Chwefror 29 ac Ebrill 19, 1942. Yna ar y Sul, Mai 24, pleidleisiwyd ar y tri gweinidog a ddaeth ar y rhestr fer, a'r Parch. D. Handel Turner oedd dewis ŵr y ddwy eglwys. Anfonwyd ato'n ddiymdroi a llawen iawn oedd aelodau'r eglwysi pan dderbyniodd yr alwad ar Fehefin 7, 1942. Dechreuodd ei weinidogaeth yng Nghalfaria a Phenrhiwgoch ar y Sul, Awst 30, 1942.

Ni pherthynai i'r Eglwys yr un Mans ar y pryd, oherwydd adeiladodd Mr Herbert dŷ iddo'i hun ar ddechrau ei weinidogaeth yma. Felly bu rhaid rhentu tŷ i Mr Turner gan obeithio adeiladu Mans ar ôl diwedd y rhyfel. Ymsefydlodd ef a'i fam a'i chwaer yn un o dai Mr Tudor Evans, ar waelod Heol Plas Gwyn, heb fod ymhell o Gapel Calfaria, a da oedd gan yr Eglwys gael dwy chwaer mor siriol, yn aelodau newydd ychwanegol.

**Y Cyfarfodydd Sefydlu**

Trefnwyd cynnal y Cyrddau Sefydlu ar y nos Fercher a dydd Iau, Medi 9 a 10, 1942, yn y drefn isod:

*Nos Fercher am 6.30 o'r gloch ym Mhenrhiwgoch*
Rhannau Arweiniol – Y Parch. T. M. Griffiths, Carmel.
Pregethwr – Y Parch. D. R. John, Rhydwilym.

*Y Cyfarfod Sefydlu yng Ngalfaria am 2 o'r gloch Dydd Iau*
Llywydd – Y Parch. T. H. Morgan, Porthyrhyd.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. W. D. Morgan, B.A., Tycroes.
Anerchiad y Llywydd.
Hanes yr Alwad – Mr John Griffiths, Ysgrifennydd.
Ateb – Y Parch. D. Handel Turner.
Urdd Weddi – Y Parch. W. R. Watkins, M.A., Llanelli.
Emyn 9.30. LL.M.

*Cyfarchiadau*
Ar ran Eglwys Caersalem Newydd, Abertawe – Y Parch. Emrys Davies, B.A.
Ar ran Eglwys Calfaria – Mr William Davies.
Ar ran Eglwys Penrhiwgoch – Mr Tom Thomas.
Ar ran Plant Eglwys Calfaria – Y Parch. D. R. John.
Ar ran Bedyddwyr y Cylch – Y Parch. R. Lloyd, Saron, a'r Parch. T. M. Griffiths, Carmel.
Ar ran yr Eglwysi Lleol – Y Parchgn. L. Berian James, B.A. a D. P. Williams a Mr W. Williams, Y.H.
Ar ran Y Gymanfa – Y Parchgn. T. Roberts, Llannon, a G. E. Williams, Llandeilo.
Ar ran Yr Undeb – Y Parch. W. R. Watkins, M.A., Llanelli.

*Nos Iau am 6.30 o'r gloch yng Nghalfaria*
Llywydd – Y Parch. D. Handel Turner.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. Brynmor Thomas, Mynydd Seion.
Pregethwyr – Y Parchgn. Emrys Davies, B.A. a D. R. John.

Cafwyd cyrddau gwresog, a daeth ffrindiau o bell ac agos i ddymuno'n dda i'r gweinidog newydd a'r eglwysi. Gwethfawrogwyd yn fawr bregethu hwylus ac adeiladol y ddau gennad. Gweinidog yr eglwys y codwyd y Parch. D. H. Turner ynddi oedd y Parch. Emrys Davies ac un o blant yr Eglwys hon oedd y Parch. D. R. John a'i wraig yn un o ferched y diweddar Mr a Mrs Rees, Fferm Brynfuwch, o'r lle hwn. Eu mab oedd y diweddar Barch. W. P. John, B.A., gweinidog Castle St. Llundain; y tad a'r mab yn bregethwyr o'r radd flaenaf.

### Y Parch. D. Handel Turner

Gŵr o ardal Treboeth, Abertawe, oedd Mr Turner. Ganwyd ef ar Orffennaf 31, 1907, yn ail o dri o blant. Collodd ei dad yn ddeuddeg oed, ond ymrodd ei fam i fagu ei phlant yn anrhydeddus gan roddi arweiniad a siampl dda iddynt, mewn



ffyddlondeb i Eglwys Caersalem Newydd. Cafodd gystudd pan yn blentyn, a gwnaeth hyn ef yn gloff, eto rhodiodd lwybrau cysegr Duw yn gadarn i oedfaon y Sul a'r wythnos. Soniodd lawer am y dosbarth Beiblaidd o ddynion a fynychai Ysgol Sul yng Ngaersalem Newydd ac am y wybodaeth eang a gafodd yno. Yna clywodd yr alwad i fynd i'r weinidogaeth. Wedi ystyriaeth ddwys a gweddi ddyfal, ildiodd i'r alwad. Cafodd gefnogaeth yr Eglwys a chymhellwyd ef gan ei weinidog y Parch. William Thomas. Aeth am gyfnod i'r Ysgol Baratoi, yn Ilston, Abertawe, a derbyniwyd ef i'r Athrofa ym Mangor yn 1935. Wedi'r cwrs yno, derbyniodd alwad i Llanllyfni a Thalsarn, Sir Gaernarfon. Yno bu'n llafurio'n ddyfal hyd y galwyd ef atom ni yng Ngalfaria a Phenrhiwgoch.

Roedd y Parch. Handel Turner yn bregethwr nerthol ac o aryghoeddiadau cryfion. Arweiniodd holl weithgareddau'r Eglwys yn gydwybodol iawn. Hoffai'r plant yn fawr a chan ei fod yn medru canu'r piano roedd ei gynorthwy i waith Urdd y Seren Fore yn dderbyniol dros ben.

Roedd yn gymeriad hoffus a siriol, ac yn barod iawn ei gymwynas. Rhaid oedd iddo brynu modur er teithio nôl ac ymlaen i Benrhiwgoch, oherwydd ei gloffni, ac yn aml fe welid ef yn cludo rhyw rai neu gilydd o'r aelodau i'r ysbyty pan fyddai angen.

Bu'n aelod o Bwyllgor Urdd Gobaith Cymru yn y pentref a bu'n gyson yn gwneud ei ran yn gofalu am y Ieuenctid yn yr Aelwyd. Y dosbarth ddrama oedd ei hoff ddiddordeb a bu ei gyfraniad at hyfforddi'r aelodau ar y llwyfan yn dderbyniol iawn.

Er bod yr amser yn ansefydlog ac er colli o'r eglwys lawer o'r aelodau hynaf, a rhai oherwydd iddynt symud o'r pentref i chwilio am waith, eto derbyniodd y Parch. Handel Turner 44 o aelodau newydd trwy fedydd a thrwy lythyrau yn ystod ei amser yma.

### Hanesion Arbennig

Trefnwyd i ddanfon rhodd o arian a rhaglen y Gymanfa Ganu i bob un o'r ieuenctid a oedd i ffwrdd yn y Lluoedd Arfog.

Yn ystod ei weinidogaeth, penderfynwyd rhoddi tabled goffa i'r diweddar Weinidog, ar fur tu mewn i'r capel. Dad-orchuddiwyd hi ar y nos Iau, Gorffennaf 12, 1946, gan ei ferch yng ngŵydd cynyrchiolaeth dda o'r aelodau a rhai o ffrindiau o Eglwysi'r cylch, mewn gwasanaeth syml a phwrpasol, dan lywyddiaeth y Parch. D. Handel Turner.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ffarweliodd Enid (Mrs Parch. Tudor Morgan, B.A., B.D.) â'r Eglwys a mynd i'r India i ymuno â'i gŵr mewn gwaith cenhadol yn New Delhi. Anrhegwyd hi ac ymadawodd gyda dymuniadau cynnes aelodau'r Eglwys ar ei hymgyflwyniad ac ar ei hymroddiad i'r gwaith pwysig hwn. Athro mewn Ysgol Gristnogol i fechgyn oedd y Parch. Tudor Morgan ac Enid oedd i fod â gofal hostel y bechgyn yno. Bu hi dan hyfforddiant mewn ysbyty yn Llundain ar ôl claddu ei thad, er paratoi ei hun at y gwaith o ofalu am iechyd y myfyrwyr.

## Dewis Diaconiaid

Ar y Sul, Chwefror 24, 1946, pleidleisiodd yr Eglwys dros bum diacon newydd, sef Mri. Hubert Bevan, Gwilym Davies, John Jones, David Williams (Bandmaster) ac Edmund Thomas. Sul bythgofiadwy oedd hwn yn hanes yr Eglwys, oherwydd y newydd a gaed ar ôl yr etholiad.

## Ymddeoliad y Gweinidog

Er bod Mr Turner, i bob golwg wedi ymsefydlu'n gysurus yn ein plith, daeth yn amlwg cyn bo hir taw yn y gogledd yr oedd ei galon. Dyweddiwyd ef yn ystod mis Awst 1945 i Miss Elena Holt Jones, Llanllyfni. Cyfarfu â Miss Jones pan oedd yn weinidog yno. Hi oedd organyddes yr Eglwys Bresbyteraidd leol, ac yn fawr ei pharch oherwydd ei dawn a'i sirioldeb. Felly ar ddiwedd yr oedfa uchod trosglwyddodd y newydd syfrdanol ei fod am roi tri mis o rybudd i orffen ei weinidogaeth yng Ngalfaria am iddo dderbyn galwad i weinidogaethu ar Eglwysi Capel y Beirdd a Garn Dolbenmaen, Sir Gaernarfon. Blin iawn oedd aelodau'r Eglwys o golli eu gweinidog, eto roeddent yn deall yr amgylchiadau. Ni fedrai Miss Jones ddod lawr i'r De, am fod ganddi dad i ofalu amdano. Teimlid o'i chyfarfod, y byddai hi'n wraig ddelfrydol i'n gweinidog, pe bai wedi medru ymsefydlu yma.

Gwasanaethodd y Parch. D. Handel Turner am y tro olaf fel gweinidog yr Eglwys ar y Sul, Mai 19, 1946. Ei bregeth ymadawol oedd ar y geiriau, 'Gras ein Harglwydd Iesu Grist a Chariad Duw a Chymdeithas yr Ysbryd Glân a Fyddo gyda chwi oll. Amen.' 2 Cor. 13.13. Gras yn allu, Cariad yn nerth, yr Ysbryd Glân yn arweinydd dwyfol; pregeth feddylgar a dwys iawn. Y brodyr John Griffiths ac R. T. Roberts, y ddau ddiacon hynaf a aeth allan â'r Cymun y noson honno a hwythau a fu'n mynegi dymuniadau gorau'r Eglwys i Mr Turner, am lwyddiant iddo yn ei faes newydd a diolch iddo am ei wasanaeth diffuant i Eglwys Calfaria. Diolchodd yntau mewn geiriau teimladwy a thyner a throsglwyddodd Feibl Saesneg i'r Eglwys, er cof amdano.

Cyn hyn, cynhaliwyd Cyfarfod Ymadawol Cyhoeddus i Mr Turner ar y nos Fercher, Mai 15. Llywyddwyd gan Mr John Griffiths; cymrwyd at y rhannau arweiniol gan y Pastor Rhys Evans. Y siaradwyr oedd y Parchgn. L. B. James, Eglwys Penygroes, Brynmor Thomas, B.A., Eglwys Mynydd Seion, a D. J. Evans, Eglwys Jeriwsalem. Rhoddwyd tysteb i Mr Turner, ar ran yr Eglwys gan Mr John Williams, y trysorydd. Rhoddwyd teyrngedau clodwiw i'r gweinidog gan y brodyr a diolch iddo am ei gydweithrediad parod yn y cylch, ac yn yr Eglwys. Rhoddwyd y Fendith gan Mr D. Thomas, y Cenhadwr.

Erbyn ymadawiad y Parch. D. Handel Turner, roedd yr Eglwys wedi cyrraedd ei Hanner Can Mlwydd Oed. Bu'r Sedd Fawr newid bron yn gyfangwbl; y brodyr John Griffiths ac R. T. Roberts oedd yr unig ddau ar ôl ers etholiad diaconiaid



1912. Ni chollwyd un diacon yn ystod y weinidogaeth hon ond collwyd amryw o aelodau eraill.

## Colledion

Yn 1942 Mr William Hopkins, Norman Terrace.

Mrs Mary Davies, Maes-y-gwaed, gwraig a effeithwyd yn drom gan y Diwygiad ac un a hoffai fynegai ei barn ar y bregeth ar goedd, weithiau'n gorfoleddu ac weithiau fel arall. Bu farw ei merch Miss Let Davies y flwyddyn ganlynol; y ddwy wedi bod yn ffyddlon iawn am flynyddoedd, ac yn hael eu cyfraniad.

Collwyd Mr John Williams, Norman Terrace yn 1943. Efe wedi methu dod i'r capel oherwydd afiechyd am sawl blwyddyn: er hynny yn hael iawn ei gyfraniad ariannol. Roedd yn daid i Miss Olga Williams, Heol y Norton.


Yn 1944 collwyd y brawd William Richards, Caemelyn, Mrs Tom Armstrong a Mrs William Davies. Roedd y ddwy olaf yn aelodau er yn gynnar yn y ganrif, dwy ffyddlon a pharod i gynorthwyo yn yr Eglwys.

Yn 1945 collwyd chwech o'r ffyddloniaid: y brodyr Ben Clarke, Arthur Martin, Tom Thomas, Llwyn-yr-eos, a John Rees, Banc-y-rock. Roedd yr olaf yn fab i Mr a Mrs Rees, Glan Nant, rhai o arloeswyr yr achos.

Hefyd y ddwy chwaer, Mrs Kate Andrews; heb fod yn hir yn ein plith ond yn chwaer hynod ffyddlon ac ymroddgar ym mhob adran o waith yr Eglwys, ac eto Mrs John Griffiths, gwraig ein Hysgrifennydd. Roedd gan Mrs Griffiths lais prydferth iawn. Bu'n arweinyddes y sopranos am gyfnod hir ac yn gymorth mawr i ganiadaeth y Cysegr yn enwedig ar ddydd Cymanfa ac ar adegau pan fu'r côr yn paratoi perfformiad o waith corawl arbennig.

Eto yn Ebrill 1947, collwyd y brawd **William Davies**, ryw ddau fis cyn dyfod y Parch. E. Bryn Jones atom. Bu'n aelod yma ers dechrau'r ganrif ac yn ddiacon ers 1935. Cofir amdano fel athro Ysgol Sul arbennig o ffyddlon ac amyneddgar arnom ni ferched ysgol ac am ei gefnogaeth a'i gyfraniad cyfoethog i'r Cwrdd Gweddi. Roedd yn ŵr parod iawn ei wasanaeth ymarferol; yn atgyweirio diffygion yn adeiladwaith y capel pan oedd angen. Gadawodd bedwar mab a thair merch ar ei ôl ac y mae dwy o'r merched, Mrs Dilys Evans a Mrs Ennis Batte yn aelodau ffyddlon yma hyd heddiw, a'i ddwy wyres, Pat Beynon ac Ann Bolster.

Henry James Evans, Blaenau: bu'r brawd hwn yn aelod ffyddlon iawn er dechrau'r ganrif. Gŵr yr encilion oedd. Perthynai iddo lais bâs cyfoethog, a mynych y galwadau arno i ymuno â'r côr neu â grŵp canu gogyfer â Chyfarfodydd yr Ysgol Sul, Y Gymanfa ac â rhai o'r gweithgareddau corawl arbennig a gynhelid yn yr Eglwys. Ei fab yw'r Athro Meurig Evans, M.A., enwog ledled Cymru am ei arbenigrwydd yn yr iaith Gymraeg; yn cynyrchu geiriaduron a llyfrau gwersi plant dirif. Annibynwraig fu Mrs Evans a naturiol oedd i'r mab fynd i Ysgol Sul, Peniel, Caerbryn, ac i Eglwys Calfaria felly golli cymorth y gŵr dawnus hwn.



*Pennod IV*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. E. B. JONES, B.A., B.D. (1947-55)

Ar ôl diwedd yr Ail Rhyfel Byd (1939-45) a'r cymylau gofid a phryder yn dechrau cilio daeth gwell argoel am fywyd mwy sefydlog i'r pentref ac i'r eglwysi. Cyn ymadawiad y Parch. D. Handel Turner teimlid bod yr Eglwys ar i fyny, nid yn unig oherwydd yr aelodau newydd a ymunodd â hi ond hefyd oherwydd bod y sefyllfa ariannol wedi gwella yn ystod y rhyfel. Felly ar Mehefin 6, cyn galw neb i olynu Mr Turner, penderfynodd yr Eglwys yn unfrydol, i gynnal gweinidog ar ben ei hun.

Daeth rhestr o weinidogion gwir dda i wasanaethu'r Eglwys, rhwng y ddwy weinidogaeth. Tynnwyd rhestr fer o dri i'w gwrando am yr ail waith. Daeth y Parch. E. Bryn Jones B.A., B.D. atom gyntaf ar y Sul, Ionawr 12, 1947, a wedyn ar nos Iau Chwefror 6. Cofir byth am y noson ryfedd hon. Bu'r wlad i gyd dan eira trwchus am ddwy neu dair wythnos cyn hynny, ac erbyn hyn nid oedd bws na modur yn medru teithio. Eto fe gafodd Mr John Griffiths yr ysgrifennydd frys neges i'n sicrhau y byddai'r gennad yng Nghalfaria y noson honno. A felly y bu; dod gyda'r trên i Lanelli a wnaeth a cherdded a bawd-heglu gore gallai hyd yma. Diau i'w galon lamu mewn gorfoledd wrth weld y gynulleidfa gref a ddaeth i'w gyfarfod. Traddododd bregeth eneiniedig a fel y nododd yr ysgrifennydd yn y cofnodion, 'Cawsom lawn dal am ddod.' Ar y Sul, Chwefror 16, pleidleisiodd yr Eglwys dros gael y Parch. E. Bryn Jones yn weinidog arni.

Ganwyd y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D. ym Moi Street, Aberfan, ar y 8ed o Ionawr 1907, yn fab i William ac Ann Jones. Cyfeiriodd droeon wedi trychineb Aberfan mai un o blant Moi Street oedd yntau hefyd. Bu farw ei dad mewn damwain yn y pwll glo, a wedyn yn y gogledd y magwyd Mr Jones a'i chwiorydd. Derbyniodd ei addysg gynnar yn Ysgol yr Eglwys, Llanllechid, ac Ysgol Ramadeg, Bethesda. Ar ôl ysbaid o weithio mewn siop, cafodd fynediad i Goleg Enwad y Bedyddwyr ac i Brifysgol, Bangor. Yno graddiodd gydag Anrhydedd. Addolai'r teulu ym Methel, Caellwyngrudd, ac oddi yno y codwyd ef i'r weinidogaeth. Haedda'r eglwys hon le anrhydeddus yn hanes yr Enwad, pe bai yn unig, ar sail rhif y meibion enwog a gododd i'r Weinidogaeth.



Ordeinwyd y Parch. E. Bryn Jones yn Eglwysi Llannefydd a'r Bontnewydd, Sir Ddinbych yn 1934. Symudodd i Seion, Croesaswallt, a Bethel, Llanllyfni yn 1938 ac i Galfaria, Mehefin 29, 1947. Ymbriododd a Miss Mair Salisbury, Llannefydd. Cyfrifai'i thad ei fod yn ddisgynnydd o'r enwog William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd. Bu Mrs Jones yn wraig gymwys iawn i Mr Jones; yn cadw tŷ cysurus a chroesawgar iddo, a ffyddlon a gwasanaethgar iawn ymhob adran o waith yr Eglwys. Roedd Mrs Salisbury, mam weddw Mrs Jones, yn ran o'r teulu hefyd, a hithau dros ei phedwar ugain ag wyth mlwydd oed ac yn cael pob gofal a thynerwch gan y ddau.

Gan nad oedd yr Eglwys yn berchen Mans, sicrhawyd cartref cysurus i'r Parch. Bryn Jones a'i deulu yn nhŷ Mrs John, Cynnog Villa. Trefniant dros dro oedd hwn, a rhoed addewid i Mr Jones y symudai'r Eglwys i brynu neu adeiladu tŷ cyn gynted â phosibl. Symudodd y teulu i lawr i Benygroes ar Fai 24 a dechreuodd y gweinidog newydd ar ei waith yng Ngalfaria bore Sul, Mai 29, 1947.

**Y Cyrddau Pregethu a Sefydlu**

Trefnwyd rhain i gymryd lle ar Orfennaf 1, 2, 3, 1947.

*Cyfarfod Pregethu, Nos Fawrth, Gorffennaf 1*
Llywydd – Y Parch. G. Brynmor Thomas, Mynydd Seion a Milo.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. D. J. Evans, Jerusalem.
Pregethwr – Y Parch. D. R. John.

*Nos Fercher*
Llywydd – Y Parch. Llwyd Williams, Rhydaman.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. J. J. Francis, Tabor, Cross Hands.
Pregethwr – Y Parch. Jubilee Young.

*Nos Iau*
Llywydd – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. Osborne Thomas, B.A., Cwmparc.
Pregethwyr – Y Parchgn. R. C. Pugh, Pengam, ac Idris Parry, Nantymoel.

**Y Cyfarfod Sefydlu**

*Prynhawn Dydd Iau am 2 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. D. Handel Turner – y cyn-Weinidog.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. J. S. Williams, M.A., B.D., y Tymbl.
Hanes yr Alwad – Mr John Griffiths, yr Ysgrifennydd.
Y Sefydlu – yng ngofal y Parch. R. Lloyd, Saron.

Cyflwyno ar ran Eglwysi Croesoswallt a Llanllyfni –
y Parchgn. Eric Edwards a Brynmor Evans.
Croeso ar ran Calfaria – Mr R. T. Roberts a'r Parch. D. R. John.
Croeso ar ran Bedyddwyr y Cylch – Y Parch. T. M. Griffiths, Carmel a Llandyfan, a'r Parch. W. D. Morgan, B.A., Tycroes.
Croeso ar ran yr Eglwysi Lleol – Y Parch. B. L. James, B.A.
Croeso ar ran y Gymanfa a'r Undeb – Y Parch. W. R. Watkins, Llanelli.
Y Fendith – Y Parch. D. Eirwyn Morgan.

Cafwyd Cyrddau Pregethu gwresog iawn a'r cenhadon yn traethu'r Efengyl gyda nerth ac arddeliad a'r gynulleidfa'n amlwg yn werthfawrogol iawn o bob neges. Bu'r dymuniadau da a fynegwyd a'r pregethu dyrchafol yn fendith ac yn ysbrydiaeth i'r Eglwys i wynebu'r dyfodol, eto mewn ffydd a gobaith newydd am lwyddiant Achos yr Arglwydd Iesu Grist yng Nghalfaria.

Ymdaflodd Mr Jones i'w waith yn ddi-ymdroi. Trefnwyd iddo bregethu yng Nghalfaria, dri Sul y mis a chael un Sul yn rhydd. Llanwyd y Suliau gwag gan fyfyrwyr, neu leygwyr neu Gwrdd Gweddi. Roedd Mr Jones yn bregethwr unigryw ei ddull; bob amser yn groyw a hyglyw. Er bod nam ar ei lefaru i ryw raddau, gorchfygodd hwn drwy ei draethu egnïol a diffuant, fel yr oedd bob amser yn bleser mawr gwrando arno. Hoffai bregethu o'r Testament Newydd; o'r Efengylau yn bennaf. Roedd ei sylwadau treiddgar a meddylgar yn peri i'w wrandawyr weld ochr newydd i'r problemau a godai o'r testun. Byddai'n drugarog iawn at y pechaduriaid a'u gwendidau a pharod iawn oedd i weld darlun o'i hunan a'i wendidau yn hanes y llawer pechadur. Diolchai'n gyson am ras a chariad yr Arglwydd Iesu yn ei gadw a'i gynnal.

Bu digwyddiad trist iawn yn hanes yr Eglwys ac un teulu yn ein plith ar y Sul, Awst 31, 1947. Tra roedd yr organydd **Mr. R. T. Roberts** yn paratoi i ddod i gyfarfod y bore, fe syrthiodd yn farw. Bu Mr Roberts yn organydd a diacon am ryw bymtheg mlynedd ar hugain, yn athro Ysgol Sul ac yn arweinydd y plant am ysbaid. Efe a fu'n croesawu'r gweinidog newydd ar ddydd y Sefydlu, mewn araith fywiog a chwbl nodweddiadol o'i hiwmor iach. Colled fawr i'r teulu a'r Eglwys oedd ei ymadawiad sydyn, ac yntau ond trigain oed.

## Y Cyfarfodydd Diwylliadol a'r Dosbarth Beiblaidd

Ni chynhaliwyd rhain yn ystod y rhyfel am amryw o resymau ond tua diwedd mis Medi 1947 ail gychwynwyd hwynt dan lywyddiaeth y Parch. Bryn Jones. Y patrwm arferol o ddarlithiau a dadleuon a ddilynwyd ac ar yr ail wythnos cynhaliwyd y Dosbarth Beiblaidd. Cafwyd amser hwylus ac adeiladol yn rhain, a daeth llawer o weinidogion dawnus yr Enwad i'n goleuo a'n hadeiladu.



## Gwaith y Plant

Y flwyddyn hon hefyd trefnwyd pwyllgor i baratoi gwaith i'r plant. Yn ystod amser Mr Jones dewiswyd ryw bedair neu bump o weithiau cerddorol i'w perffomio, sef Goruchafiaeth Joseph, Plant y Pentre, Ymgom yr Adar, Dewis Brenhines a'r Blodyn Glas. Ar ôl gweithio arnynt gydol y gaeaf, llwyfanwyd hwynt yn y Neuadd Goffa tua diwedd y mis Chwefror canlynol. Arweinwyd y côr gan y diweddar Mr Talfryn Bowen a chynorthwywyd ef gan Mrs Eirwen John, Mr Tom Evans, Mrs Eirwen Morgan a Mrs M. A. Griffiths. Bu'r perfformiadau hyn yn foddion effeithiol i ennyn hunan hyder yn y plant; i roi cyfle iddynt ymarfer eu doniau ac i'w dysgu i gyd-weithio a phlant eraill yr Eglwys. Heblaw hyn roedd y budd ariannol a ddeilliai yn gymorth gwerthfawr i'r Gronfa Adeiladu.

## Y Zenana

Hen fudiad chwiorydd Bedyddwyr Cymru yw hwn; mudiad cynorthwyol i'r Genhadaeth Dramor a mae ei ddechrau'n mynd nôl i amser William Carey, yn yr India. Y Zenana oedd yr enw a elwid ar y rhan o'r tŷ y cedwid y gwragedd o'r neulltu ynddo. Erbyn hyn wrth gwrs cafodd y gwragedd fwy o ryddid i fynd a dod a derbyn addysg 'run modd a'r dynion. Er nad oes yr un angen nawr am neulltuo casgliadau'r chwiorydd at addysg y merched tramor, eto cedwir at yr hen enw ymhlith y rhai hŷn ohonom. Defnyddir yr arian yn awr at waith cyffredinol y gwragedd.

Oddiar ymadawiad yr annwyl Barch. Job Herbert, bu'r gronfa dan ofal Mrs Martha John, Cynnog Villa, a Mrs Mary Ann Griffiths, Glan Nant, ond yn 1954 ymddiswyddodd y ddwy chwaer a dewiswyd Mrs Annie M. Thomas a Miss Ann Jane Davies yn eu lle. Roedd y mudiad yn agos iawn at galon Mrs (Parch.) Bryn Jones a gwnaeth ei gorau i chwyddo cyfraniad yr Eglwys tuag ato. I'r perwyl hwn dechreuwyd cyfarfodydd Zenana ar brynhawn Iau. Bu'r Parch. Bryn Jones yn llywydd iddynt, ac ar ddiwedd pob oedfa caed tê a chacennau. Byddai'r casgliadau â'r elw o'r arwerthiant yn gryn gymorth i'r gronfa.

Heblaw bod yn arweinydd y mudiad yng Nghalfaria bu Mrs Jones yn ysgrifenyddes Cylch Rhydaman o'r Zenana o 1963 i 1974. Roedd ei hymroddiad trylwyr yn batrwm i bawb a cholled fawr oedd ei hymadawiad o'n plith.

## Dewis Organydd

Ar y nos Sul, Medi 28, 1947, dewiswyd Mr Tom Evans, 5 Teras Gorsddu, yn olynydd i'r diweddar Mr. R. T. Roberts. Roedd Mr Evans wedi bod yn organydd cynorthwyol ffyddlon a medrus ers rhai blynyddoedd ac wedi chwarae'r berdoneg ers ei brynu. Yn y flwyddyn ganlynol dewiswyd ei ferch Mrs Beti Davies i chwarae'r berdoneg.

## Y Gronfa Adeiladu

Dechreuwyd hon yn ystod amser y Parch. Job Herbert. Y diweddar Mr. R. T. Roberts oedd yr ysgrifennydd a Mr John Henry Davies oedd y trysorydd. Ymddiswyddodd yr olaf ar ddechrau 1948 a symud i fyw i Drefach, Llandysul. Roedd hyn eto yn golled i'r eglwys. Roedd wedi bod yn aelod ffyddlon er ei fedydd, yn ddiacon er 1935, yn athro Ysgol Sul i fechgyn ysgol; yn weddïwr cyhoeddus ac yn gefnogwr ffyddlon i'r Gymdeithas Ddiwylliadol. Dewiswyd Mrs Eirwen John a Miss A. M. Edwards i ofalu am y gronfa wedyn. Maes o law trefnwyd i wneud casgliadau wythnosol a rhai o ieuenctid yr Eglwys yn gwneud y gwaith. Yn y modd hwn y paratowyd at adeiladu Mans a Festri.

## Adeiladu'r Mans

Ar y nos Sul, Mawrth 21, 1948, pleidleisiodd aelodau'r Eglwys yn unfrydol i roi caniatâd i'r swyddogion i wneud trefniadau at godi Mans. Cyndyn iawn oedd yr awdurdodau lleol i roi caniatâd i adeiladu ac nid cyn Chwefror 21, 1949, y medrwyd dechrau ar y gwaith ar ddarn o dir yn Heol y Gât, a brynwyd wrth Mr Philip Evans, y cigydd. Mae'n fan cyfleus heb fod yn rhy bell o'r capel nac o ganol y pentref. O ffenestri cefn y tŷ gellir gweld yr olygfa fwyaf prydferth o'r Mynydd Du, Mynydd y Betws a'r dyffrynnoedd odditanynt. Er mawr lawenydd i Mr Jones a'r teulu ac aelodau'r Eglwys daeth y Mans yn barod erbyn mis Tachwedd o'r un flwyddyn.

## Marw Mr John Griffiths yr Ysgrifennydd

Roedd yn amlwg bod Mr John Griffiths mewn afiechyd difrifol yn ystod hanner olaf o'r flwyddyn 1949. Gwelwyd ef yn y capel am y tro olaf ar y Sul, Medi 25, ac erbyn yr ail o Hydref roedd yn ŵr claf iawn, yn yr ysbyty. Nid oedd modd i'r un driniaeth ei wella ac ar ôl tri mis o ddioddef creulon yn ei gartref, ehedodd ei ysbryd at ei Waredwr ar 11eg o Ionawr, 1950.

Beth a ddywedwn mewn teryrnged i'r gŵr hwn? O'r braidd y mae geiriau'n ddigonol i gyfleu'r ymroddiad, y diwidrwydd a'r egni a dreuliwyd yng ngwaith Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist! Arferai y diweddar Barch. L. Berian James, B.A. ddweud pan welai John Griffiths yn mynd ar ryw ofyn ynglŷn â'r Eglwys, 'Dacw Calfaria ar gered,' a phriodol iawn y sylw oherwydd nid oedd un rhan o waith yr Eglwys na phryderai amdano.

Diau iddo gael cyfarwyddid da, yn ifanc iawn, gan ei dad, John Griffiths y Bwlch c.y.m. Bu hefyd dan weinidogaeth hir y Parch. Job Herbert a derbyn o'i gyngor doeth ar ddechrau ei yrfa fel ysgrifennydd. Roedd y ddau yn ffrindiau agos. Ac ar ôl dyddiau y Parch. Job Herbert gwelwyd ef yn barod i roi'r un gefnogaeth i'r gweinidogion a'i ddilynodd. Gwelwyd hyn yn ei ymdrech olaf ddiflino i sicrhau Mans teilwng i Weinidog yr Eglwys. Er mewn gwendid corfforol enbyd nid arbedodd ei hunan hyd y diwedd.



Bu'n arweinydd teilwng ymhob adran o waith yr Eglwys. Bydd llawer iawn ohonom yn ei ddyled am ein trwytho yn y Sol-ffa a'n cyfarwyddo yng nghaniadaeth y Cysegr a'r Gymanfa am flynyddoedd lawer. Er colli Mrs Griffiths yn 1945 cafodd pob gofal a thynerwch gan ei ddwy ferch Annie a Mary Jane. Meddai Mrs Griffiths lais soprano hyfryd, a bu yn gymorth mawr iddo yn yr Ysgol Gân. Gadawodd Mr Griffiths bedwar o blant ar ei ôl, Mrs M. J. Thomas (organyddes yng Nghapel Penygroes), Mr John D. Griffiths (Llundain), Mrs Annie Jones (Arweinydd y Gân yng Ngalfaria am ysbaid) a Mr Philip Griffiths, Talog; hefyd dwy wyres, Mrs Marjorie Rogers, Rhydaman a Mrs Janet Butcher, Caerdydd, ac un ŵyr Mr John Thomas, Caerdydd.

## Swyddogion Newydd

Ar y Sul, Ionawr 29, 1950, dewisodd yr Eglwys Mr Gwilym Davies, Heol y Norton, yn ysgrifennydd gohebol a Mr Edmund Thomas, Gorslas, yn ysgrifennydd ariannol, a'r un nos dewiswyd Mr Talfryn Bowen yn Arweinydd y Gân a Mr David Thomas yn Is-Arweinydd.

## Diaconiaid Newydd

Ar y 21ain o Fedi ,1950, dewisodd y canlynol yn ddiaconiaid: Mr Henry Richards, Mr George James, Mr John Davies-Williams, Mr Evan J. Griffiths, Mr Talfryn Bowen, Mr David Thomas.

## Cwrdd Coffa Mrs Enid (Herbert) Morgan

Yng nghanol mis Gorffennaf 1950, daeth y newydd trist i'r Eglwys bod Enid, merch ein diweddar weinidog, y Parch. Job Herbert, wedi marw ar y maes cenhadol, yn yr India. Prin pum mlynedd oedd er i ni ffarwelio â hi, ac roedd y newydd hwn yn gryn dipyn o sioc. Merch deilwng iawn o'i thad oedd Enid a bu'n gysur mawr iddo yn ei gofal amdano yn ei ddyddiau olaf. Yn ôl tystiolaeth ei gŵr, Tudor, pan ar ei ymweliad â'r Eglwys yn 1952, ymdaflodd i mewn i'r gwaith cenhadol gyda'r un ymroddiad.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa iddi ar Orffennaf 26, 1950 yng Nghapel Calfaria, dan lywyddiaeth y Parch. E. Bryn Jones. Cymrwyd rhan gan Parchgn. L. B. James, B.A., Penygroes, T. M. Griffiths, Carmel, B. L. James, Porthyrhyd, a'r Parch. E. Tudno Jones, Llanelli, dros y Bwrdd Cenhadol. Talwyd teyrngedau dwys a diffuant i'n hannwyl chwaer ac estynwyd y cydymdeimlad dwysaf i'r dair chwaer â'r brawd a'u teuluoedd.

## Cyfarfod Darlledu

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod o'r math hwn ar fore Sul, Hydref 15, 1950. Y Parch. Bryn Jones oedd y pregethwr y tro hwn a Mr Talfryn Bowen oedd Arweinydd y

Gân, a Mrs Betty Davies a Mr Tom Evans wrth yr offeryn. Teimlwyd bod y gweinidog ar ei orau ac o dan arweiniad yr Ysbryd a'r holl wasanaeth yn ogoniant i'r Arglwydd. Gwerthfawrogwyd yn fawr gymorth parod aelodau eglwysi'r cylch gyda'r canu, a'u cydweithrediad ym mhob ffordd.

**Colli Aelodau**

Heblaw colli'r brodyr R. T. Roberts a John Griffiths, amddifadwyd yr Eglwys a amryw o aelodau eraill, rhai a fu yma er dechrau'r achos ac eraill a roddodd wasanaeth ffyddlon am lawer blwyddyn.

Bu farw'r brawd **Dafydd Edwards** ym mis Mawrth 1951; efe wedi ymaelodi'n gynnar iawn yn hanes yr Eglwys; yn ddiacon er 1935 ac yn ffyddlon a chefnogol i holl waith yr Eglwys. Gadawodd dair merch a phedwar mab ar ei ôl; dwy o'r merched, Misses A. M. Edwards a Mabel Edwards wedi aros yn ffyddlon a gwasanaethgar iawn yma; y llall Mrs Lucy Leigh yr un mor ffyddlon yn Jerusalem, yr Eglwys Fethodistiaeth leol. Aeth y ddau fab hynaf, y Parchgn. Watkin a Tom Edwards yn weinidogion i'r Eglwys Efengylaidd yn Ne Affrica, gogledd Lloegr a Phontlliw, tra bu'r mab ieuengaf yn ddiacon yma am rai blynyddoedd.

Ymadawodd y brawd **David Williams y 'BandMaster'** ar Rhagfyr 12, 1951. Bu'n ddiacon ffyddlon er 1946, yn gadeirydd y swyddogion, mawr ei barch am ei bwyll a'i ddoethineb wrth liwio cyfarfodydd y brodyr. Bu hefyd yn arweinydd medrus eithriadol ar Seindorf Arian, Dosbarth Cyntaf, Penygroes, am tua deg mlynedd ar hugain a'i lwyddiant cyson mewn cystadlaethau yn hysbys drwy'r wlad. Gadawodd ar ei ôl dair merch a phedwar mab; y dair merch a dau fab wedi ymaelodi yma. Erys un o'r meibion, y brawd Eddie Williams yn fyw o hyd yn nghartref yr henoed, Awel Towy, Ffairfach, tra mae dwy o'r wyresau Mrs Betty Jenkins a Mrs Glenda Mathias yn aelodau ffyddlon ac y mae'r orwyres Miss Ruth Jenkins yn dod ar ei thro pan ar ymweliad gartref o Gaerdydd, a'r gor-wŷr, Bleddyn a'i fam yma hefyd.

*Y Chwiorydd*

Mrs John Jones, gwraig John Jones y diacon; hithau'n eithriadol ffyddlon i holl oedfaon yr Eglwys.

Mrs Rachel Roberts, gweddw'r diweddar R. T. Roberts a mam William David a Glyndwr; un llawen a llond côl o groeso i'w chartref ganddi bob amser.

Mrs John Griffiths, Tŷ'r Glyn, a gartefodd yng Ngorsddu ar ôl claddu ei phriod ac a fu'n ofalydd ymroddgar iawn o'r capel gyda'i merch Eunice am lawer blwyddyn. Siriol iawn oedd hithau.

Mrs Rees 'y baker', Gorsddu, gweddw'r diacon John Rees. Hi a ofalodd am fara'r Cymun am amser hir. Roedd yn berchen llais hyfryd iawn ac yn haelionus iawn ei chyfryniadau i'r Eglwys ar lawer tro. Mae ei merch Rosa a'i gŵr Arthur Thomas a'i wŷr John a'i wraig yn aelodau yma.



Bu farw **Miss Lettuce Rees, Glan Nant**, ar Chwefror 11, 1957. Merch oedd hi i Mr David a Hannah Rees; un o'r plant hynny a fu gyda'u rhieni yn dechrau'r achos yn 'Sied y Band'. Yn ôl traddodiad y teulu, y capel oedd ei gofal cyntaf. Mae dyled enfawr ar yr Eglwys iddi hi, ei brawd Tom ac i'w chwaer Mrs Mary Ann Griffiths a Millie a'r bechgyn Reginald a Cliff am eu hymroddiad llwyr a diflino i'r capel, tu fewn ac allan. Amser gofidus oedd hi ar yr Eglwys, ynglŷn â chadwraeth y capel ar ôl ymadawiad y teulu hwn.

Un oedd Miss Lettuce Rees a dreuliodd ei hoes yn gwarchod a gwasanaethu eraill. Bu'n lletywraig ofalus i ugeinau o weinidogion a myfyrwyr, ac yn athrawes Ysgol Sul amyneddgar i lu o ferched yn eu harddegau; un barod ei chymwynas a'i chyngor doeth yn ddibynadwy a sicr. Heb blant ei hunan, eto bu 'Anti Let' yn ail fam annwyl iawn i'w nithoedd a'i neiaint.

Coffa da am eraill a ymadawodd â ni yn ystod y weinidogaeth hon; rhai efallai nad oeddent yn flaenllaw iawn ond eto'n rhan annatod o wead a phatrwm ein cymdeithas. Mrs George, Brynmelyn, Mrs David Williams, y Bandmaster; Mrs Ceridwen Griffiths, merch i Daniel Jones, Tŷ'r Llyn, un o aerloeswyr yr Achos, hithau'r 'run mor ffyddlon a'i thad. Bu ei merch Eirian yma'n aelod hyd ei phriodas a gŵr o Rhydaman.

Collwyd hefyd y brawd David John Bowen yn dra sydyn ac yntau'n gymharol ifanc. Mab oedd yntau i un o arloeswyr yr Achos, Dafydd Bowen, tawel a thirion.

Ar Ionawr 15, 1952, bu farw mam Mrs Bryn Jones, Mrs Salisbury. Claddwyd hi yn Llannefydd, Gogledd Cymru ac fe aeth rhai o'r swyddogion i'w chynhebrwng yn gynrychiolaeth dros yr Eglwys.

Ym mis Gorffennaf 1954 bu farw Mrs Turner, mam y Parch. Handel Turner. Eto aeth y swyddogion o'r Eglwys i'w chynhebrwng yn Caersalem, Treboeth.

Yr un flwyddyn bu farw Mrs David Bowen, yn wyth deg a phedair mlwydd oed; hi gyda'i phriod yn aelodau yma er dechrau'r Achos; mam siriol Tal ac Elsie a mam-gu hoffus iawn; a'r flwyddyn 1955 Mrs Wm. Harries, Gorsddu, merch Mr a Mrs John Griffiths, Tŷ'r Glyn, mam annwyl Doreen, Violet a John.

**Ymddeoliad y Gweinidog**

Roedd Mr Jones wedi sôn yn gynnar ar ôl dod i Galfaria, nad oedd yn credu mewn gweinidogaeth hir, yn yr un man. Dywedodd hynny un tro mewn cyfarfod yng nghlyw y ddau hir-aroswr, yn eu heglwysi, sef y Parch. L. Berian James, B.A. Eglwys Penygroes, a'r Parch. Brynmor Thomas, Mynydd Seion; un wedi bod dros bymtheg mlynedd ar hugain a'r llall dros ugain mlynedd yn yr un eglwys. Chwerthin yn braf a wnaeth y ddau. Ond yn unol a'i air pan ddaeth galwad iddo fynd i Seion a Morfa, Nefyn, ar ddiwedd 1955, mynd a wnaeth. Roedd gwir hiraeth ar ei ôl, gan ei fod mor hoff o bobl o bob oedran, yn enwedig o'r plant. Bu'n fugail cyson a gofalus a diddorol a llawen oedd ei sgwrs ar yr aelwyd bob amser.

Blin oedd y chiworydd i golli Mrs Jones fel eu Llywydd a'i Harweinydd ynglŷn â'r Zenana a gwelwyd ei heisiau'n fawr gan ei dosbarth o ferched yn yr Ysgol Sul.

Er y tywydd garw, fe aeth llond bws o'r Eglwys i'w hebrwng i'w maes newydd, ar ddechrau Ionawr 1956, a dymuniadau gorau llu o ffrindiau yn eu canlyn. Ond byr fu eu harosiad a dychwelasant yn 1957 i ofalu am yr Eglwys ym Methlehem, Porthyrhyd, ac yno buont yn fawr eu parch. Bu farw Mrs Jones yn dra sydyn o ddolur y galon.

Gofalodd rhai o'r aelodau yn dyner am eu gweinidog hyd ei ymddoliad yn 1985. Wedyn cafodd noswylio'n gysurus a diddig yng Nghartref Glyn Nest. Bu farw'n dawel bore Llun, Mawrth 19, 1990, a bu'r capel gorlawn ar ddydd ei angladd yn dystiolaeth fyw o'i boblogrwydd.

Bu'r Parch. Bryn Jones yn ymwelydd cyson â'r Cwrdd Chwarter, y Gymanfa a'r Undeb a pharod iawn ydoedd i leisio ei farn ar y pynciau a drafodwyd. Anrhydedd a werthfawrogwyd yn ddirfawr oedd ei ethol yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn 1974-75.

Cafwyd ganddo gyfres o erthyglau yn *Seren Cymru*; rhai diddorol ac adeiladol, a sgrifennodd un llyfr gwersi ar wasanaeth yr Ysgol Sul. Ond gwell oedd ganddo lefaru ac fe addurnodd bulpudau'r genedl ar y Suliau ac mewn Gwyliau Pregethu, gan draethu'n huawdl, yn ei ddull unigryw am yr Arglwydd Iesu Grist, ei Waredwr.

**Y Cyrddau Pregethu Arbennig**


Cynhaliwyd rhain yn ystod misoedd Mai, Medi a Thachwedd, ac yn aml ceid darlith ar ryw weinidog enwog o'r gorffennol, ym mis Tachwedd. Yma clywsom rai o hoelion wyth yr enwad yn pregethu'r Efengyl gydag arddeliad diffuant a chanmoladwy iawn. Dyma wahoddedigion yr Eglwys yn amser y Parch. Bryn Jones: Y Parchgn. W. M. George B.A., Dewi Davies, Llanelli, E. Llwyd Williams, John Thomas, Blaenywaun, E. Lewis Valentine, M.A., Môn Williams, Brynaman, J. S. Jones, Colwyn Bay; S. T. Leeke, B.A., B.D., Abertawe, D. H. Williams, Rhydaragaeau, D. Osborne Thomas B.A., Idris Thomas, Cefnmawr, Jubilee Young, J. Rowland Jones, Pontardawe, W. P. John, Llundain, J. M. Lewi, Treorci, Dewi Jenkins, Pontargothi, R. Parry Roberts, Mynachlogddu, G. Owen, B.A., B.D. Gorseinon, Tom Davies, Drefach, E. Tudno Jones, Hen Golwyn; D. Eirwyn Morgan M.A., B.D., E. M. Thomas, Llangennech, Isaac Thomas B.A., B.D. Llanelli, Glyndwr Davies, Felinfoel, J. Mansel John, B.A. B.D., Aberafan, George John, Llwynhendy.

Yn y cyfnod rhwng y weinidogaeth uchod, a dyfodiad y Parch. Elwyn Williams i'n plith, 1956-57, collwyd dau frawd – **William Rees**, Cwmnant a **Daniel Evans**, **Danycoed**; dau frawd tawel, wedi bod yn aelodau er dyddiau y Parch. Job Herbert. Mae'n debyg taw'r brawd Williams Rees a adeiladodd mur y fynwent sy'n wynebu'r heol fawr, a gwneud hynny'n ddi-dâl. Mae ei wŷr Marcus



a'i wraig yn aelodau yma o hyd, Marcus yn ddiacon; hefyd ei wyres Mrs Marion Thomas; hithau'n weithgar fel ysgrifenyddes i Gymdeithas y Chwiorydd.

Bu'r brawd Daniel Evans yn ddiacon yma er 1935; yn ffyddlon iawn yn holl oedfaon yr Eglwys. Bu ei fab Tom Evans yn organydd am flynyddoedd lawer a'i fab Ben Evans yn ddiacon, a'i wyres Mrs Betty Davies yn organyddes yma er ymddeoliad ei thad. Buodd ei ddwy ferch, Mary a Gwyneth, yn aeoldau yma hefyd, cyn iddynt briodi. Mae ei ferch-yng-nghyfraith Mrs Gwen Evans yn parhau yn fyddlon yma, fel y caniata ei hiechyd.



*Pennod V*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. T. ELWYN WILLIAMS (1957-63)

Erbyn Tachwedd 18, 1956, roedd yr Eglwys yn awyddus unwaith eto i ddewis gweinidog newydd. Cafwyd pleidlais unfrydol ar ran y Parch. J. Elwyn Williams, Meinciau a Phedair Heol. Ar ôl peth trafodaeth rhwng y swyddogion a Mr a Mrs Williams ynglŷn â thelerau'r alwad a manion ynglŷn â'r Mans atebodd Mr Williams yn gadarnhaol erbyn y Sul. Mynegodd y byddai'n barod i ddechrau ei weinidogaeth yn ein plith ar y Sul, Mawrth 10, 1957. Llawen iawn oedd aelodau'r Eglwys unwaith eto, oherwydd sicrhau gweinidog a bugail newydd i'w harwain i'r dyfodol.

**Y Parch. T. Elwyn Williams**
Ganwyd ar Mehefin 13, 1922, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Williams, Capel Uno, Caergybi. Collodd ei fam pan yn chwe blwydd oed. Derbyniodd ei addysg gyntaf yn Ysgol Kingsland ac Ysgol Ramadeg, Caergybi. Magwyd ef yn Eglwys Hebron, Caergybi, a thystia iddo derbyn sylfaen dda iddo adeiladu arni, gan athrawon yn yr Ysgol Sul yno. Ei weinidog ar y pryd oedd y Parch. W. M. George, B.A. Bedyddiwyd ef ar fore braf o Wanwyn 1937, gan y Parch. W. H. Davies. Yn dilyn Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yng Nghaernarfon, teimlodd alwad yr Arglwydd Iesu iddo, i'w wasanaethu. Gydag arweiniad a chymorth ei Weinidog, derbyniwyd ef yn ymgeisydd am y Weinidogaeth gan y Cwrdd Chwarter a'r Gymanfa.

Y cam nesaf oedd mynd i Ysgol Baratoi, Rhosllannerchrugog, am flwyddyn, dan ofal cofiadwy y diweddar Barch. J. Powell Griffiths. Derbyniwyd Mr Williams yn 1942 i Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd, ac ar ôl tair blynedd lwyddiannus yno cafodd alwad i weinidogaethu ar Eglwys y Ffrwd, Aberpennar. Ordeinwyd ef yno ym mis Medi 1945.

Ar Hydref 10, 1945, priodwyd ef a Miss Enid Evans, merch Mr a Mrs Evan Evans, Caergybi, ei thad yn bregethwr cynorthwyol adnabyddus a llwyr gydnabyddedig gan yr Enwad. Breintiwyd y Parch. a Mrs Williams â dwy ferch; y ddwy wedi priodi, Elinor yn Brifathrawes yn Abergwaun ac Eunice yn briod â gŵr busnes yn Sir Benfro; y ddau ŵr yn Fedyddwyr.



Yn Ionawr 1950, sefydlwyd y Parch. T. Elwyn Williams yn weinidog ym Moreia, Meinciau a Salem, Pedair Heol. Ar ôl saith mlynedd hapus a llwyddiannus yno derbyniodd yr alwad i Galfaria, Penygroes, ar Rhagfyr 12, 1956.

**Y Cyrddau Sefydlu a Phregethu**
Trefnwyd y Cyrddau Sefydlu a Phregethu i gymryd lle ar Nos Fercher, Mawrth 20ed a Dydd Iau, Mawrth 21ain.

*Cyfarfod Nos Fercher am 6 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. G. Brynmor Thomas, Mynydd Seion.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. Stephen Griffiths.
Pregethu – Y Parchgn. Islwyn Beynon, Carmel, a D. Osborne Thomas, B.A.

*Y Cyfarfod Sefydlu, Prynhawn Iau, am 2 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D.
Rhannau Arweinion – Y Parch. Idwal Llywelyn, Penrhiwgoch.
Anerchiad – Y Llywydd.
Hanes yr Alwad – Mr Gwilym Davies – Ysgrifennydd.
Ateb yr Alwad – Y Parch. J. Elwyn Williams.
Gweddi'r Cyflwyno – Y Parch. W. J. Charles, Ponthenri. Emyn 767.

*Cyflwyno ar ran:*
Eglwys Moreia, Meinciau – Mr Tom Jones – Ysgrifennydd.
Eglwys Salem, Pedair Heol – Mr D. J. Anthony – Ysgrifennydd.

*Croeso ar ran:*
Eglwys Calfaria – Mr John Williams.
Bedyddwyr y Cylch – Y Parch. J. S. Williams, y Tymbl.
Cwrdd Chwarter Gogledd Myrddin – Y Parch. R. Lloyd Jones, B.A.
Yr Eglwysi Lleol – Y Parch. L. Berian James, B.A. a'r Parch. Rufus Jones, B.A., Gorslas.

Y Fendith – Y Parch. R. Lloyd, Saron.

*Y Cyfarfod Nos Iau am 6 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. J. Elwyn Williams.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. James Dole, Llannon.
Pregethu gan – Y Parchgn. W. H. Davies, Aberduar, a W. M. George, Llanelli.
Y Fendith – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D.

Cafwyd cyrddau bendithiol iawn; derbyniwyd llawer o gyfarchion a dymuniadau da a rhoddwyd canmoliaeth uchel i drefniadau'r chwiorydd ynglŷn â'r bwyd ac i gydweithrediad hapus y bobl ifanc.

Derbyniodd yr Eglwys rai rhoddion cymeradwy iawn erbyn y Cyrddau Sefydlu. Yn gyntaf, cymerodd y Parch. J. Elwyn Williams at y gwaith o bapuro'r Mans a'i wneud mewn modd crefftus iawn, ac o wneud hyn arbedodd dipyn o draul i'r Eglwys. Rhoddwyd bwrdd deri newydd i'r Sedd Fawr, er cof am y diweddar Mr Windsor Jones, Golden Key, gan ei weddw Mrs May Jones a chadair dderw er cof am y diweddar ysgrifennydd Mr John Griffiths a'i briod gan eu plant. Cafwyd hefyd gadair o'r un fath gan chwiorydd yr Eglwys, Llestr Gwydr i ddal blodau gan Mr a Mrs Henry Evans, Norman Terrace. Llaw Lyfr Moliant Newydd, gan Mrs Blodwen Jones er cof am ei gŵr, y diweddar **Mr D. Owen Jones, Pantyclai**. Bu Mr Jones yn Arweinydd Canu'r Plant am lawer blwyddyn, yn ystod gweinidogaeth Mr Herbert. Merch iddo yw Mrs (Parch.) T. G. Morgan, Llanelli. Collodd yr Eglwys ddau o'i haelodau ffyddlonaf pan symudodd ef a Mrs Jones i ffermio yn ardal Pontbrenaraeth. Derbyniwyd hefyd set o chwe thebot a siwg cromiwm wrth y canlynol: Mr a Mrs Eben Griffiths; Mrs Hannah a Miss Eirwen Roberts; Mr a Mrs Rees Davies; Mr a Mrs Emrys Edwards; Mrs Ann Phillips; Mr a Mrs Meurig Jones, Ironmongers.

Symudodd Mr Williams a'r teulu i'r Mans ar Fawrth y pumed, ac yntau yn dechrau ar ei weinidogaeth ar y 10ed o'r mis. Daeth yr Eglwys i uchafbwynt ei haelodaeth yn ystod y weinidogaeth hon. Roedd na gynulliadau da iawn yn enwedig ar y nos Sul, a'r gweinidog yn pregethu'r Efengyl gydag hwyl ac afiaith anghyffredin; yr awyrgylch yn gynnes a'r gwrando'n astud.

## Y Festri

Erbyn hyn roedd sawl problem bwysig yn gofyn am sylw'r Eglwys a'r gweinidog. Bu'r ymdrech am adeiladu Festri yn ran o hanes yr Eglwys er dyddiau y Parch. Job Herbert, ond oherwydd yr angen am godi Mans a thalu amdano, rhaid oedd gohirio hyn. Ond daeth yr amser i fynd i'r afael â'r cynllun unwaith eto. Ail drefnwyd dosbarthiadau casglu'r Geiniog Wythnosol a chymhellwyd yr aelodau i godi eu cyfraniadau i swllt yr un, yr wythnos, er rhoi hwb weddol i'r gronfa adeiladu. Nid oedd y mwyafrif o'r aelodau yn barod i fentro ar y cynllun cyn gwybod bod tair mil yn y Banc. Ond cyn bo hir fe gododd un rhwystr bach eto. Gwelwyd bod angen organ newydd yn y cysegr – yr hen un wedi rhoi gwasanaeth da am dros hanner can mlynedd ac er gofal a thriniaeth cyson Mr John Jones arno, rhaid oedd wynebu'r ffaith fod ei ddefnyddioldeb fel cyfeilydd i ganu'r Eglwys yn dod i ben. Felly, prynwyd organ drydan newydd oddi wrth Gwmni Compton, drwy law y Brodyr Tarr, Rhydaman.



Derbyniwyd y newydd trist ar Dachwedd 15, 1959, bod **Mr Eben Griffiths** y diacon gofalus ac ymroddgar wedi darfod yn Ysbyty Glangwili. Ni fu yn dda ers rhai misoedd ond dioddefodd ei afiechyd yn dawel a dewr. Mab oedd i Mr John Griffiths, Bwlch carreg y mynydd, un o sylfaenwyr blaenllaw'r Achos. Ar ôl i'w frawd, y diweddar John Griffiths farw, gwelid Eben yn ysgwyddo rhan o'r baich a'r gofal a adawodd John ar ei ôl. Roedd ei ofal am fuddiannau'r Eglwys yn batrwm, a'i ffyddlondeb i'r oedfaon, Sul a dydd gwaith yn ddiffael. Bu am flynyddoedd yn athro Ysgol Sul, mewn gofal o grŵp o fechgyn direidus. Efe hefyd oedd Ysgrifennydd y Fynwent. Roedd ei ymadawiad yn golled fawr, nid yn unig i Mrs Griffiths a Glyndwr, ond i'r Eglwys hefyd. Teimlwyd hiraeth dwfn ar ei ôl. Ar ddechrau'r flwyddyn 1959, dewiswyd Mr Talfryn Bowen yn Ysgrifennydd y Fynwent.

Dewiswyd tri diacon newydd yn ystod y flwyddyn 1958, sef Mr Rees Davies, Mr Moelwyn Jones a Mr Andrew Williams.

Cynhaliwyd y Cwrdd Chwarter yng Nghalfaria ar Chwefror 6, 1958, a'r Parch. Iorwerth Davies, Tabor, Cross Hands, yn pregethu.

Ar ddechrau'r flwyddyn 1959 trefnwyd dosbarthiadau bugeiliol i'r diaconiaid – pob diacon i fod yn gyfrifol am gasglu at wahanol achosion ac am ymweld â'r cleifion yn ei ddosbarth. Teimlid y byddai hyn yn dwyn gwell adnabyddiaeth rhwng y swyddogion a'r aelodau.

## Adnewyddu Tu Fewn i'r Capel

Ar ôl prynu organ newydd, teimlwyd bod angen harddu tu fewn i'r capel. Gwnaed hyn yn wirfoddol gan aelodau'r Eglwys; gan y chwiorydd yn bennaf dan arweiniad Mrs Elwyn Williams a Mrs May Jones. Buont yn gweithio bore a hwyr â'u holl egni, yn stripio pob tamaid o farnis oddiar waith coed y capel a'i ail farneisio, a hynny mor grefftus fel mae'r sglein a'r graen yn aros arno hyd y dydd hwn. Rhoddwyd carped newydd ar yr aliau a'r sedd fawr â'r pulpud; leino ar y llawr rhwng y seddau a sedd newydd yn y pulpud. Erbyn gorffen y gwaith tybiem bod gennym gapel newydd. Arbedwyd cost enfawr i'r Eglwys drwy ymroddiad ac aberth y ffyddloniaid hyn a mawr ddiolch iddynt. Bu'r Eglwys yn cynnal ei hoedfaon yn y Neuadd Goffa yn ystod yr adeg hon, a diolch dyledus i'r Pwyllgor am ei ymddygiad haelionus tuag ati. Ail agorwyd y capel gan ddwy o aelodau hynaf yr Achos, sef Mrs Ann Phillips, Bryn Elfed a Mrs M. A. Griffiths, Glan Nant.

Ar y nos yr agorwyd yr organ cafwyd Cyngerdd Mawreddog. Daeth organyddes eithriadol o ddawnus o Gastell Nedd i roi datganiad gwefreiddiol ar yr offeryn a chawsom ein swyno a'n cyfareddu gan y ddwy gantores Mrs Lyn Richards (Tycroes) a Mrs Alma Nicholas (Llandybie) a'r Baswr enwog, Mr Harding Jenkins. Coron hyfryd ar yr holl ymdrechion.

### Ychwanegiad at y Fynwent

Yn yr un flwyddyn prynwyd ychwanegiad at y fynwent; y darn tir hwnnw a ffiniau ar ei hochr ddeheuol. Y swm a dalwyd amdano i Gwmni'r Rheilffordd oedd £20.

### Hanes Arbennig rhai Aelodau

Yn y flwyddyn hon pleser oedd croesawu y brawd David Thomas nôl o Pakistan ar ôl bod yn gwneud gwaith dan y Llywodraeth. Fe ail-gydiodd yn ei waith fel Ysgrifennydd Ariannol yn 1962; y brawd Andrew Williams wedi llanw'r bwlch yn ddeheuig yn ystod ei absenoldeb.

Bu i Mrs M. A. Griffiths, Glan Nant, ymddeol o'u gofal am y capel ar ôl blynyddoedd lawer o waith ymroddedig; a'r brawd Moses Davies i orffen gofalu am y tân. Dewiswyd Mr a Mrs Gwilym Davies i wneud y ddau orchwyl.

Dathlodd y ddwy aelod hynaf o ran oedran eu nawdeg mlwydd oed, Mrs Clarke, Cwmcoch, yn y Gwanwyn a Mrs Davies, Brohyfryd, ym mis Tachwedd. Croesawyd y Parch. a Mrs Williams i'r dathliadau arbennig gyda'r teuluoedd.

## GWEITHGAREDDAU'R EGLWYS

### Y Cwrdd Chwiorydd

Bu hwn yn llewyrchus dan arweiniad Mrs Williams a gwaith y Zenana yn cael lle teilwng ynddo. Mynychwyd Cyrddau Chwarterol y Mudiad yn gyson a sicrhawyd cyfraniadau teilwng i'r Achos.

### Yr Ysgol Sul

Collodd yr Ysgol Sul lawer o'i haelodaeth ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd. Parhaodd cynrychiolaeth dda o'r plant a'r bobl ifanc a'r gwragedd mewn oed ond diflannu wnaeth dosbarth y gwŷr mewn oed. Bu'r diaconiaid John Williams, Moses a Gwilym Davies, John Jones, Henry Richards, Eben Griffiths â'r brawd Henry Evans yn hynod o ffyddlon fel athrawon. Cynorthwywyd hwynt gan Mrs Elwyn Williams a Mrs Margaret Griffiths.

Fel arfer cynhaliwyd y Cyrddau Adrodd a Chanu, y Pasiant Nadolig a paratowyd y plant a'r oedolion erbyn Cymanfa Ganu'r Pasg a Chymanfa Urdd y Seren Fore.

### Y Cyrddau Gweddi

Parhaodd y Cwrdd Gweddi i'w gynnal bob nos Iau, ac er colli llawer o'r hen weddïwyr daeth eraill yn eu lle, megis y brodyr Ifan Thomas, Moses Davies, Henry Richards, Gwilym Davies a rhai chwiorydd, Mrs Nellie Jones, Misses A. M. a Mabel Edwards a Mrs M. Griffiths. Hyfryd a bendithiol oedd yr oedfaon hyn.



### Y Cyrddau Arbennig

Parhau yn eu bri a wnaeth rhain eto. Cafwyd cynylliadau da a chynrychiolaeth ganmoladwy o bob Eglwys yn y cylch. Clywid pregethu'r Efengyl gyda nerth ac argyhoeddiad ym mhob cyfres, a Duw'n cael ei foliannu a'i ogoneddu'n ddiffuant gan y cenhadon. Y canlynol a fu'n gwasanaethu yma yn ystod y weinidogaeth hon:

Y Parch. Glyndwr Davies, Felinfoel
J. Mansel John, B.A., Aberafan
W. H. Rowlands, Caersalem Newydd, Treboeth
Môn Williams, Brynaman
George John, Llwynhendy
W. M. George, B.A., Llanelli
Gwilym Owen, B.A., Gorseinon
E. M. Thomas, Caerphilly
Dewi Davies ac I. D. E. Thomas, Llanelli.

### Colledion

Collodd yr Eglwys lawer o aelodau ffyddlon heblaw'r brawd Eben Griffiths yn ystod gweinidogaeth y Parch. Elwyn Williams. Ymadawodd dau ddiacon trwy lythyrau; y brawd Moelwyn Jones i Dabernacl, Caerfyrddin a'r brawd George James i Dabernacl, Ponyberem. Er taw cymharol fyr bu eu tymor aelodaeth yn ein plith, bu'r ddau yn arbennig o ffyddlon yng ngwasanaethau'r Eglwys ac roedd bwlch, a hiraeth, ar eu hôl yn 1958.

Yn 1962 bu farw'r brawd **Henry Richards**. Ail-ymaelododd yn yr Eglwys o'r Eglwys Efengylaidd yn 1946 a gwnaed ef yn ddiacon yn 1950. Cymeriad arbennig iawn oedd ef; pendant iawn ei argyhoeddiadau a llwyr ei ymroddiad a'i wasanaeth i bob adran o'r Eglwys. Bu'n athro Ysgol Sul ffyddlon ac yn gyson ei ymweliadau â chartrefi'r oedrannus a'r claf. Roedd hefyd yn hael ei gyfraniadau at bob achos teilwng. Heblaw hyn bu'n gynrychiolydd parod dros yr Eglwys i Gyfarfodydd yr Undeb, y Gymanfa a'r Cwrdd Chwarter. Roedd ei golli yn ergyd drom i'r Eglwys a'r gymdeithas. Bu Mrs Richards a'i ferch, Mrs Maggie Hughes, yn aelodau ffyddlon yma am gryn amser. Yn 1963 bu farw'r brawd **Evan John Griffiths**, diacon ac athro Ysgol Sul dawnus a siriol, ef hefyd yn Brifathro Ysgol y Blaenau.

*Collwyd o gorff yr Eglwys y brodyr canlynol:*
W. J. Evans, priod Mrs S. A. Evans a thad Dr Ivor B. Evans, y meddyg lleol.
Daniel Lewis, Greenhill, tad David, Mair a Nancy.
Gruffydd Hughes, priod Mrs M. A. Hughes a thad Owen Lloyd.
David Hall, priod Dilys a thad Pat.
W. David Thomas, priod Barbara a thad Betty a Melfryn.

*Collwyd hefyd ddeg o chwiorydd:*
Mrs Catherine Davies, Golden Key, mam Mrs May Jones, Mrs Lena Edwards, Miss Louvaine Davies, Mrs Edna Rees a'r brawd Lloyd Davies; y plant 'run fath â'u Mam â'u serch yn ddwfn at yr eglwys hon.

Mrs Ann Nicholas, aelod yma er dechreuad yr Eglwys gyda'i brodyr William Jones, Pantyclai, a Daniel Jones, Tŷ'r Llyn, hithau fel nhw yn eithriadol deyrngar i'r Achos.

Mrs Mary Griffiths, gweddw'r diacon, y diweddar Tom Griffiths; un arall o ffyddloniaid dechrau'r ganrif â'u phedwar plentyn wedi'u bedyddio yma; y ddau fachgen hynaf wedi ymfudo dros Glawdd Offa, Islwyn yn aelod a Mrs Margaret Lodwick y ferch yn aelod gyda'r Methodistiaid lleol.

Ym mis Medi 1958 bu farw'r chwaer Mrs Martha John, mam y Parchgn. Sidney ac Emrys John a Miss Elsie John; hwythau hefyd wedi'u bedyddio yma ac yn ffyddlon iawn yn ystod eu hieuenctid. Bu Mrs John yn weithgar iawn yma ar un adeg, yn athrawes Ysgol Sul yn ysgrifenyddes y Gymdeithas Genhadol ac yn aelod ymarferol o'r Cwrdd Gweddi.

Yn yr Hydref 1958, bu farw'r chwaer Miss Ann Jane Davies; hithau eto'n un o'r rhai ffyddlonaf. Er cario'r baich o ofalu am y teulu oherwydd afiechyd hir a phoenus ei mam, a'i thad wedi'i dwyn oddi wrthynt yn sydyn mewn damwain yn y pwll glo; eto hi a fu'n ymroddgar a diarbed yn ei gwasanaeth i'r Eglwys. Gadawodd ar ei hôl y brodyr Charles, Gwyn ag Elfed a'r chwiorydd, Esther, Edith ac Elsie.

Yn 1959, collwyd y wraig hawddgar Mrs Magdalen Thomas, yr Hen Lythyrdy, Gorslas; aelod yma er dyddiau'r Parch. John Herbert, ac yn hael iawn ei chyfraniad at bob achos da. Bu ei merch Betty Davies yn aelod ffyddlon yma hyd ei marwolaeth sydyn yn 1988.

Yn 1961, collodd yr Eglwys ddwy chwaer: Mrs Elizabeth Evans, Danycoed, gweddw'r diweddar ddiacon Daniel Evans, a hithau wedi bod yn ffyddlon iawn fel efe. Bu ei meibion Tom (yr organydd) a Ben (y diacon) yn ffyddlon yma hyd eu marwolaeth a Betty, merch Tom yn organyddes ffyddlon yma am dros bum mlynedd ar hugain. Gadawodd Mrs Evans ddwy ferch hefyd, Mary a Gwyneth, hwythau fel eu rhieni wedi bod yn ffyddlon iawn yma, cyn iddynt ymbriodi.

Bu Mrs Alice Evans, Gorsddu, yn aelod yma er yn ifanc iawn. Merch oedd i Mr a Mrs Powell, Caerbryn; hen aelodau Calfaria a roddodd ofal a chartref i'r diweddar Barch. D. R. John, Rhydwilym, ar ôl iddo gladdu'i rieni. Gadawodd Mrs Evans ddwy ferch yn aelodau ffyddlon iawn yma, Barbara a Rachel Ann.

Yn 1962, bu farw Mrs Mary Ellen Jones, Gorslas, gwraig y brawd Tom Jones a mam Beryl. Pobl wedi ymsefydlu yn y cylch o Drefach, Llandysul, oeddynt, ac wedi cartrefu yn yr Eglwys oddiar hynny.

Gorfu Mrs Esther Rees gartrefi gyda'i merch yn fferm Garnlwyd cyn ei marw



yn 1962 ond ym mhen uchaf Heol y Gât yr oedd ei chartref hi. Wedi dod i Benygroes yn ifanc ar ddechrau'r ganrif, cofiai'r capel heb y galeri. Brodor o Sir Benfro oedd hi; tybiwn iddi fod yn aelod yma am tua thrigain mlynedd, yn ffyddlon iawn a hael ei chyfraniad bob amser. Mae ei merch Mrs Esta Morgan yma'n aelod ac yn dilyn ei esiampl, a'i hwyres Rosemary.

Ychydig ddyddiau cyn Nadolig daeth cwmwl du dros yr Eglwys a'r ardal. Bu farw un o ferched siriolaf yr Ysgol Sul, sef Lynne Morgans, yn bum mlwydd oed a hynny oherwydd i fodur ei tharo ar yr heol. Roedd ei thad Luther yn ŵyr i Caleb Morgan, Arweinydd y Gân i'r Eglwys Apostolaidd a'i mam, Eirlys yn wyres i Mr a Mrs Rees, Glan Nant, rhai o aelodau cyntaf yr Achos.

Achosodd y colledion uchod dipyn o newid yng nghyfansoddiad yr Eglwys, a theimlwyd hiraeth dwys ar ôl y cyfeillion hyn. Ond trwy ryfedd ras fe freintiwyd yr Achos a nifer o aelodau newydd, fel y cyraeddodd uchafbwynt rhif ei aelodaeth yn ystod y weinidogaeth hon.

Ni chafodd y Parch. Elwyn Williams weld dechrau adeiladu'r Festri ond fe gafodd y fenter hwb enfawr ymlaen a braenarwyd y tir yn dda yn ystod ei weinidogaeth ef.

**Ymddeoliad y Gweinidog**

Yn niwedd 1962, derbyniodd Mr Williams alwad i Eglwys Groesgoch, Sir Benfro. Wedi rhoi tri mis o rybudd i Eglwys Calfaria, cafodd ei sefydlu yno ym mis Ebrill 23 a 24, 1963. Yn ei anerchiad olaf yn adroddiad 1962 tystiodd ei fod ef a'r teulu wedi treulio chwe mlynedd hapus iawn yng Nghalfaria a Phenygroes, a diolchodd i'r swyddogion a'r aelodau am eu cydweithrediad a'u cynorthwy. Anrhegwyd Mr Williams a siec a Mrs Williams a llestri gweini tê. Aeth cynrychiolaeth dda o'r Eglwys i'r Cyrddau Sefydlu a cyflwynwyd y Parch. Elwyn a Mrs Williams i'r Eglwys yn Groesgoch gan Mr David Thomas, B.E.M a Mr John Williams. Mynegasant ddymuniadau gorau Eglwys Calfaria iddynt mewn geiriau cynnes a phwrpasol.



*Pennod VI*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. WYNN VITTLE (1964-73)

Cyn mynd ymlaen i ddewis y gweinidog nesaf, dewiswyd aelodau o'r llawr ynghyd â'r ymddiriedolwyr i fod yn Bwyllgor Bugeiliol. Yr aelodau hyn oeddynt, y Mri, Gwyn Jones, Ben Evans, D. P. Williams, Evan Thomas, Arthur Thomas, y Misses A. M. Edwards, Eirwen Roberts a Mrs Margaret Griffiths. Gofynnwyd am ganiatâd yr Eglwys i ddodi un enw gerbron oddiar y rhestr a fu'n gwasanaethu, ar ôl ymadawiad y Parch. T. Elwyn Williams. Cytunodd yr Eglwys. Dewis y Pwyllgor Bugeiliol oedd y Parch. Wynn Vittle, Bethania, Talog a Noddfa, Foelcwan, a bu pleidlais yr Eglwys drosto yn un unfrydol. Ar ôl cyfarfod â'r swyddogion i drafod telerau'r alwad a gweld y Mans gyda Mrs Vittle, derbyniodd Mr Vittle yr alwad ar Rhagfyr 22, 1963, a hysbysodd yr Eglwys y byddai'n barod i gychwyn ei weinidogaeth ar Sul y Pasg 1964.

Ganwyd y Parch. Wynn Vittle yn Gwdig, ger Abergwaun. Cafodd ei addysg Gynradd yn yr ysgol leol. Ei Brifathro oedd Mr. M. D. Lake, gŵr o Benygroes, a pherthynas i Miss Nansi Lake-Thomas. Ar ôl ei dymor yn Ysgol Ramadeg, Abergwaun, aeth i Ysgol Ilston, Caerfyrddin, ac oddi yno derbyniwyd ef i Goleg y Bedyddwyr, Bangor.

Fe'i codwyd i'r weinidogaeth yn Eglwys Harmoni, Pencaer, a chafodd ei fedyddio yno gan y Parch. John Young. Ar ôl gorffen ei gwrs yn y coleg derbyniodd wahoddiad i weinidogaethu yn Eglwysi Bethania, Talog a Noddfa, Foelcwan. Treuliodd ef, a'i briod Nia, gyfnod hapus yn y cylch. Yno ganwyd ei mab Arwel. Roedd Mrs Nia Vittle yn ferch i'r diweddar Barch. a Mrs W. J. Elias Evans, Abergele. Chwaer y diweddar Barch. Lewis Valentine, M.A., oedd ei mam, a'i thad yn hanu o ochr Pontarddulais. Er mawr lawenydd iddynt, ganwyd merch fach, Meinir, i'r pâr ifanc yn mis Awst 1964.

### Y Cyfarfodydd Sefydlu

Yn unol â'r drefn dechreuodd y Parch. Wynn Vittle ei weinidogaeth yng Ngalfaria ar Sul Pasg, Mawrth 29, 1964. Trefnwyd i'r Cyrddau Sefydlu i gymryd lle ar nos Fercher a dydd Iau, Ebrill 1af a'r 2il, 1964, a'r rhaglen fel y canlyn:



*Cyfarfod Pregethu, Prynhawn Dydd Iau am 2 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. T. Elwyn Williams (Cynweinidog).
Emyn 306.
Darllen – Y Parch. D. Ben Jones Elim, Caerfyrddin.
Gweddio – Y Parch. T. Vaughan Lewis, Llansteffan..
Hanes Yr Alwad – Mr Gwilym Davies (Ysgrifennydd).
Ateb Yr Alwad – Y Parch. Wynn Vittle.
Gweddi'r Cyflwyno – Y Parch. James Thomas, B.A., Tabernacl, Caerfyrddin.
Anerchiad ar y Weinidogaeth – Y Parch. D. Herbert Davies, B.A., B.D., Penuel, Caerfyrddin.
Emynau 767 a 455.

*Cyflwyno:*
Ar ran Eglwysi Talog a Foelcwan – Mri. G. Phillips a D. Tom Jones.
Ar ran Eglwysi'r Cylch – Y Parch. J. J. Evans, Blaenycoed.

*Y Croesawu:*
Ar ran Eglwys Calfaria – Mr D. R. Thomas, B.E.M.
Bedyddwyr y Cylch a'r Cwrdd Chwarter – Y Parch. J. S. Williams M.A., B.D., y Tymbl.
Eglwysi Lleol – Y Parch. L. Berian James B.A., Penygroes.

Y Fendith – Y Parch. Iorwerth Davies, Tabor, Cross Hands.

*Cyfarfod Pregethu, Nos Iau am 6 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. Wynn Vittle.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D., Porthyrhyd.
Pregethu – Y Parch. John Young, Seion, Treforys.
Y Parch L. E. Valentine, M.A.
Y Fendith – Y Parch. Ivor Jones, Jeriwsalem, Penygroes.

Cafwyd cyrddau arbennig iawn, y trefniadau'n urddasol a'r Efengyl yn cael ei phregethu gyda nerth ac arddeliad. Cafwyd benthyg y Neuadd Goffa i baratoi'r bwyd i'r ymwelwyr a'i chael yn lle hwylus iawn. Dechreuodd Mr Vittle ar ei waith yn ein plith gydag afiaith gŵr ifanc. Trefnwyd iddo ymweld â'r holl aelodau a'r diaconiaid yn gwmni iddo; pob un yn ôl ei ddosbarth.

### Y Festri

Yn gynnar ym mis Mai, ailgydiwyd yng nghynllun y Festri. Hysbyswyd y pwyllgor eisioes nad oedd yn bosibl i Mr Alcwyn Lewis Davies fynd ymlaen fel cynllunydd, felly dewiswyd Mr Brian Thomas yn ei le. Wedi derbyn un o'r tri



*Agor y Festri, 1965*

chynllun a gynigiodd Mr Thomas a chael prisiau am y gwaith gan dri adeiladwr; derbyniwyd cynnig y Mri Lewis Davies a'i Feibion fel yr un mwyaf addas i'r pwrpas. Dechreuwyd ar y gwaith yn nechrau 1965 ac fe ddaeth i ben erbyn y Cyfarfod Agoriadol ar Fedi 18, 1965. Mrs M. A. Griffiths, Glan Nant, yr aelod hynaf o ran aelodaeth, a gafodd y fraint o agor y Festri, a theilwng iawn oedd hynny, oherwydd bu eu rhieni a'r teulu yn bileri ffyddlon a gwasanaethgar yn yr Eglwys o ddechreuad yr Achos. Rhoddwyd yr enw 'Ysgoldy' uwchben y drws ond o'r braidd y defnyddir hwn gan neb erbyn hyn.

Cost y Festri oedd tua £4,000; £2,100 oedd yn y Gronfa Adeiladu ar y pryd, ond cafwyd benthyg £2,000 o Gronfa'r Undeb; £1,000 yn ddilôg a £1,000 ar 3%. Dyna lawenydd oedd i rai ohonom a oedd wedi hir ddisgwyl i'r freuddwyd ddod i ben, am i ni gael lle cysurus i gynnal Ysgol Sul y Plant, cyfarfodydd y Bobl Ifanc a'r Chwiorydd a'r gweithgareddau adlonianol a diwylliadol a berthyn i bob Eglwys.

Cynhaliwyd y Cwrdd Agoriadol ar brynhawn Sadwrn. Cafwyd Teparti i bawb a chyfarfod yn yr hwyr a'r gŵr gwadd oedd y Parch. M. G. Williams, Ysgrifennydd yr Undeb. Cafwyd cwmni llawer o gyn-aelodau'r Eglwys. Yn eu plith roedd Mr Sidney Morris un o organyddion cynta'r Eglwys, a Mr John H. Davies, trysorydd cyntaf y Gronfa Adeiladu. Buont mor garedig â chyfrannu at gost y Festri, a chafwyd llawer o gyfraniadau gan eraill, nad oeddynt yn bresennol.

**Gwelliannau i'r Mans**

Heblaw adeiladu'r Festri, gwnaethpwyd gwelliannau i'r Mans. Adeiladwyd tŷ gwydr (*conservatory*) o amgylch ffenest y stydi; garej wrth ochr y tŷ a mur o



amgylch yr ardd. Trefnwyd maes parcio yn rhan o'r fynwent ac adeiladwyd sied newydd tu cefn i'r capel. Rhoddwyd y gwaith hwn yng ngofal y brawd Andrew Williams, y brodyr Edmund Thomas a Tom Morgan, Gorslas, ac eraill.

**Rhai Digwyddiadau Arbennig**

Ymddiswyddodd y brawd David Thomas, yr Ysgrifennydd Ariannol, ym mis Ionawr 1965 oherwydd iddo orfod symud i Bridgewater i wneud gwaith dros y llywodraeth. Blin iawn oedd yr Eglwys i'w golli ef a Mrs Thomas. Fe'i anrhegwyd ag ysgrifbin Parker, fel arwydd o ddiolchgarwch yr Eglwys am ei waith graenus a chlodwiw. Trosglwyddwyd hefyd, iddo ef a Mrs Thomas ddymuniadau da'r aelodau gan Mr John Williams, y Trysorydd.

Dewiswyd y brawd Andrew Williams yn Ysgrifennydd Ariannol, a ffyddiog oedd yr Eglwys y gwnai'r gwaith yn effeithiol, oherwydd iddo eisoes fod yn ddirprwy tra bu'r brawd David Thomas i ffwrdd, yn yr India.

Ym mis Mawrth 1965, dewiswyd tri diacon newydd, y brodyr Moses Davies, Eurof Richards a Vernon Samuel.

**Dathlu Canmlwyddiant yr Undeb**

Yn y blynyddoedd 1965-67, cynhaliwyd nifer o gyrddau a gweithgareddau yn y cylch er dathlu'r amgylchiad uchod. Ceiswyd gan yr aelodau i fod mwy ymwybodol o'u trâs, ac i roi mwy o ymroddiad i'r Eglwys, ac i waith yr Efengyl yn eu plith. I'r diben hwn aeth y diaconiaid ac aelodau o'r Pwyllgor Dathlu o amgylch i ddosbarthu Cylch Lythyr yr Enwad i bob aelod ac i gymell ei bresenoldeb yn y Cwrdd Dathlu arbennig yng Ngalfaria, ar fore Sul, Mawrth 7, 1965. Hyfrydwch pur oedd gweld yr Eglwys yn gryno gyda'i gilydd. Pregethwyd yn afaelgar gan y gweinidog a chanwyd emyn o'r Llawlyfr Moliant Newydd gan y chwaer Miriam Bowen, yn ei dull caboledig a dwys arferol.

Bu Cwrdd Chwarter Gogledd Myrddin yng Nghalfaria ar Ionawr 21,1967. Yn y gynhadledd prynhawn Mercher anerchwyd ar y testun 'Y Dathlu' gan y Parch. T. J. Morris, Llangennech, a phregethwyd yn yr hwyr gan y Parch. E. Lyn Rees B.A., B.D., Saron.

Bu Eisteddfodau i'r Ieuenctid yn y cylch ac yn yr un a gynhaliwyd yn y Neuadd Les, Cross Hands, ar y 10fed o Chwefror, 1967, bu Miriam Bowen, Delyth Davies, Eurof Richards a Neville Williams yn fuddugol.

Cynhaliwyd Wythnos Y Gair yn Aberystwyth o Gorffennaf 29 i Awst 4, 1967, ac yn gynrychiolwyr yno ar ran Calfaria oedd Awen Williams (Cray), Peter Roberts a Peter Williams.

**Y Cyfarfod Dathlu Olaf**

Bore'r 3ydd o Fedi, 1967, daeth Eglwysi Saron, Tycroes a Chalfaria ynghyd i

addoli yng nghapel Saron. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Parchgn. Lyn Rees a Wynn Vittle. Pregethwyd yn rymus ac yn effeithiol gan y Parch. G. J. Mathews. Yna cydgymunwyd a diaconiaid o bob Eglwys yn rhannu'r elfennau. Oedfa hyfryd arall a fu'n gyfrwng i ddyfnhau'r ymwybod o'n cred fel Bedyddwyr.

Yn yr un flwyddyn dathlwyd pedwar canmlynedd trosiad o'r Testament Newydd i'r Gymraeg gan William Salesbury yn 1567.

**Derbyn Eglwys Penrhiwgoch i'r Ofalaeth**

Mewn Cyfarfod Eglwys nos Sul, Chwefror 26, 1967, hysbyswyd yr aelodau bod cais wedi dod o Eglwys Penrhiwgoch am uno ag Eglwys Calfaria yng gweinidogaeth y Parch. Wynn Vittle. Wedi peth trafodaeth cytunwyd i'r swyddogion fynd ymlaen a thrafodaeth gyda swyddogion Eglwys Penrhiwgoch ynglŷn â'r mater. Y canlyniad bu i'r ddwy Eglwys ddod i gyd-ddealtwriaeth bod Eglwys Calfarai'n rhyddhau'r gweinidog i roi un Sul y mis o wasanaeth i Eglwys Penrhiwgoch. Llywydd yr Oedfa Sefydlu oedd y Parch. Meurig Thomas, y cyn-weinidog. Cennad y gyfres cyrddau oedd y Parch. John Young, tad yn y Ffydd i Mr Vittle; dan ei weinidogaeth ef yn Harmoni, Pencaer, y codwyd Mr Vittle i'r weinidogaeth a phriodol felly oedd iddo gael y fraint o'i sefydlu ym Mhenrhiwgoch. Rhoddodd y Parch. Meurig Thomas groeso cynnes i Mr Vittle, i'w faes newydd, a soniodd am y cysylltiad hyfryd a fu rhyngddo ef â'r Eglwys yn ystod ei weinidogaeth ef arni. Eto ar ran Eglwys Penrhiwgoch, estynnodd Mr Gwilym Bowen ei groeso cynnes yntau iddo.

Y brawd John Williams, trysorydd Eglwys Calfaria, a gafodd y fraint o gyflwyno Mr Vittle i Eglwys Penrhiwgoch. Atgofiodd y gynulleidfa o'r berthynas a fu rhwng y ddwy Eglwys yn ystod gweinidogaethu'r diweddar Barch. Job Herbert a'r Parch. Handel Turner. Soniodd am ragoriaethau a gweithgarwch y gweinidog newydd a dywedodd y medrai ei gyflwyno'n hyderus iddynt am y gwyddai y gwnai y Parch.Wynn Vittle ei orau yn eu plith, er llwyddiant yr Efengyl a'r Eglwys.

**Ymddiswyddiadau**

Ymddeolodd y brawd Talfryn Bowen o Ysgrifenyddiaeth y Fynwent ym mis Rhagfyr 1966 oherwydd ei afiechyd. Diolchwyd iddo'n gynnes am ei waith yn y gorffennol. Etholwyd y brawd Andrew Williams yn Ysgrifennydd newydd y Fynwent.

Ym mis Medi 1967 ymddiswyddodd y chwaer Miriam Bowen o fod yn gydorganyddes a Mrs Betty Davies, am ei bod yn mynd i Goleg Cerdd Manceinion i ddilyn Cwrs Gradd Mewn Cerddoriaeth yno. Bu'n cynorthwyo yma er mis Mai 1966. Anrhegwyd hi a breichled aur ym mis Hydref 1966, ar ei llwyddiant eithriadol fel cantores yn eisteddfodau'r Genedlaethol a Phorthcawl yn yr un



flwyddyn. Gwerthfawrogwyd ei chyfraniad meistrolgar ar yr organ a dymunwyd pob llwyddiant a bendith iddi i'r dyfodol.

Dewiswyd y chwiorydd Delyth Davies a Pat Beynon i fod yn gydorganyddion gyda Mrs Betty Davies.

Ym mis Chwefror 1971 dewiswyd Mrs Dilys Powell, Y Crescent, yn ofalydd y capel yn lle Mrs Garfield a orffennodd ei thymor o waith clodwiw, oherwydd ei hafiechyd.

Ym mis Hydref 1967 ymddiswyddodd y brawd Moses Davies o'i ofal am wresogydd y capel. Gŵr tawel, ymroddgar a chydwybodol fu'r brawd hwn yn ystod blynyddoedd ei wasaneth a pherchid ef yn fawr am hynny. Erbyn hyn roedd yn amlwg bod angen gwresogydd olew ar y capel, a felly trefnwyd i osod un i fewn erbyn Gorffennaf 1968. Bu'r brodyr canlynol yn barod eu cymwynas yn gofalu am y tân glo hyd yr amser hwn: Arthur Thomas, Ivor Jacob, Meurig Davies, Tom Williams, Eurof Richards a Vernon Samuel.

Ym mis Ionawr 1968, ymddiswyddodd **John Williams** o fod yn drysorydd yr Eglwys ar ôl gwaith gofalus a graenus am ryw ddeg mlynedd ar hugain. Gŵr o Drefach, Llandysul, oedd y brawd annwyl hwn; ymfudodd o'i gynefin yn gynnar yn ei oes i Ferndale, y Rhondda, a dod i Benygroes yn y dauddegau cynnar. Ymgartrefodd ef a Mrs Williams yn gysurus yma gan gymryd rhan yn llawen yn holl weithgareddau'r Eglwys. Bu'r brawd John Williams yn Arolygwr Ysgol Sul am ysbaid ac yn Athro i ddosbarth o ferched yn eu harddegau am lawer o flynyddoedd. Rhoddwyd y diolchiadau mwyaf gwresog iddo am wasanaeth mor deilwng a ffyddlon. Ceiswyd rhoddi tysteb iddo, ond ni fynnai hynny. Yn ei ymateb dywedodd bod gwneud y gwaith wrth ei fodd ac yn bleser mawr iddo a diolchodd i'r Eglwys am yr anrhydedd a'r fraint a roddwyd arno. Aeth ef a Mrs Williams nôl i Drefach i noswylio ac ail ymaelodu yng Eglwys Bethel. Cawsant rai blynyddoedd hapus yno, cyn eu galw adre.

Dewis unfrydol yr Eglwys fel Trysorydd i ddilyn John Williams oedd y brawd a'r diacon Vernon Samuel. Fel y gwelir breintiwyd yr Eglwys yn gyson a brodyr a chwiorydd da a pharod i lanw'r bylchau fel bo'r angen.

**Dewis Diaconiaid**

Ym mis Mai, 1968, dewiswyd pum diacon newydd: y brodyr Ben Evans, Emrys Edwards, Haydn Jones, Walter Powell. Ond er ei ethol ni dderbyniodd y brawd Arthur Thomas y swydd.

**Cyfarfod Darlledu**

Cynhaliwyd hwn ar y 12ed o Fedi, 1971. Arweinydd y Gân oedd Mrs Annie Jones; yr organyddes oedd Mrs Betty Davies a phregethwyd gan y Parch. Wynn Vittle gydag arddeliad. Cafwyd nifer o lythyron gwerthfawrogol o'r pregethu, y canu a naws yr addoliad.

**Cyfarfod Rhanbarthol y Zenana**
Cynhaliwyd hwn yng Ngalfaria ar y 12ed o fis Mawrth, 1972, oherwydd taw Miss Mabel Edwards oedd y llywydd am y flwyddyn. Bu'n drysorydd y Gymdeithas Genhadol am flynyddoedd ac yn ffyddlon iawn i'r holl gyfarfodydd rhanbarthol. Cafwyd ganddi anerchiad graenus a phwrpasol.

**Cofrestru Adeiladau'r Eglwys dan y Ddeddf Elusennau**
Cofrestrwyd Adeiladau'r Eglwys dan y Ddeddf Elusennau am y tro cyntaf yn niwedd 1964. Llawer o ddiolch i'r Parch. M. J. Williams a'r brawd S. G. Griffiths am eu hymweliad â'r Eglwys i egluro'r ddeddf a'i gofyniadau wrth yr Eglwys.

**Cofrestru Priodasau**
Yn 1965 derbyniodd yr Eglwys yr hawl i gofrestru priodasau, a'r Parch. W. Vittle i weithredu fel cofrestrydd.

**Sefydliadau'r Eglwys**
Mynd yn ei blaen a wnaeth cyfarfodydd traddodiadol yr Eglwys. Yn y Cyrddau Gweddi roedd y colledion cyson mewn aelodau a gafodd yr Eglwys wedi amddifadu rhain o lawer o'u harweinwyr. Ond, diolch i'r Arglwydd roedd rywrai'n dod i lanw'r bylchau o bryd i'w gilydd, er bendith a llawenydd i'r ffyddloniaid.

**Cymdeithas y Chwiorydd**
Cafwyd tymor llwyddiannus dan arweiniad Mrs Vittle, ac ymgeleddwyd Achos y Zenana'n wresog. Am y tro cyntaf yn hanes y mudiad aethom allan am ginio gyda'n gilydd a chael noson hwylus a llawen. Trefnwyd rhai rhaglenni diddorol iawn gan y Llywyddes, a rheiny wedi'u seilio ar hanesion o'r Beibl.

**Yr Ysgol Sul**
Gwanhau'n gyson a wnaeth yr Ysgol Sul, o ran aelodaeth oedolion, ar ôl diwedd yr Ail Rhyfel Byd, ond daliodd y plant, rhai pobl ifanc a'r gwragedd yn ffyddlon iddi. Cafodd gwaith y plant le amlwg iawn gan y Parch. Wynn Vittle. Paratowyd y plant yn drylwyr at y gwasanaethau misol, a'r cyrddau arbennig, ar y Nadolig, y Pasg ac ar adeg y Diolchgarwch. Gofalodd y gweinidog bod graen ac arddeliad ar yr oedfaon hyn.

Cofier hefyd am y cyfle a roddwyd i'r ieuenctid i gymryd rhan yn y gwasanaethau ac i ddarllen papurau o'u gwaith eu hunain yn yr oedfaon. Cynorthwywyd Mr Vittle yng ngwaith y plant gan Mrs Betty Davies, Mrs Pat Beynon a Miss Delyth Davies.

Bu'r Festri newydd yn gaffaeliad mawr i Ysgol Sul y plant a'u gwaith ymarferol. Cymaint mwy diddorol y gellid gwneud y dysgu oherwydd medru defnyddio



offer modern. Athrawon ychwanegol at yr uchod yn ystod y weinidogaeth hon oedd Mrs Eirwen John, Miss Mabel Edwards, Mrs Margret Griffiths, y brodyr John Williams, Moses Davies, Gwilym Davies ac Andrew Williams.

**Yr Ysgol Gân**
Cynhaliwyd hon yn reolaidd eto a chymerodd aelodau'r côr a'r plant ran deilwng yng nghymanfaoedd Saron a'r Cylch. Yr arweinyddion oedd Mr Tal Bowen, Mrs A. M. Jones a Mrs M. A. Griffiths.

**Y Cyrddau Pregethu**
Erbyn hyn gwelid trai amlwg ym mhoblogrwydd y Cyrddau Pregethu Blynyddol a Hanner Blynyddol ym mhob Eglwys yn y cylch a'r 'run modd yn rhai Calfaria. Roedd hyn wrth gwrs oherwydd y trai a welwyd yn aelodaeth yr Eglwysi. Er hynny cafwyd cyfres o gyfarfodydd bendithiol iawn gan y brodyr a alwyd i wasanaethu yn Eglwys Calfaria; brodyr o'r radd flaenaf eu gallu a'u hargyhoeddiad. Dyma enwau'r mwyafrif ohonynt: Y Parchgn. Caradog Davies, E. Bryn Jones, John Young, Tudno Jones, Dafydd Edwards, Lyn Rees, Elwyn Williams, George John, J. Rice Rowlands, J. T. Russel, Glyndwr Richards, D. Islwyn Davies, Cecil Jenkins, E. M. Thomas, L. Young Hayden, Raymond Williams, T. G. Morgan a'r Athro D. G. Davies, Caerdydd. Bydd rhain yn enwau adnabyddus i'r cyfarwydd ac erys eu cyfraniadau cyfoethog yn felys yng nghof y ffyddloniaid.

Teg yw nodi yn y fan hyn am y ddarlith ddiddorol a draddodwyd yng Nghalfaria, mis Tachwedd 1964, gan y diweddar **Pastor Rhys Evans**. Ei destun oedd 'Diwygiad 1904'. Brawd addas iawn i'w throsglwyddo oedd efe, oherwydd roedd ef ei hun yn un o blant y Diwygiad ac yn brofiadol iawn o'i ddylanwad nerthol. Llywydd y nos oedd Mr Stephen Williams, tad ysgrifennydd yr Eglwys, y brawd Andrew Williams. Mae mab Pastor Rhys Evans yn un o garedigion ffyddlon yr achos yma.

Cawsom bregeth a darlith ddiddorol arall gan Miss Abigail Jenkins, Treorci, a'r olaf ar ei 'Thaith i Israel' wedi'i throsglwyddo'n fyw iawn gyda chymorth sleidiau.

Bu'r Parch. Tudor Morgan yn gwasanaethu'r Eglwys ym mis Gorffennaf, 1965. Cafwyd Sul bendithiol iawn ganddo ac yn yr Ysgol Sul, y prynhawn, cyflwynodd bortread o'i waith yn ninas Delhi drwy gymorth sleidiau. Gwledd arbennig i'r plant.

**Colledion**
'Lle'r llu yw llawr y llan', fu hanes dros ddeugain o aelodau yn ystod y weinidogaeth hon. Bylchwyd yr Eglwys yn enbyd gan farw nifer sylweddol a fu yma er dechrau'r Achos, a chan eraill, er na fuont cyn hired eu haelodaeth eto a fuont

ffyddlon a gwasanaethgar yma, yn ôl eu gallu. Yn eu plith collwyd chwe diacon, yn gyntaf y brawd annwyl **John Jones** ym mis Mai, 1966. Bu ef yn aelod ffyddlon yma oddiar dyddiau y Parch. Job Herbert, ac yn ddiacon oddiar 1946. Llanwodd fwlch fel organydd yn yr Ysgol Sul a'r Cwrdd Gweddi am lawer blwyddyn ac oherwydd ei fedrusrwydd yn atgyweirio'r hen organ, arbedwyd llawer o draul i'r Eglwys. Bu hefyd yn Arolygwr am dymor. Gŵr siriol a llawen ei ysbryd. O'i deulu niferus, dim ond dau o'i blant a erys ym Mhenygroes, Mrs Megan Hughes yn aelod yn Eglwys Penygroes a'r brawd Vivian Jones yng Nghalfaria.

Bu farw'r brawd **Talfryn Bowen** ym mis Mai 23ain, 1969; mab y diweddar Mr a Mrs Dafydd Bowen; Dafydd Bowen yn ddiacon yma er cyn 1912. Bu Tal, fel y'i gelwid gan ei gyfoedion yn Arweinydd Canu i'r plant am ryw bymtheg mlynedd ac yn Arweinydd y Gân i'r oedolion, ac yn ddiacon oddiar 1950. Meddai ar lais tenor swynol iawn, a bu hyn yn gymorth mawr iddo fel arweinydd. Arweiniodd gôr y Gymanfa yn effeithiol a medrus, er bu'r afiechyd creulon a ddioddefai oddiwrtho yn rhwystr poenus iddo yn y blynyddoedd olaf. Cafwyd perffomiadau llwyddiannus dan ei law yn ystod gweinidogaeth y Parch. E. Bryn Jones, o gantawdau megis Goruchafiaeth Joseph, Y Blodyn Glas, Ymgom yr Adar, Plant y Pentre a Dewis Brenhines. Bu rhain eto yn ychwanegiad sylweddol at y Gronfa Adeiladu.

Bu'n aelod ffyddlon o Bwyllgor Cymanfa Cylch Rhydaman er 1950 a bu'n arweinydd rhiyrsals y Cylch sawl adeg. Ar wahân i'w ddawn gerddorol, roedd gan Tal bersenoliaeth lawen a hapus. Dioddefodd ei afiechyd yn ddewr a digwyn er bu raid iddo dreulio misoedd olaf ei fywyd yn Ysbyty Garngoch, Gorseinon. Gadawodd ei briod Mrs Lena Bowen a phedwar o blant. Bu'r plant, Marlene, Cynthia, Meirion a Miriam yn aelodau ffyddlon yma, tra buont yn byw yn y cylch. Meddai'r plant dipyn o ddawn gerddorol eu tad ac adnabyddir Miriam fel soprano o'r radd flaenaf, a'i phrofiad yn cynnwys perfformiadau clasurol ar y cyfandir ac ymhob rhan o'r wlad hon.

**Gwilym Davies** – Bu farw Gwilym ar y 14eg o Orffennaf, 1969; yntau wedi bod yn orweddog yn Ysbyty Garngoch 'run pryd â Tal. Mab oedd i Mr a Mrs Henry Davies, Bank y Rock a Bro Hyfryd, a'i rieni wedi bod yn aelodau yma er dechrau'r ganrif. Bu yn ffyddlon i holl weithgareddau'r Eglwys er yn ifanc iawn. Etholwyd ef yn ddiacon er 1946, ac yn Ysgrifennydd Gohebol yn 1950, ar ôl marw'r brawd John Griffiths. Yn ôl teyrnged ei weinidog 'profodd ei hun yn Ysgrifennydd delfrydol'. Un prawf o hyn yw trylwyredd cofnodion yr Eglwys a groniclwyd yn fanwl gywir ar hyd ei gyfnod. Bu hyn o werth amhrisiadwy i ysgrifennydd yr hanes hwn, wrth geisio olrhain y manylion priodol.

Eto yn ôl y Parch. W. Vittle 'anodd mesur ei gyfraniad i waith a bywyd yr Eglwys yng Ngalfaria ar hyd y blynyddoedd fel Diacon, Ysgrifennydd Gohebol ac Athro Ysgol Sul'. Cyfrannodd gyfarwyddyd i ddegau o blant yn eu tro. Efe hefyd



oedd y Cyhoeddwr yn ystod cyfnod ei ysgrifenyddiaeth. Meddai lais eglur a chynnes i'r pwrpas hwn. Gwresog oedd ei groeso i'r cyn-aelodau neu ffrindiau'n dod ar ymweliad a dwys ei gydymdeimlad â'r galarus. Dioddefodd yntau ei afiechyd yn dawel a digwyn, mewn ysbryd hoffus a siriol. Cyflawnodd ddiwrnod da o waith yn winllan ei Arglwydd. Gadawodd ei briod Annie a'i unig ferch Delyth i alaru ar ei ôl, y ddwy'n aelodau eithriadol o ffyddlon; Delyth yr athrawes Ysgol Sul a chyd-organyddes; hefyd ei fam oedrannus yn tynnu am ei chant oed, a dwy chwaer a brawd.

Y brawd **Rhys Davies** – Bu farw ef yn 1970. Gŵr tyner diymhongar oedd ef; wedi bod yn aelod ffyddlon yma er dechrau'r ganrif. Gwnaethpwyd ef yn ddiacon yn 1958. Bu'n barod i wneud pob gwasanaeth a fedrai er lles yr Achos. Cododd chwech o blant ffyddlon yn yr Eglwys, cyn iddynt ymbriodi a dilyn eu galwedigaethau, sef Tommy, Sidney, Edgar, John, Bessie a Nacy. Dim ond Edgar a Sidney sy ar ôl erbyn hyn; yr olaf Y Parch. Sidney Davies B.A. wedi ymddeol a byw'n Llanddarog ar ôl bod dros ddeugain mlynedd yn offeiriad plwyf yng Ngiliau Aeron.

Bu farw'r fam Mrs Getta Davies y flwyddyn ganlynol. Cofiaf i hi fod yn blentyn yn 'Sied y Band'. Daeth ei rhieni yma o Glandwr, ond brodor o'r cylch hwn oedd ei thad, Dafydd Roberts. Derbyniodd yr Eglwys rodd o £100 oddi wrth y plant er cof am eu rhieni; dau oedd â gofal a theyrngarwch mawr i'r Achos. Prynwyd cymorth clywed â'r rhodd uchod.

**Haydn Jones**, Gurnos – Gŵr o'r Gurnos oedd y brawd; wedi ymaelodi'n Eglwys ar ôl ei briodas a'r chwaer **Annie Martha Griffiths** yn 1957. Gwnaed hi'n Arweinydd y Gân yn 1969 ond byr bu ei chyfle i wasanaethu yn y swydd hon. Bu farw yn sydyn ychydig o ddyddiau cyn Pasg 1972, a hithau wedi paratoi'r côr erbyn yr achlysur hwnnw. Fel y soniwyd eisoes, fe gafodd y fraint o baratoi'r côr a'i arwain yn Cyfarfod Darlledu ar y 12ed o Fedi, 1971, ac ôl ei gwaith graenus llwyr yn amlwg arno. Gadawodd un brawd ac un chwaer, Mrs M. J. Thomas, organyddes Eglwys Penygroes a Mr Philip Griffiths, Talog.

**Edmund Thomas** – Bu farw'r brawd a'r diacon hwn yn 1973, wedi bod yn aelod yma oddiar 1945. Dod o Siloam, Brynaman, a wnaeth ef a'r teulu. Yn fuan gwelid hwynt yn ymdaflu i weithgarwch a ffyddlondeb ac yn 1946 etholwyd y brawd Edmund Thomas yn ddiacon. Bu ei wraig Mrs Edith Thomas yr un mor ymroddgar ac yn gefnogol iawn i Fudiad y Zenana. Gwraig lawen a chroesawgar i'w chartref oedd hi bob amser. Bu farw hi yn 1964 a blin iawn oeddem i'w colli. Bu'r brawd Edmund Thomas yn hynod gymwynasgar a gofalus wrth wneud gwelliannau i'r Mans ac adeiladu sied newydd tu cefn i'r capel. Gadawsant ar eu hôl y ferch Mrs Eirwen Morgan a'r mab y diweddar Barch. Osborne Thomas, B.A.

Yn ychwanegol at yr uchod collwyd nifer o frodyr da; y rhai, er nad oeddynt

wedi llanw unrhyw swydd arbennig, eto trwy eu ffyddlondeb a'u cyfraniadau cyson a fuont yn gynheiliaid dibynadwy iawn i fywyd yr Eglwys, am flynyddoedd lawer. Cofiwn yn ddiolchar amdanynt.

1965 Gwyn Jones; priod Mrs May Jones; tad Rhiannon, Gareth a'i frawd.
1966 Fred Pritchard; priod Mrs Prichard; tad Harold.
1969 Mr Tyssul Batte, priod annwyl Ennis a thad tyner a gofalus Ann. Colled enfawr iawn i'r ddwy.
1971 Peter Edwards; priod Mrs Eliz Edwards; tad Megan a Gethin.
1972 Haydn Walters; priod Mrs Morfudd Walters; tad Dr Desmond, Maureen a Melanie.
D. Powell Davies; priod Mrs Joyce Davies; tad Bethan a Kevin.
1973 Tom Williams; priod Mrs T. Williams; tad Marion.
1970 Mr a Mrs Haydn Williams. Bu farw'r ddau yn y flwyddyn 1970. Efe yn fab hynaf y diweddar Mr a Mrs Williams, y Bandmaster, a hithau'n ferch i Mr a Mrs Hughes (y Co-op gynt).
1965 Anthony Bevan; priod Mrs Louisa Bevan.
1973 David Davies, gwidman Mrs A. M. Davies a thad Roy a Joan; tadcu Auriol.
1971 David Lewis, Broadoak; priod Mrs D. Davies.
1973 D. S. Evans, Bryndedwyddfa.
1971 John Bowen; mab Mrs Rosie Bowen a'r diweddar frawd David John Bowen a brawd June. Cafodd ei alw adre'n sydyn yn ŵr ifanc iach a chadarn, yn ôl pob golwg. Colled enbyd i'r teulu a'r Eglwys.

*Y Chwiorydd*

Heblaw'r brodyr a chwiorydd uchod, galwyd nifer eraill o chwiorydd gwerthfawr adref yn ystod y weinidogaeth hon; y mwyafrif ohonynt yn arbennig am eu gwasanaeth ymarferol a diflino i'r Eglwys am hir amser:

**Mrs Ann Phillips, Bryn Elfed** – Bu farw yn mis Medi 1964 a'i gwasanaeth yn cynnwys bod yn Athrawes Ysgol Sul amyneddgar a llawen i genhedlaeth o fechgyn bach bywiog a direudus; lletywraig di-ail i lu o bregethwyr, myfyrwyr ac arweinyddion y Gymanfa Ganu, cefnogwr ffyddlon i'r Zenana, a chasglydd selog a brwdfrydig y Gronfa Adeiladu. Gobeithiai'n fawr weld codi'r Festri ond er siom i bawb, galwyd hi o'i gwaith i'w gwobr y flwyddyn cyn hynny. Perthynai iddi lais alto godidog iawn a bu'n gymorth cadarn i bob côr a pharti yn yr Eglwys. Gadawodd fwlch a hiraeth mawr yn yr ardal a'r Eglwys. Gadawodd ei merch Mrs A. M. Davies, Roy a Joan (wŷr ac wyres) ac Auriol (gorwyres).

**Mrs Griffiths, Glan Nant** – Bu hi farw yn 1970. Hi oedd ail ferch Mr a Mrs Rees, Glannant, a cofiai fynd gydai mam i sied y band; yn rhai o'r ymwelwyr



cyntaf yno. Dilyn patrwm a defod y teulu a wnaeth Mrs Griffiths, yn ei gofal am y capel, yn gynorthwy i'w chwaer Miss Lettuce Rees tra fu hi byw, ac wedyn gyda chymorth ei merch Millie. Gwasanaeth diflino a geid ganddynt bob amser o'r dydd hynny'n, siriol a di-rwgnach. Diolch hefyd sy'n ddyledus i'r ddau fab Reginald a Clifford am eu gofal am y tân glo, cyn iddynt orfod ymadael amser yr Ail Rhyfel Byd. Heblaw'r gwarchod uchod roedd eu ffyddlondeb i'r gwasanaethau'n ddiffael. Gadawodd Mrs Griffiths, Millie, Gwen, Beryl, Reginald a Clifford i alaru ar ei hôl a'r Eglwys i deimlo'r golled.

**Mrs Hannah Roberts, Y Faenor** – Ymadawodd hi o'r fuchedd hon yn dra sydyn, ym mis Ionawr 1973. Roedd hithau eto wedi ymaelodi yma'n ifanc iawn; yn ferch i Mr a Mrs John Davies, Brynyreithin; ei thad yn ddiacon a chyn-drysorydd yr Eglwys. 'Run modd â'r chwiorydd uchod roedd yr achos yn agos iawn at ei chalon a'i lwyddiant yn ddymuniad cryf ganddi. Roedd yn un o'r rhai ffyddlonaf yn yr oedfaon a pharod iawn ei chymwynas yng ngweithgareddau'r Eglwys. Croesawodd lu weinidogion a myfyrwyr i'w haelwyd a'i chroeso bob amser yn serchog a diffuant. Ergyd arall oedd ei cholli hithau a'r Eglwys, ac yn enwedig i'w hunig ferch Eirwen.

**Mrs Esther Davies, Brohyfryd** – Bu farw ar Ionawr 17fed, 1972. Ei hynodrwydd hi oedd iddi gael dathlu ei chanmlwydd oed ar y 25ain o Dachwedd, 1971. Cafodd iechyd eithriadol o dda hyd y dair blynedd olaf o'i hoes. Ymaelododd yma yn 1910. Collodd ei gŵr yn 1925 (y diweddar Henry Davies, Bank y Rock) a brwydrodd yn ddewr gyda chymorth ei mab John Henry i godi'r ddau fab a'r ddwy ferch arall. Gwraig dawel a phwyllog oedd hi, yn ffyddlon i'r oedfaon ac yn hoffus iawn o ddarllen ei Beibl a phapurau'r enwad, ac yn ofalus iawn o hyfforddi'i phlant yn ffordd y Bywyd. Etholwyd pedwar o'r plant yn ddiaconiaid yn yr Eglwys, dau ohonynt, John Henry a Gwilym yn ystod ei bywyd a'r ddau arall Meurig a Margaret Anne ar ôl iddi ymadael. Ynghyd â'r ddau olaf gadawodd Mrs Mai Jenkins, priod y Parch. D. Dewi Jenkins a'r wyresau, Delyth, Jill (priod y Parch. Gareth Morgan Jones) a Mrs Elin Barrett, B.A., i'w chofio'n dyner.

Dymunwn goffáu gyda diolch a pharch am ffyddlondeb y chwiorydd da isod a blwyddyn eu marw:

1963 Mrs Clark, Cwmcoch, yn 92 mlwydd oed.
1964 Mrs Tom Evans, Saron, mam Enfys, Eiry a Wyn.
1966 Mrs Annie May Davies, cyn-organyddes, gwraig y brawd D. Davies a mam Roy a Joan.
1967 Mrs Ruth Huntley, merch Mrs Lillian Lloyd, a chwaer Iorwen.
1967 Mrs Stella Morgan, chwaer Enock Morgan. Bu'r ddwy olaf farw ym mlodau eu dyddiau.
1967 Mrs Henry Richards, hithau wedi dathlu ei 90 penblwydd. Ei merch Mr Maggie Hughes yn parhau'n ffyddlon yma.

1967 Mrs Mary Lewis, Bryncwar, mam Morfudd.
1968 Miss Margretta Edwards, Greengrove, merch hynaf y teulu, a chwaer Mrs Edith Thomas; a Mrs Ben Clarke, mam dyner Olive a Cyril.
1969 Mrs Gwendoline Vaughan, mam Huw ac Alun.
1970 Mrs Rees, Bank y Rock, gweddw'r brawd John Rees a mam Annie a David.
1970 Mrs Catherine Jones, Bristol House, gwraig Mr Tom Jones.
1971 Mrs Annie M. Evans, Bank y Rock, merch Mrs Rees a gwraig Mr J. L. Evans.
1972 Mrs Louisa Bevan, gweddw'r brawd A. Bevan, Heol Waterloo.
1972 Mrs Eben Griffiths, gweddw'r diacon Eben Griffiths a mam Glyn Griffiths a mam-gu Mrs Lyn Lewis.
1973 Mrs Minerfa Price, gwraig Mr F. Price, merch Mr a Mrs Williams, y Bandmaster, a mam Urina, Betty, Glenda, Iris, Granville, David a John.

**Ymddiswyddiad y Parch. Wynn Vittle**

Ar y nos Sul, Tachwedd 19, 1972, hysbysodd Mr Vittle y diaconiaid a'r aelodau y byddai'n gorffen ei weinidogaeth yn Eglwys Calfaria ar Ionawr 18, 1973. Roedd wedi derbyn Swydd Ysgrifennydd Cymru o Fudiad Cymorth Cristnogol. Bu Mr Vittle yn weithgar iawn ar Bwyllgor Lleol y Mudiad oddiar dechrau'i Weinidogaeth yma a gwnaed ef yn Ysgrifennydd yn fuan iawn wedyn. Er hynny siom oedd ei golli ef a Mrs Vittle, hyd yn oed i'r Mudiad clodwiw hwnnw. Buont yma am bron naw mlynedd yn gwasanaethu'n ymroddgar a thrylwyr ar hyd yr amser. Nid bychan o ofid oedd i'r Gweinidog a'r Eglwys weld colli cymaint o ffrindiau o'r Sedd Fawr a thu allan iddi yn ystod cyfnod olaf ei weinidogaeth.

'Mynd a dod yw'r rhod a'r rhan,
Aros am ryw enyd fechan.'

Dyna'n profiad ni fel teuluoedd ac Eglwysi hefyd ond rhaid bwrw mlaen mewn ffydd a gobaith a chofio geiriau'r Arglwydd Iesu, 'Yr wyf Fi gyda chwi bob amser.'

Cyn ymadawiad Mr a Mrs Vittle cawsom yn aelodau a swyddogion noson ddymunol iawn gyda'n gilydd yng Ngwesty'r Cawdor, Llandeilo.

Cynhaliwyd Cyfarfod Ymadawol yn y capel ac yno dymunwyd iddynt bob dymuniad da i'r dyfodol a rhoddwyd iddynt dysteb ariannol fel arwydd o barch a diolch yr Eglwys am eu gwasanaeth diffuant yn ein plith.





*Pennod VII*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. D. CARL WILLIAMS (1974-82)

Ar ôl ymadawiad y Parch. Wynn Vittle, dewiswyd rhai aelodau o'r llawr, yn ychwanegol at y diaconiaid, a chynrychiolaeth o Benrhiwgoch i ffurfio Pwyllgor y Weinidogaeth. Rhain oeddynt Miss A. M. Edwards, Miss Delyth Davies, Mrs Iris Thomas, Mrs Pat Beynon a Mrs Margaret A. Griffiths. Bu'r Parch. D. Carl Williams B.A. y Tabernacl, Pontarddulais, yn pregethu yma ar y Sul, Medi 23, 1973, a gwnaeth argraff ffafriol iawn ar aelodau'r ddwy Eglwys. Felly, ar ôl cyd-ymgynghori â phwyllgorau'r Eglwysi ac â'r aelodau, estynwyd galwad unfrydol iddo i'n gwasanaethu. Atebodd y Parch. D. Carl Williams, B.A., ar 14eg o Ragfyr 1973 ei fod yn derbyn yr alwad a'i thelerau a'n hysbysodd y byddai'n barod i ddechrau'i weinidogaeth yn ein plith yn Ebrill 1974. Cyfarfu ef a diaconiaid yr Eglwysi ar y 9fed o Ionawr, 1974, a threfnwyd y Cyrddau Sefydlu i gymryd lle ar Ebrill 10ed a 11eg, 1974.

Brodor o Bedair Heol ger Llanelli yw'r Parch. D. Carl Williams, a Salem, Capel y Bedyddwyr yno yw ei fam Eglwys. Addysgwyd ef yn yr ysgol leol ac yn Ysgol Ramadeg, Caerfyrddin, cyn derbyn addysg bellach yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bangor, o 1956-60.

Ordeinwyd a sefydlwyd ef yn Eglwys Tabernacl, Pontarddulais, yn y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 4-5 o Fedi; cyfarfodydd eithriadol o wresog a llwyddiannus.

Gŵr di-briod oedd y Parch. D. Carl Williams y pryd hwnnw a'i fam yn gofalu amdano, ond ym mis Awst 1969, unwyd ef mewn glân briodas â Miss Rita Morgan, M.A. o Wauncaegurwen. Roedd hi'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Llanbedr-Pont-Steffan ar y pryd ond cyn iddi hi a Mr Williams ddod i Galfaria, roedd wedi derbyn swydd Darlithydd mewn Llydaweg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Y Cyrddau Sefydlu a Phregethu**
**Ebrill 10ed a 11eg, 1974**

*Ym Mhenrhiwgoch, Ebrill 10ed*

Llywydd – Y Parch. E. B. Jones, B.A., B.D., Bethlehem, Porthyrhyd.

Rhannau Arweiniol – Y Parchgn. Alun Jones, Pwll, a Dafydd Edwards, Caerfyrddin.
Pregethu – Y Parch. Dewi Davies, Moriah, Llanelli.
Y Fendith – Y Parch. William Jenkins, Capel Dewi.

*Y Cyfarfod Sefydlu, Prynhawn Iau, 2 o'r gloch yng Nghalfaria*
Llywydd – Y Parch. Wynn Vittle (cyn-weinidog).
Rhannau Arweiniol – Y Parchgn. E. Griffiths, Hope, ac Alan Jones, Siloh, Pontarddulais.
Hanes yr Alwad – Mr Andrew Williams.
Ateb yr Alwad – Y Parch. D. Carl Williams.
Gweddi y Cyflwyno – Y Parch. Gwyn Davies, Moriah, Meinciau a Salem, Pedair Heol.
Anerchiad ar y Weinidogaeth – Y Parch. Môn Williams, Brynaman.

*Y Cyflwyno ar ran:*
Tabernacl, Pontarddulais
Eglwysi Cylch Pontarddulais – Mr T. G. Evans, M.Eng.
Gymanfa Gorllewin Morgannwg – Y Parch. Clifford Davies, Gorseinon.

*Y Croesawu ar ran:*
Eglwysi Calfaria – Mrs Margaret A. Griffiths.
Penrhiwgoch – Mr Elwyn Jones.
Bedyddwyr y Cylch – Y Parch. Garfield Eynon, Rhydaman.
Eglwysi'r Cylch – Y Parch. Alun Page, Mynydd Seion a Milo.
Y Fendith – Y Parch. Islwyn Beynon, Carmel a Llandyfan.

*Cyfarfod Pregethu yng Nghalfaria, Nos Iau, am 6 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. D. Carl Williams, B.A.
Rhannau Arweiniol – Y Parch. D. Eilir Richards a Neville James.
Pregethu – Y Parch. J. Elwyn Williams, Login a Cwmfelin Mynach.
Y Fendith – Y Parch. Iorwerth E. Davies, Tabor, Cross Hands.

Cafwyd cyfarfodydd 'pen y mynydd' pregethu gwresog ac argyhoeddiadol a llu o ddymuniadau da i'r Eglwysi ac i'r Parch. a Mrs D. Carl Williams gan ffrindiau a chydnabod o bell ac agos. Paratowyd lluniaeth i'r ymwelwyr gan chwiorydd gweithgar a pharod yr Eglwys. Braf iawn oedd gallu gwneud hyn yn ein Festri ein hunain am y tro cyntaf yn hanes yr Eglwys.



**Gweithgareddau'r Eglwys**

Nid gwaith rhwydd oedd yn wynebu'r Parch. D. Carl Williams pan ddechreuodd ar ei weinidogaeth yma: yr Eglwys wedi colli cymaint o'i ffyddloniaid ymroddedig a ninnau'r rhai hŷn yn ymdeimlo'n drwm â'r golled honno oherwydd ein hir gyd-addoli a chyd-weithio â hwynt. Eto rhaid oedd mynd ymlaen mewn ffydd y deuai ffrindiau newydd Iesu 'i lanw'r bylchau a adawyd'.

**Yr Ysgol Sul**

Bu sicrhau oedolion, yn enwedig y gwŷr i fynychu'r sefydlaid da hwn yn broblem oddiar gweinidogaeth y Parch. E. Bryn Jones ac erbyn i Mr Williams ddod i'n plith doedd na'r un dosbarth i oedolion. Oherwydd hynny, wrth gwrs, doedd dim posib cael athrawon i fechgyn yn eu harddegau.

Trefnwyd Ysgol Sul y Plant i gymryd lle yn ystod Cyfarfod y Bore; y plant i fod yn bresennol yn y capel yn ystod y rhannau arweiniol ac i ymneulltio i'r Festri yn ystod yr emyn cyn y bregeth. Ar ôl hyn, cryfhau wnaeth yr Ysgol Sul yn raddol a megis yn amser gweinidogaeth y Parch. Wynn Vittle trefnwyd a pharatowyd y Pasiant Nadolig, Cyrddau Misol y Plant, a'r Cyrddau Diolchgarwch. Caed cyfarfodydd hyfryd a'r plant wrth eu bodd yn adrodd yn gelfydd a chanu'n swynol iawn. Cynorthwywyd Mr Williams yn y gwaith hwn gan y chwiorydd Mrs Pat Beynon, Miss Delyth Davies, Mrs Awen Cray, Mrs Mairwen Jones, Mrs Betty Davies a Mrs Lynwen Thomas.

Trefnwyd penwythnosau hwylus i rai o'r ieuenctid yng Nghanolfan y Bedyddwyr yn Langton, Sir Benfro, a chafwyd amser dedwydd yno dan arweiniaid Mr Williams.

**Y Pren Planedig**

Drama oedd hon am fywyd yr emynyddes Ann Griffiths. Ieuenctid yr Ysgol Sul a gymrodd ran ynddi, ynghyd â'r Parch. Carl a Mrs Williams. Gwerthfawrogwyd yn fawr y cyflwyniad celfydd hwn.

**Dosbarth yr Oedolion**

Dechreuwyd dosbarth cymysg o frodyr a chwiorydd a hwnnw i'w gynnal ar ôl cwrdd y bore a Mrs M. Griffiths yn athrawes. Da dweud bod iddo aelodaeth o 14-18.

**Y Dosbarth Beiblaidd**

Bu hwn eto'n llewyrchus dan ofal y gweinidog. Cafwyd tipyn o amrywiaeth yn hwn, oherwydd dewisodd Mr Williams rhai gwahanol aelodau o'r dosbarth i baratoi'r wers erbyn pob cyfarfod. Syniad da iawn er datblygu doniau'r aelodau, ac o bosib fwy o ddiddordeb yn yr Ysgrythyrau. Roedd yn amlwg bod cryn dipyn o chwilota yn yr esboniadau wedi bod oherwydd hyn.

**Canu'r Plant a'r Oedolion**
Bu paratoi canu Cymanfa Urdd y Seren Fore a Chymanfa Saron a'r Cylch yn mynd ymlaen yn gyson dan ofal merched y Festri a llawer o glod iddynt am safon y canu, bob amser.

Prinhau wnaeth cefnogaeth i Ysgol Gân yr Oedolion. Fel y bu farw'r hen gantorion a'u parodrwydd a'u hoffter o ddysgu emynau ac anthemau newydd, trist yw gorfod dweud taw ychydig o bobl ifainc a ddeuai i lanw'r bylchau. Roedd hyn yn glefyd cyffredinol i Eglwysi'r Cylch. Cyn lleied y sylweddolai aelodau'r Eglwysi am y cyfoeth y taflent i ffwrdd a chyn dloted y byddai Caniadaeth Y Cysegr yn y man. Yn raddol gwelid Pwyllgor Cylch y Gymanfa'n gorfod dewis yr anthemau symlaf posibl i gwrdd a maint a gallu'r corau, yn lle'r anthemau godidog hynny megis. Teyrnasoedd y Ddaear a Teilwng Yw'r Oen a ganwyd cynt â'r fath asbri gan gorau'r Eglwysi ledled Cymru. Y chwiorydd a fu eto'r cefnogwyr mwyaf ffyddlon a selog i'r sefydliad hwn, dan ofal Mrs Margaret A. Griffiths a Mrs Betty Davies yr organyddes.

**Adran y Chwiorydd**
Cafwyd cyfres o gyfarfodydd diddorol iawn dan lywyddiaeth Mrs Rita Williams. Er mai am ran o'r wythnos roedd hi gartref, oherwydd ei hymrwymiad fel darlithydd yn y Llydaweg yn Mhrifysgol Aberystwyth, gwnaeth gyfraniad clodwiw iawn i'r adran. Trefnwyd rhai cyngherddau cyhoeddus llwyddiannus yn y capel a'r elw'n mynd at y Gronfa Adeiladu ac Achosion Da. Bu Côr y Mynydd Mawr, Côr Dinefwr, Parti Llwchwr a Chôr Telyn Teilo'n ymweld â ni. Yn ystod ymweliad Côr y Mynydd Mawr pleser mawr a braint oedd cael croesawu dau o blant yr Eglwys nôl i'n plith, y soprano siriol a dawnus Miriam Bowen, fel unawdydd a'r brawd Eurof Richards, yn gadeirydd y nos.

Erbyn hyn mae Miriam yn ychwanegol at ei gwaith fel unawdydd enwog yn ddarlithydd Cerddoriaeth yn Ngholeg Drama a Cherdd, Caerdydd. Gwnaeth Eurof, ar ôl iddo ymddeol o fod yn Ddirprwy Reolwr yng Nglofa Brynlliw, gwrs tair blynedd yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, er cymhwyso ei hun i fod yn Weinidog yr Efengyl. Efe yw Gweinidog presennol Seion Newydd, Treforys.

Diolchgar iawn oedd yr Eglwys i'r corau uchod a'u harweinyddion, y cadeiryddion a'r unawdwyr am eu cymorth gwirfoddol a pharod i Eglwys Calfaria.

**Y Cyfarfodydd Darlledu**
Trefnwyd un arall o'r cyfarfodydd hyn yn ystod y weinidogaeth hon a'r tro hwn ar ran Sain Abertawe. Cafwyd oedfa wresog a graenus ar ei hyd; y Parch. D. Carl Williams yn traethu ei neges amserol yn gynnes ac argyhoeddiadol; plant y festri yn canu emyn yn swynol odiaeth a'r gynulleidfa niferus yn rhoi mynegiant canmoladwy o rai o'n hoff emynau. Cyfeiliwyd yn effeithiol fel arfer gan y Chwiorydd Mrs Betty Davies a Mrs Pat Beynon. Arweinydd y Gân oedd Mrs Margaret



A. Griffiths. Diolch i athrawon y festri Delyth Davies a Lynwen Thomas am eu cynorthwy gyda'r plant, ac i rai o gantorion eglwysi'r cylch am eu cymorth parod hwythau.

**Uno Gweinidogaeth Calfaria, Penygroes a Phenrhiwgoch a Thabor, Cross Hands**
Ar Fehefin 7ed, 1978, derbyniodd Eglwysi Calfaria a Phenrhiwgoch lythyr oddiwrth Eglwys Tabor, Cross Hands, yn mynegi'i dymuniad am ymuno â hwynt mewn Gweinidogaeth Gylch, dan y Parch. D. Carl Williams. Wedi trafodaeth rhwng yr Eglwysi a'r aelodau, penderfynwyd derbyn y cynllun ac aethpwyd ati'n ddiymdroi i drefnu'r modd gorau y medrai'r Gweinidog gwrdd â gofynion pob Eglwys, ynglŷn â'r oedfaon ar y Sul ac yn yr wythnos, ac ynglŷn â'r dyletswyddau eraill a berthyn i bob gweinidogaeth. Cafwyd hefyd drefniant boddhaol i bob Eglwys, parthed y gydnabyddiaeth i'r Gweinidog. Felly wedi i'r Parch. D. Carl Williams gael amser i ystyried telerau'r Eglwysi, hysbysodd hwynt ei fod yn barod i dderbyn y cynllun. Wrth wneud hynny hefyd, galwodd am gydweithrediad ffyddlon y dair Eglwys, er mwyn i'r uniad ffynnu ac i waith yr Arglwydd lwyddo yn y cylch newydd hwn

*Y Cyrddau Sefydlu, yn Nhabor, Cross Hands, Tachwedd 15, 1978.*
*Nos Fercher – 6.30 o'r gloch.*
Llywydd – Y Parch. Iorweth Davies, cyn-Weinidog.
Galwad i addoli – Y Parch. Caradog Owen, Gorslas.
Darllen – Y Parch. Peter Richards, Glanaman.
Gweddi – Y Parch. Alun Jones, Bethlehem, Pwll.
Gair gan y Llywydd.
Hanes yr Alwad – Mrs Ruby Davies.
Ateb yr Alwad – Y Parch. D. Carl Williams.
Gweddi'r cyflwyno – Y Parch. A. Tudor Williams.
Emyn 767.
Y cyflwyno – Ar ran Eglwysi Calfaria a Phenrhiwgoch – y Mri Andrew Williams ac Elwyn Jones.
Ar ran Eglwysi Lleol Penygroes – Y Parch. W. Lloyd Roberts, B.A.
Y Croesawu – Ar ran Eglwys Tabor – Mr Percy Lewis.
Ar ran Eglwysi'r Cylch – Y Parchgn. D. J. Jones B.A., Bethel, Emrys Williams, Tabernacl, Cefneithin, Michael Evans, B.A., Bethel, y Tymbl.
Ar ran y Gymanfa – Y Parch. Islwyn Beynon, y Llywydd.
Pregeth – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D., Bethlehem, Porthyrhyd.
Y Fendith – Y Parch. Bryan Thomas, B.A., Ficer Gorslas a Cross Hands.
Emynau 577, 458, 550.

**Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion**
Cynhaliwyd hon o 3-6 Mehefin, 1979 a braint mawr i Eglwys Calfaria oedd cael rhoi cartref iddi, ar wahoddiad Eglwysi Carmel a Soar, Llandyfan. Bu'n achlysur o lawenydd ac ysbrydoliaeth. Daeth y torfeydd yma, o bob cwr a chafwyd oedfaon bendithiol a dyrchafol iawn a'r Efengyl yn cael ei chyhoedd gyda nerth ac arddeliad. Hyfryd oedd gweld aelodau'r ddwy ofalaeth (Calfaria a Thabor) yn cydweithio er lles a bendith ir ymwelwyr. Diolch hefyd i'r Eglwysi lleol am eu cymorth hwythau

**Colli Diaconiaid**
Blin gan yr Eglwys oedd gweld ymadawiad y brawd John a Mrs Williams, ar ôl bod cyhyd yn aelodau ffyddlon yn yr Eglwys. Gweler teyrnged iddynt ar ymddeoliad John Williams o fod yn Drysorydd.

**Y brawd Emrys Edwards**
Bu farw ef ychydig o amser cyn bod Mr Williams yn dod atom. Mab oedd i Mr a Mrs Dafydd Edwards, Pen-y-Bryn, brawd i'r Misses A. M. ac M. Edwards: Gwnaethpwyd ef yn ddiacon yn 1958 a bu'n gwasanaethu'n ffyddlon yn y swydd honno hyd y goddiweddwyd ef gan ddolur creulawn iawn. Gwelir eisiau ei bersonoliaeth rhadlon yn yr Eglwys ac yn y gymdogaeth, wrth ei waith fel cigydd.

**Y brawd Moses Davies**
Ymaelodi yma o Eglwys Saron a wnaeth y brawd hwn, a'i wraig; a'u pump plentyn yn ffyddlon yn yr Ysgol Sul – bu'n deyrngar iawn i bob adran o waith yr Eglwys. Roedd ei glywed yn gweddïo'n ysbrydoliaeth bob amser, a rhyfeddwn at ei ddawn unigryw o blethu'i weddïau â'i deyrngedau i'w Arglwydd â gemau lu o'n hemynau mwyaf cyfoethog. Cystal oedd efe ar ei draed ag yr oedd ar ei luniau. Gwnaed ef yn Arolygwr ac Athro Ysgol Sul a bu'n ofalydd am wresogydd y capel am flynyddoedd. Etholwyd ef yn ddiacon yn 1965 a llanwodd y swydd yn fwy cydwybodol na'r cyffredin. Gŵr tawel mwyn oedd, yn dra di-bris o'i hun, ond yn batrwm o ddiacon i bob oes. Cafodd yntau gystudd blin, a bu farw yn 1976. 'Dyma Israeliad yn wir'.

Yn ychwanegol at yr uchod, collodd yr Eglwys lawer o frodyr a chwiorydd y dymunem gofio'n dyner amdanynt; am eu ffyddlondeb i'r oedfaon a'u cyfraniadau cyson at gynhaliaeth yr Eglwys.

1973-76 Nurse Blodwen Davies, gweddw'r brawd Jack Davies (Bryneithin) Mrs Mary Edwards, gwraig y cynghorydd Tom Edwards. Mrs Ehel Lewis, gweddw'r brawd David Lewis, mam Mrs Annie Rees, a Miss V. Daniels.



1977-78 Mrs Maggie Jones, Pantyneuadd, mam Vernon ac Islwyn. Nurse Gwyneth Jones, priod, Vivian a mam dda ei phlant. Mrs Lilian Lloyd, hen aelod o ddechrau'r ganrif, a mam Iorwen a'i diweddar chwaer Ruth. Mrs W. Childs, Heol y Gât, gweddw W. Childs a mam Harry. Y brawd John Glyn Richards, priod Mrs Abi Richards a thad Glyn, Eurof a Margaret; aelod yma er ei ieuenctid; parod ei gymwynas a llawen ei ysbryd. Mr a Mrs Garfield, mam a thad Margaret, Gofalwyr cydwybodol am y capel am ysbaid.

1979 Mrs Bessie Davies, priod Alcwyn a mam Maureen, y diweddar Stella a'i brawd. Mrs S. A. Evans, mam y Dr I. B Evans: chwaer hoffus a ffyddlon iawn am yr amser cymharol fyr y bu yma. Mrs Elizabeth Edwards, gweddw'r brawd Peter Edwards a mam Megan a Gethin. Mrs F. Pritchard, gweddw'r brawd Fred Pritchard a mam Harold.

1980 Mrs Annie M. Thomas, gweddw Mr Leyshon Thomas; merch hynaf y diweddar Barch. Job Herbert; mam dyner Merfyn a Myra. Bu'n gofalu am ei thad a'r teulu ar ôl marw Mrs Herbert. Roedd yn wraig foneddigaidd a thawel ei hysbryd ac yn ffyddlon i wasanaethu'r Eglwys tra bu'i hiechyd yn caniatáu. Bu casgliadau'r Genhadaeth Dramor yn ei gofal hi a Mrs John am lawer blwyddyn.

Mrs Peggy Evans, priod Tom Evans (organydd) a mam Mrs Betty Davies. Dioddefodd hir gystudd yn Ysbyty'r Mynydd Mawr. Diolchgar yw'r Eglwys iddi hi a'i phriod am eu rhodd o lestri'r Cymun, er cof am eu hunig fab Dilwyn.

Y brawd D. Tom Evans, Saron, tad ffyddlon, Wyn Enfys ac Eiry.

1981 Mrs Elizabeth Roberts, yr Heol Fach, mam annwyl Clifford a mamgu ofalus Michael a Raymond. Mrs Bessie Davies Constant, mam Byron, Peggy, Jean, Rosalind, Mrs Agnes Griffiths, Cwmmwyn, Gorslas.

1982 Miss Beryl Jones; unig ferch y diweddar Mr a Mrs Tom Jones, Gorslas; newydd ymddeol o fod yn ddirprwy brif athrawes Ysgol High Mead, Llanybydder. Annisgwyl iawn oedd ei marw cynnar. Miss Glenys Lewis, y Gât; cyfnither i'r uchod; wedi dal swydd gyfrifol dan y Llywodraeth. Goddiweddwyd hithau gan afiechyd blin iawn, ar ôl ei hymddeoliad. Y brawd Percy Rees, B.A, yntau wedi ymddeol o fod yn athro yng Ngholeg Technegol, Llanelli. Roedd ef yn yn un o ymddiriedolwyr ffyddlon yr Eglwys. Gadawodd ei briod Edna a'i unig ferch, Ann a'i theulu mewn hiraeth ar ei ôl. **Tom Evans**. Bu farw'r brawd Tom Evans, cyn-organydd yr Eglwys, ar ôl cystudd caled yn ystod misoeddd olaf ei fywyd. Mab oedd i Mr a Mrs Daniel Evans, Dan y Coed. Bu'n organydd ffyddlon iawn, oddiar 1947-1966 ac yn

bianydd yr Eglwys am lawer blwyddyn cyn hynny. Rhoddodd wasanaeth ymroddedig a medrus iawn yn y Cymanfaoedd Canu a'r perfformiadau cerddorol a gynhaliwyd gan yr Eglwys yn ystod yr amser hwn. Bu hefyd yn ymddiriedolwr oddiar 1958. Gofalwyd amdano'n dyner yn ei waeledd gan ei ferch Mrs Betty Davies.

**Pregethwyr y Cyfarfodydd Pregethu Arbennig**

Y Parchgn. Carey Garnon, B.A., Abertawe. Desmond Davies, B.A., B.D., Caerfyrddin. W. Vittle, Caerdydd. D. Eirwyn Morgan, M.A., B.D. Milton Jenkins, Aberteifi. Cecil Jenkins, Llwynhendy. Dennis Young, Cwmtwrch. Evan. J. George, Maescanner.

**Ymddiswyddiad y Parch. D. Carl. Williams**

Roedd yn dipyn o siom i'r Eglwysi dan ei ofal pan hysbysodd Mr Williams hwynt, ar y Sul Hydref 1981 ei fod wedi derbyn yr alwad a gafodd o Eglwys Hermon, Abergwaun, a'i fod yn rhoddi tri mis o rybudd i ni o'r dydd hwnnw. Roedd ei ymddiswyddad yn siom i'r gymuned hefyd, oherwydd bu Mr Williams yn barod iawn i wasanaethu yn y gymdeithas tra bu yma. Efe oedd cadeirydd y mudiad Pryd ar Glud, a bu'n gadeirydd Eisteddfod Penygroes sawl tro, ac yn gefnogydd gwresog iddi. Bu hefyd yn Gaplan yn Ysbyty'r Mynydd Mawr am dymor. Daeth ei dymor i ben yn yr Eglwys ar y Sul, Ionawr 31, ac yn yr oedfa honno, trosglwyddwyd tysteb ariannol iddo fel gwerthfawrogiad yr Eglwys o'i lafur a'i arweiniad yn ein plith, am wyth mlynedd a saith mis. Anrhegwyd Mrs Williams hefyd a thair o fordydd bach am ei chyfraniad cymeradwy iawn hithau i Adran y Chwiorydd. Teithiodd llond bws o'r aelodau lawr i Abergwaun i'r cyrddau Sefydlu, ac yno dymunwyd bob bendith a llwyddiant i Mr a Mrs Carl Williams yn eu maes newydd. Erbyn hyn 'rym yn hapus o longyfarch Mr Williams ar dderbyn ohono'r Radd y B.A., dan Brifysgol Cymru.





*Pennod VIII*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. DR D. DENSIL MORGAN, B.A., B.D. (1982-88)

Ar ôl ymadawiad y Parch. D. Carl Williams, symudodd yr Eglwys ar unwaith i sicrhau gweinidog newydd. Cytunwyd hefyd gan Eglwysi Penrhiwgoch a Thabor.

Ar y Sul, Mawrth 7, 1982, ymwelodd Mr Dafydd Densil Morgan, myfyriwr o Goleg Regent's Park, Rhydychen, â'r dair Eglwys. Roedd yn amlwg i bawb iddo wneud argraff ffafriol iawn ymhlith yr aelodau, felly ar ôl cydymgynghori â'r Eglwysi, cytunwyd yn unfrydol i roi galwad iddo. Ar y nos Lun, Ebrill 7ed, cyfarfu Mr Morgan â phwyllgor Gweinidogaeth y dair Eglwys, yng Nghalfaria, ac yno hysbysodd ef y swyddogion ei fod yn derbyn yr alwad, a'r telerau ynglŷn â hi.

Llawen a diolchgar i'r Arglwydd oeddem fel Eglwysi am Iddo'n bendithio fel hyn, unwaith yn rhagor.

Brodor o Dreforys yw'r Parch. D. Densil Morgan; addysgwyd ef yn yr Ysgol Gynradd leol, yn Ysgol Gyfun Penlan, Abertawe, Prifysgol Cymru, Bangor, lle graddiodd yn y Celfyddydau ac mewn Diwinyddiaeth, ac yng Ngholeg Regent's Park, Rhydychen, lle'r enillodd ei Ddoethuriaeth.

Codwyd ef i'r weinidogaeth yng Nghalfaria, Treforys, Seion Newydd, erbyn hyn.

Priododd ag Ann Bowen Harries o'r Rhyl ar ôl gorffen ei gyrsiau ym Mangor. Merch yw Mrs Morgan i'r diweddar Mr Leslie Harries, Prif Arolygydd Ysgolion yn Sir Fflint, a'i mam yn ferch i'r diweddar Myfyr Hefin, cyn-weinidog Horeb, Pump Hewl, bardd adnabyddus ac yn un o'r tri gweinidog a sylfaenodd Urdd y Seren Fore, nôl yn y tridegau.

Trefnwyd cynnal y Cyrddau Ordeinio a Sefydlu, ym mis Medi, yn ôl y drefn a ganlyn.

**Oedfa Bregethu ym Mhenrhiwgoch**

*Nos Fawrth, Medi 21, am 7.00.*

Llywydd – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D., Porthyrhyd.
Galwad i Addoli – Y Parch. J. E. Pugh, Llanelli, Llywydd y Gymanfa.
Darllen – Y Parch. D. Islwyn Beynon, Carmel a Soar, Llandyfan.

Gweddi – Y Parch. John T. Young, Ebenezer, Llandeilo.
Pregeth – Y Parch. Olaf Davies, Aberduar.
Y Fendith – Y Parch. Alun Rhys, Cefn Berrach a Llanlluan.
Yr emynau – Rhifau 145, 400, 224, 676, Ll.M.N.

**Oedfa Bregeth yn Nhabor**
*Nos Fercher, Medi 22, am 6.30.*
Llywydd – Y Parch. Iorweth Davies, Drefach.
Galwad i Addoli – Y Parch. Geraint Hughes, Mynydd Seion a Milo.
Darllen – Y Parch. Eirian Wyn, Meinciau.
Gweddi – Y Parch. Emrys Williams, Tabernacl, Cefneithin.
Pregeth – Y Parch. M. J. Williams, B.A., B.D., Abertawe.
Y Fendith – Y Parch. Sion Alun, Bethesda, Llangennech.
Emynau – Rhifau 679, 491, 46, 690. Ll.M.N.

**Oedfa Bregethu yng Nghalfaria**
*Nos Iau, Medi 23, am 6.30.*
Llywydd – Y Parch. D. Densil Morgan, B.A., B.D.
Galwad i Addoli – Mr Arfon Jones, B.Mus., B.D., Swyddog Ieuenctid yr Annibynwyr.
Darllen – Y Parch. Geraint Tudur, B.D., Ebenezer, Caerdydd.
Gweddi – Y Parch. D. Islwyn Davies, Abertawe.
Pregeth (Saesneg) – Y Parch. Brifathro B. R. White, M.A., D.Phil., Coleg Regent's Park, Rhydychen.
Y Fendith – Y Parch. D. M. Job, B.D., Llandrillo.
Emynau – Rhifau 306, 190, Ll.M.N, a 'Praise to the Lord'
ac 'O for a thousand tongues to sing'.

**Oedfa Ordeinio a Sefydlu yng Nghalfaria**
*Dydd Iau, Medi 23, am 2.00.*
Llywydd – Y Parch. D. Carl Williams, Abergwaun, y cyn-weinidog.
Galwad i Addoli – Y Parch. J. S. Williams, M.A., B.D.
Darllen – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D, Porthyrhyd.
Gweddi – Y Parch. Elwyn Williams, Adulam, Felinfoel.

Yr ordeinio a'r sefydlu yng ngofal y Parch. Brifathro George John, B.A., B.D., Coleg y Bedyddwyr Bangor.
Hanes yr Alwad – Y brawd Elwyn Jones, Penrhiwgoch.
Ateb yr Alwad – Mr Densil Morgan, B.A., B.D.
Yr Urdd Weddi – Y Parch. A. J. Williams, San Clêr.



Emyn yr Urddo – 'Rho Dy Wyneb gyda'th gennad', Tyddyn Llwyn.
Pregeth – Y Parch. R. G. Roberts, Seion Newydd, Treforys.
Y Fendith – Mr David Murphy, B.A., Bangor.
Yr Emynau – Rhifau 381 a 660. Ll.M.N.

**Y Cyflwyno**
Ar ran Seion Newydd Treforys – Mr Trefor Morgan.
Ar ran Myfyrwyr Coleg Bangor – Y Parch. John G. Roberts, B.A., B.D.
Ar ran Myfyrwyr Coleg Regent's Park, Rhydychen – Mr I. Russell-Jones, B.A., M.Th.

**Y Croesawu**
Ar ran Eglwys Calfaria, a Chwrdd Chwarter Gogledd Myrddin – Y brawd Andrew Williams.
Ar ran Eglwys Penrhiwgoch – Y brawd Gwilym Bowen.
Ar ran Eglwys Tabor – Y brawd Percy Lewis.
Ar ran Eglwysi Cylch y Mynydd Mawr – Y Parch. T. Lloyd Jones, Capel Sion.
Emyn 756, Ll.M.N. 'Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw'.

Yn ei gyfarchiad i'r Eglwysi, mynegodd y Parch. Brifathro George John ei ofid o orfod cymryd lle'r diweddar **Barch. Gyn-Brifathro D. Eirwyn Morgan**. Talodd deyrnged uchel iddo fel cyd-weithiwr ffyddlon ac ysgolhaig disglair. Colled enfawr i'r Enwad, yn ogystal ag i'w deulu oedd ei farwolaeth cynnar. Priodol yw cofnodi yn y fan hyn am y cysylltiad agos a ffynnodd rhwng Eglwys Calfaria ag Eirwyn oddiar y bu'n fyfyriwr. Roedd ei dad, Dafydd Morgan, yn aelod yma'n gynnar iawn yn hanes yr Eglwys. Erbyn sgrifennu hyn o lith, dim ond i'r plant Dylan a Helga y medrwn estyn ein cydymdeimlad am golli ohonynt dad, a mam a gweddill y teulu annwyl.

Daeth y cyfarfodydd Pen y Mynydd i ben. Siaradodd y ddau Brifathro'n uchel iawn am ymroddiad y Parch. D. Densil Morgan i'w waith, ac am ei ddisgleirdeb fel disgybl. Talodd y Prifathro B. R. White deyrnged gynnes iawn i Mrs Morgan hefyd, am ei chydweithrediad gwerthfawr yn yr Eglwys fechan Gymraeg yn Rhydychen. Gyda dymuniadau da llu o gyfeillion, o bob enwad i'r Parch. a Mrs Morgan ac i'r Eglwysi, edrychem ymlaen yn hyderus, unwaith eto am gyfnod newydd o wasanaeth yng ngwinllan yr Arglwydd Iesu Grist.

**Gweithgareddau'r Eglwys**
Dyma'r tro cyntaf yn hanes yr Eglwys iddi gael y fraint o ordeinio gŵr ifanc, yn syth o'r coleg, a'i groesawu ef a'i briod i'n plith. Gellir dweud taw byrlymus fu'r

weinidogaeth hon ar ei hyd. Tra bod y Parch. Densil Morgan yn llawn delfrydau ynglŷn â'i waith yn yr Eglwys, roedd Mrs Morgan hithau 'run mor frwdfrydig am wneud ei rhan i gefnogi'i phriod. Wedi graddio yn y Celfyddydau ym Mhrifysgol Bangor a'i thrwyddedi'n athrawes, meddai'r cymwysterau hynny, fel y medrai ymdaflu i waith gyda'r plant, y bobl ifanc a'r chwiorydd ar unwaith. Gyda phartneriaeth felly ni ellid disgwyl dim ond llewyrch ynglŷn â gweithgareddau'r Eglwys.

### Yr Ysgol Sul

Breintiwyd yr Eglwys a thîm o athrawon ymroddedig i waith yr Ysgol Sul yn ystod y weinidogaeth hon eto. Paratowyd rhaglenni o astudiaethau a gweithgareddau buddiol ac addas i oedran y plant. Parhawyd a'r arfer o drefnu gwasanaethau iddynt ar wahanol wyliau'r Eglwys a pharatowyd hwynt gogyfer a chymanfaoedd y Pasg ag Urdd y Seren Fore, a gwnaed hynny gyda graen arbennig. Coron y gweithgarwch oedd y ddau berfformiad hyfryd a gafaelgar o hanes Joseph, ac o hanes yr Apostol Paul yn 'O Dywyllwch i Oleuni'. Llwyfanwyd yr olaf yng Nghapel Penygroes yn ystod Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion (gweler eto).

### Ysgol Sul yr Oedolion

Parhawyd i gynnal dosbarth yr oedolion ar ôl oedfa'r bore, dan arweiniad y chwaer M. A. Griffiths.

### Y 'Tear Fund'

Casglwyd cryn dipyn o arian i'r gronfa hon dan arweiniad Mrs Morgan. Mabwysiadodd yr Ysgol Sul un bachgen bach tlawd o Colombia, De America a danfon casgliadau'r Cyrddau Diolchgarwch iddo, er ei gynorthwyo i gael bwyd a dillad. Derbyniodd blant yr Ysgol Sul lythyrau o ddiolch wrtho yn gyson. Ei enw oedd Adonai Neves.

### Gwaith Ieuenctid

Cyfarfu'r bobl ifainc yn wythnosol yn y Mans dan ofal y Parch. a Mrs Morgan. Trafodwyd llawer problem ddyrys a weithiau gwahoddwyd siaradwyr o du allan i'r Eglwys i'w hannerch. Ar y Sadwrn 12ed o Fedi 1987 buont yn fuddugol yn Ŵyl y Gair a'r Gân yn Aberystwyth. Ymwelodd rhai ohonynt â Wigwam, Gŵyl Ieuenctid y Bala yn 1987 ac â chynhadledd Ieuenctid y Byd yn Glasgow yn Gorffennaf 1988.

Da oedd gweld y ddwy chwaer Andrea Griffiths a Sharon Rees yn mynd trwy ddyfroedd y Bedydd yn Rhagfyr 1984 a Carwyn Evans, Marie Davies a Karen Smith yn dilyn.



### Cyfarfod y Chwiorydd

Erbyn dyfodiad Mrs Morgan i'n plith, roedd llawer o'n chwiorydd hŷn wedi ymadael drwy angau, neu'n methu bod yn bresennol oherwydd llesgedd. Ond da oedd gweld chwiorydd ifainc yn dod i gymryd eu lle.

Trefnwyd nifer o weithgareddau er codi arian at achosion da; y mwyaf llwyddiannus o rhain oedd yr arwerthiant yn y Neuadd Goffa ar Fedi 25, 1985. Derbyniwyd £550 o elw; dosbarthwyd £150 i Ethiopia; £150 i Ymchwil yr Arennau yn Ysbyty Glangwili; £150 at Apêl y Bws Bach i'r Anabl; a £100 at y Gronfa Adeiladu.

Ymwelwyd â rhai Cartrefi'r Henoed ac â chymdeithasau Chwiorydd mewn gwahanol Eglwysi. Aethpwyd a rhaglen arbennig, 'Gweithwyr Hapus Iesu', (wedi ei pharatoi gan Mrs Ann Morgan a Miss Delyth Davies) i Gymdeithas Gellimanwydd, Rhydaman, a'r cyfeillion yno'n rhoi £100 tuag at Achos Da, o ddewis Chwiorydd Calfaria.

Yn y cyfarfodydd pen pythefnos, mwynhawyd cyfraniadau nifer o ddarlithwyr diddorol iawn; yn eu plith y canlynol: Mrs Einir Talfryn Jones; Mrs Helen Eirian Wyn; Mrs Dewi Jenkins; Mrs Beryl Lake a'i chwmni; Mrs Esther Evans; Mrs Ann Evans; Mr David Griffiths, Llyfrgellydd Llanelli; y Cynghorydd Lynne Davies; Mr Andrew Rees, y Gât; Mrs Lowri Dole, Pontlliw, a Mrs Gwen Evans.

Cawsom Seiad Holi ddifyrrus ac adeiladol yng nghwmni Mr Ken Davies, Ysgol Feistr Penygroes, Mrs Noeline Adams, Y.H., a Dr John. Hefyd, noson o adloniant o safon uchel iawn gan chwiorydd Bethania, Tymbl.

### Y Cwrdd Gweddi a'r Dosbarth Beiblaidd

Cynhelid rhain ar yr ail wythnos. Nid oedd prinder doniau i gynnal y Cyrddau Gweddi, ond gresyn na fuasai mwy o'r aelodau'n gweld eu gwerth. Buont yn fwyniant pur ac yn ysbrydoliaeth parhaol i'r sawl a'u mynychent.

Cafwyd dosbarthiadau Beiblaidd gwych a'r Gweinidog ar ei orau, wedi paratoi'r gwersi'n fanwl a threfnus ac yn gwneud llawn ddefnydd o'r Bwrdd Du. Buom yn pori'n helaeth yn y meysydd canlynol: Efengyl Marc, rhannau o Efengyl Ioan a'r Datguddiad; y Bregeth ar y Mynydd; y Llythyr at yr Hebreaid; Llythyrau Paul at yr Effesiaid; y Colosiaid a I II Thesaloniaid; Ecsodus; y Deg Gorchymyn; Samuel I; hanes Dafydd; Job; Jona a rhannau o'r Salmau. Arlwy gyfoethog yn wir oedd hon.

### Rhai Achlysuron o Ddiddordeb

*Y Llais*

Ym mis Rhagfyr 1983, dechreuwyd cyhoeddi'r *Llais*, papur misol yn croniclo gweithgareddau'r Eglwys a hanesion arbennig am yr aelodau. Defnyddiol iawn yw papur fel hwn i gadw cysylltiad yr aelodau (na fedrant fod yn bresennol yn gyson, am wahanol resymau) â gweithgareddau'r Eglwys.

**Hanner Canmlwyddiant y Parch. E. Bryn Jones yn y Weinidogaeth**
Dathlwyd hwn yn Eglwys Porthyrhyd ym mis Hydref, 1984. Aeth cynrychiolaeth o Galfaria i roddi teyrnged i Mr Jones a dymuno'n dda iddo ar yr achlysur hapus hwn. Y brawd Andrew Williams oedd y siaradwyr swyddogol dros Eglwys Calfaria.

**Dathlu Deugain Mlwyddiant Y Parch. Elwyn Williams yn y Weinidogaeth**
Ym mis Medi 1985 y bu hyn, yn Adulam, Felifoel, oherwydd bod Cyrddau Hanner Blynyddol yr Undeb yng Ngharmel ar yr un dyddiad, y chwaer M. A. Griffiths oedd y gennad dros yr Eglwys ar yr achlysur nodedig hwn. Cafwyd cyfarfod gwresog a chroeso cynnes iawn.

**Cyfarfod Cymorth Cristnogol, Eglwysi Rhyddion y Cylch**
Cynhaliwyd hwn yn Festri Calfaria ar nos Fawrth 23, 1986, dan lywyddiaeth y Gweinidog. Pleser oedd cael croesawu y Parch. Wynn Vittle i'n plith, unwaith eto. Ymwelodd â ni, yn ei swydd o Ysgrifennydd dros Gymru o'r Mudiad arbennig uchod. Ar ôl dangos ffilmiau diddorol iawn o'r gwaith a wneir yn y gwahanol feysydd, diolchodd Mr Vittle am gyfraniadau cyson Cylch y Mynydd Mawr, at yr Achos. Talodd deyrnged gynnes i ymroddiad y diweddar frawd David Bowen Griffiths, Heol y Gât, a fu'n drysorydd cydwybodol i Adran Penygroes am dros un flynedd ar hugain.

**Ymweliad Y Parch. D. Carl Williams**
Yn y Cyrddau Blynyddol ar y 4 a 5 o Fai, 1985, y pregethwr gwadd oedd un arall o'n cyn-weinidogion, sef y Parch. D. Carl Williams, Abergwaun. Cafwyd tair oedfa o bregethu grymus a hwylus ganddo a cynulliadau da yn bresennol. Bu'r plant a'r ieuenctid yn mynegi eu croeso iddo mewn emynau swynol, yn oedfaon bore a hwyr y Sul. Da oedd gweld Mrs Williams hefyd, yn edrych mor dda.

**Cyfarfod Darlledu**
Darlledwyd Oedfa'r Bore ar Radio Cymru ym mis Tachwedd, 1986, ac fel arfer cafwyd cefnogaeth werthfawr y ddwy chwaer Eglwys. Darllenwyd y Gair gan rai o'r bobl ifanc a rhoddodd y plant eitem swynol dan ofal Mrs Morgan. Traddododd y Gweinidog neges amserol a dwys. Mrs Lynwen Thomas oedd wrth yr organ a Mrs M. A. Griffiths oedd arweinydd y canu.

**Doethuriaeth y Gweinidog**
Cafodd y Parch. D. Densil Morgan ei rhyddhau o'r ofalaeth am dri mis yn ystod haf 1984, er dilyn cwrs arbennig yng ngholeg Regent's Park, Rhydychen. Llawen oedd aelodau'r Eglwys i'w groesawu'n ôl mis Medi, a'i longyfarch nes ymlaen ar ennill ei Ddoethuriaeth.



Yn ystod ei absenoldeb, bu'r Eglwys dan ofal myfyriwr ifanc, Mr Heini Jones, mab i'r Parch. a Mrs Alun Jones, Pwll. Cafwyd ganddo wasanaeth cymeradwy iawn a bu iddo le cynnes ymhlith yr ifanc a'r oedolion. Erbyn hyn mae'n weinidog ar Eglwysi Cylch Glyn Ceiriog, Gogledd Cymru.

**Cylch Mam a'i Phlentyn**
Diwedd mis Medi 1987 agorwyd y Festri i roi lle i'r gymdeithas uchod dan arweiniad Mrs Ann Morgan. Casglodd o ryw 15-20 o famau a'u plant bach, er rhoi cyfle i'r plant gyd-chwarae ac i'r mamau rannu eu profiadau â'i gilydd, uwchben cwpanaid o de neu goffi.

Er llawenydd i'r Gweinidog a'i wraig a'r Eglwys daeth merch fach o'r enw Angharad i fyw i'r Mans ym mis Rhagfyr 1986.

**Ymddiswyddiadau**
Yn achlysurol, yn hanes pob Eglwys bydd rhai a fu'n deyrngar a gwasanaethgar mewn swyddi arbennig am lawer blwyddyn yn teimlo bod amser ymddeol wedi dod.

**Yr Organyddes**
Ym mis Mai 1983, ymddiswyddodd Mrs Betty Davies. Bu hi'n organyddes oddiar tua 1963, ar ôl i'w thad hithau ymddeol, y diweddar Tom Evans. Fel efe rhoddodd wasanaeth clodwiw am tua ugain mlynedd wrth yr organ ac yn cyfeilio ar y piano am flynyddoedd cyn hynny. Gwerthfawrogwyd ei gwaith yn fawr mewn cymanfaoedd, gwasanaethau darlledu ac yng nghyfarfodydd amrywiol yr Eglwys. Cyflwynwyd iddi gloc, yn arwydd o werthfawrogiad yr Eglwys o'i gwasanaeth.

**Yr Ysgrifennydd Gohebol**
Ym mis Rhagfyr 1983, ar ôl tair mlynedd ar ddeg o wasanaeth gofalus, ymddeolodd y brawd Vernon Samuel o'r swydd allweddol uchod. Diolch gwresog sy'n ddyledus iddo am sicrhau pregethwyr teilwng i lanw pulpud yr Eglwys yn ystod absenoldeb y Gweinidogion ac yn enwedig am ei gyd-weithio â'r diweddar Mrs Ruby Davies, Tabor, Cross Hands yn ystod amser y Parchgn. D. C. Williams a Densil Morgan.

Mae arnaf i'n bersonol lawer o ddiolch iddo am ddilyn arfer y ddau gyn-ysgrifennyddion, John Griffiths a Gwilym Davies, ynglŷn â chadw cofnodion o bwyllgorau'r diaconiaid yn ystod ei amser yn y swydd.

Bydded iddo lawer blwyddyn eto fel diacon, ymddiriedolwr a gofalydd Llyfr Cofrestr y Fynwent.

**Trysorydd a Sgrifennydd y Gronfa Adeiladu**
Ymddeolodd y ddwy chwaer, Miss A. M Edwards a Miss Eirwen John o'r swyddi hyn, ym mis Rhagfyr 1983, ar ôl gofalu am y Gronfa uchod am dros dair mlynedd ar ddeg ar hugain (33) o flynyddoedd. Gwaith yn golygu cryn gyfrifoldeb oedd hwn, a diolch iddynt am eu cydweithrediad hapus, â'r llu chwiorydd a fu'n eu tro yn casglu'r Geiniog Wythnosol yn eu gwahanol ardaloedd. Trwy eu dyfalbarhâd gyda'i gilydd, medrodd yr Eglwys glirio'r costau sylweddol ynglŷn ag adeiladu'r Mans a'r Festri, heb sôn am y draul barhaus wrth y capel. Trist yw cofnodi i Miss Edwards ein gadael ni, ar ôl cystudd byr. Dewiswyd Mrs Marion Thomas a Mrs Mairwen Jones i'r swyddi uchod, ym mis Ionawr 1984.

**Gofalydd y Capel**
Ymddiswyddodd Mrs Francis Davies o ofal glanhau'r capel ym mis Ionawr 1984, ar ôl tua naw mlynedd yn y gwaith go gaeth hwn. Gwraig fwyn a phwyllog oedd Mrs Davies, parod iawn ei chymwynas ar bob achlysur. Diolch cynnes iawn iddi am ei gwasanaeth ffyddlon yn ystod y naw mlynedd.

Dilynwyd Mrs Davies yn y swydd hon gan Miss Nest Griffiths, a chynorthwywyd hi am beth amser gan Mrs Mairwen Jones. Bu Nest, fel y'i gelwid gan bawb, wrth y gwaith am bedair blynedd a mawr oedd ei hymroddiad a'i haelioni, hyd bod ei nerth yn pallu yn 1988. Ymlith pethau eraill, dyledus ydym iddi am ddwy silff lyfrau yn y Festri a rhes o fachau dal cotiau yn lobi'r capel.

**Arweinydd y Gân**
Ymddeolodd y chwaer Margaret A. Griffiths o'r swydd uchod ar ôl Cymanfa'r Pasg 1988, ar ôl pymtheg mlynedd a deugain (55) o flynyddoedd o ofal ryw adran o gerddoriaeth perthynol i waith yr Eglwys. Dechrau gyda gwaith Urdd y Seren Fore yn 1933 yng nghwmni'r diweddar Barch. Job Herbert a'r diweddar chwiorydd A. M. Edwards a Edith Davies (John wedi hynny); ei dewis yn arweinydd cyffredinol y plant yn 1950, ac Arweinydd Cân yr oedolion ym mis Mai, 1972.

Cafodd y fraint o arwain y canu mewn dwy oedfa ddarlledu; un dan weinidogaeth y Parch. D. C. Williams a'r llall dan weinidogaeth y Parch. Densil Morgan. Bu'r profiad hir ymysg y plant a'r oedolion yn un bendithiol a chyfoethog iawn iddi.

**Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion**
*Mis Mai 18-21, 1986*
Nôl yn 1911 y cafodd yr Eglwys hon y fraint o groesawu'r Gymanfa o'r blaen. Y tro hwn croesawyd hi am mai ein ysgrifennydd gweithgar ac ymroddedig, y brawd Andrew Williams, oedd cadeirydd y flwyddyn. Profiad cyffrous iawn oedd derbyn cynrychiolaeth, mor gref, o Fedyddwyr y ddwy Sir i'n plith. Gwelir



adroddiad llawn o weithgareddau'r Ŵyl yn rhaglen y Gymanfa 1986, ond rhaid cynnwys braslun ohonynt i'r rhai na feddant hwnnw.

**Oedfa Gymun Undebol yng Nghalfaria**
*Dydd Sul, Mai 18, am 10.30*
Llywydd – Y Parch. E. Lyn Rees, B.A., B.D., Saron.
Defosiwn – Y Parch. Wyndham Rees Salem, Pisgah a Bethesda.
Pregeth – Y Parch. Densil Morgan, ar y testun, Joel 1.14.
Roedd eneiniad arbennig ar yr oedfa drwyddi. Gweinyddwyd y Gymun gan y tri gweinidog i gynulliad gref o Fedyddwyr.

*Yn yr hwyr am 5.30 yng Nghapel Tabor*
Tair Eglwys gofalaeth Mr Morgan yn cyd-addoli a'r Gweinidog yn pregethu; y Sul hwn yn agoriad teilwng i'r Gymanfa.

**Oedfa Plant yng Nghalfaria**
*Dydd Llun, Mai 19, am 2.00*
Llywydd – Mrs M. A. Griffiths.
Cyfraniadau gan blant Ysgol Sul Calfaria, Ysgol Gynradd Penygroes a Pharti Merched Clychau'r Emlyn. Cyflwynwyd y neges 'dwylo dros y môr' gydag afiaith a swyn arbennig. Llawer o ddiolch i Mr Ken Davies, y Prifathro, a Mrs James a'r athrawon eraill am eu cydweithrediad.

Soniodd Mrs Griffiths yn ei hanerchiad am gyfraniad Ysgol Penygroes i Gymru, i'r gwledydd tramor ac yn enwedig i'r Maes Cenhadol. Cofiwyd yn arbennig am y Cenhadwr mawr i China, a fu'n athro yn un o hen ysgolion Penygroes tua 1860. Cyflwynwyd y casgliad i'r gymdeithas sy'n sicrhau Beiblau i'r Ysgolion.

**Oedfa'r Ieuenctid yng Nghapel Penygroes**
*Nos Lun, am 6.30*
Llywydd – Mr Martin Cray, Prifathro Ysgol Saron.
Y Defosiwn – Y Parch. G. Eifion Rees, Penygroes.

*Y Pasiant – 'O Dywyllwch i Oleuni'*
Anodd yw disgrifio'r wefr a deimlwyd wrth i'r plant geisio darlunio tröedigaeth Paul mewn drama a chân, y lleiaf fel y mwyaf yn ymdaflu iddi â'u holl egni ac yn cael mwynhad mawr wrth wneud hynny. Mr Roger Jones oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth; Mrs Mair Williams am eiriau'r caneuon; Mrs Ann Morgan am eiriau'r rhannau llafar. Diolchodd y Llywydd i bawb a oedd wedi cynorthwyo yn y gwaith, yn enwedig athrawon yr Ysgol Sul, Pat Beynon, Delyth Davies, Lynwen

Thomas, Awen a Martin Cray a Sharon Rees. Tâl iddynt i gyd oedd gweld llond capel yn gwerthfawrogi'r gwaith.

## Y Gynhadledd yng Nghalfaria

*Dydd Mawrth, Mai 20*

Yr Eisteddfod Cyntaf am 10.30.
Y Defosiwn – Y Parch. Cecil Jenkins, B.A., B.D., Llwyn Hendy.
Yr Ail Eisteddiad am 2.00.
Y Defosiwn – Y Parch. John T. Young.

*Oedfa'r Llywydd, y brawd Andrew Williams, am 6.30*

Darllen – Y Parch. Wyn Vittle, Caerdydd.
Gweddi – Y Parch. D. Carl Williams, B.A., Abergwaun.
Cyflwyno'r Llywydd Newydd – Y Parch. Cecil H. Jenkins, B.A., B.D.
Arwyddo Beibl Y Gymanfa a Gweddi – Y Parch. W. Garfield Eynon (Ysg).
Anerchiad y Llywydd Ymneulltiedig – Y Br. Andrew Williams.
Diolch i'r Llywydd – Y Parch. D. Islwyn Beynon.
Y Fendith – Y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D.
Y Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol.

*Anerchiad y Llywydd*

Cafwyd anerchiad rymus a nerthol gan y Brawd Andrew Williams, a fel y disgwylid roedd ynddi atsain o bregethu diwygiadol teulu ei dad, 'bechgyn Bryncwar'. Wrth roi peth o'i hanes personol, diolchodd am ei fagwraeth Gristionogol, dan ofal ei rieni a'r Eglwys Apostolaidd. Yna traethodd ar ei destun 'Adfywiad Trwy Air Duw a'r Ysbryd Glân.' Atgofiodd y gynulleidfa o'r bywyd newydd a ddaeth i bechaduriaid o bob gradd, ar hyd yr oesoedd, ar ol derbyn yr Ysbryd Glân. Gwnaeth apêl daer at bob aelod i agor ei galon i'w dderbyn. Dim ond drwy ymgysegru i ddarllen y Gair a thrwy weddi y bendithir yr unigolyn ac y cyfoethogir ef ag ymweliad o'r Ysbryd Glân, a dim ond trwy feithrin aelodau felly y daw'r Eglwys i adlewyrchu peth o ogoniant a harddwch yr Arglwydd Iesu. Bu eneiniad amlwg ar y cyflwyniad hwn, a haedda'r anerchiad ddarlleniad ohono ymhob Eglwys perthynol i'r enwad. Diolchodd y Parch. Islwyn Beynon yn wresog i'r Br. Andrew Williams am ei anerchiad gwerthfawr ac amserol. Trosglwyddwyd y casgliad i Fudiad Cymorth Cristionogol. Rhoddwyd y Fendith gan y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D., Porthyrhyd.



## Oedfaon Pregethu yng Nghalfaria

*Dydd Mercher, Mai 21, am 11, 2 a 6 o'r gloch*

Y Llywyddion – Y Parchgn. George Elias, Michael Evans, B.A. a Dr D. Densil Morgan.
Y Defosiwn – Y Parchgn. Geraint Hughes, Maldwyn John a J. Ernest Pugh.
Y Pregethwyr – Y Parchgn. William Evans, Pontyberem, Tegfan Griffiths, Llambed, Elwyn Williams, Felionfoel.
Y Bendithion – Y Parch. Albert Williams, Y Br. Ivor Williams a'r Parch. Emlyn Dole, B.A.

*Oedfa Genhadol y Chwiroydd ym Mynydd Seion, am 2.00*

Llywydd – Mrs Ceridwen Rees, Adulam, Felinfoel.
Is-Lywydd – Mrs Mary Charles, Bethesda, Ponthenri.
Anerchiad gan gynrychiolydd o'r Tŷ Cenhadol. Cafwyd oedfa fendithiol a galwad gref ar i'r eglwysi gryfhau eu hymdrechion ar ran y Gwaith Cenhadol.

*Diolchiadau*

Cyflwynodd Ysgrifennydd y Gymanfa y Parch. Garfield Eynon ddiolchiadau cynnes Pwyllgor y Gymanfa i Eglwys Calfaria, ei gweinidog a'i swyddogion am eu cydweithrediad dihafal yn ystod yr ŵyl, ac yn arbennig i'r brawd Andrew Williams am ei arweiniad, ei wasanaeth a'i garedigrwydd yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd hefyd i'r Eglwysi lleol a'u gweinidogion am fenthyg eu hadeiladau, ac i ffrindiau'r Eglwys Apostolaidd am agor yr Ystafell Gydiol a'r holl adnoddau at wasanaeth y Gymanfa.

Eto, diolchodd i'r cyfeillion canlynol am y prydau bwyd – Y Tê Croeso gan Mr a Mrs Andrew Williams; Y Cinio Dydd Mawrth gan Mrs M. A. Griffiths a'r teulu; Tê Dydd Mawrth gan Mrs Eirwen John a Misses A. M. a Mabel Edwards. Cinio Dydd Mercher gan Awen, Peter, Neville, plant Mr a Mrs A. Williams. Tê Dydd Mercher gan Eglwys Calfaria.

Rhoddwyd diolchiadau pellach i'r gwragedd a'r rhai brodyr a fu'n gweini mor siriol wrth y byrddau, heb anghofio hefyd wasanaeth diflino'r chwiorydd wrth yr organ – Delyth Davies, Pat Beynon, Lynwen Thomas ac Ann Morgan.

Felly daeth i ben brofiad newydd a dyrchafol yn ein hanes fel eglwys a gweinidog. I Dduw y byddo'r, diolch a'r gogoniant am ysbryd a chydweithrediad mor frwd a hyfryd yn ein plith ar yr achlysur nodedig hwn. Parhaed ei ddylanwad yn hir arnom ni yma ac ar yr eglwysi a ymwelodd â ni.

## Colli Aelodau

Trist iawn oedd gorfod farwelio a'r brodyr a'r chwiorydd canlynol yn ystod y weinigodaeth hon.

1983 Mrs Tom Williams, Bridge St., a mam dyner Marion.
Mr Gotty Howells, Gorsddu.
1984 Y brodyr David Price, Gorsddu, David John Rees, Cefneithin, a Joe Davies, Garnfoel.
1985 Mrs Dilys Powell, Y Crescent, a fu'n ofalydd cydwybodol y capel am rai blynyddoedd.
1986 Y brawd Brinley Richards, Heol y Gât.
Y chwaer Amelia Griffiths a fu'n ffyddlon a gwasanaethgar yn yr Eglwys hon am y rhan fwyaf o'i hoes, yn gofalu am y cysegr gyda'i mam, Mrs Mary Ann Griffiths, Glan Nant.
1987 Y chwaer Ethel Jones, Cwmnant, gweddw'r brawd Cyril Jones a mam dyner Marcus, Marion, Margaret, Malcolm a Marilyn. Un barod iawn ei chymwynas â'i chyfraniad bob amser.
Y chwaer Blodwen Richards, Bryndedwyddfa, mam ofalus Carol, y diweddar Sylvia a'u brodyr.
1988/89 **Y diacon Meurig Davies** a'i briod Betty. Bu farw'r ddau o fewn dau fis i'w gilydd, ar ôl dioddef cystudd pur boenus. Betty yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs D. Thomas, Yr Hen Lythyrdy, Gorslas, a Meurig yn fab i Mr a Mrs Davies, Brohyfryd, aelodau yma ers eu hieuenctid. Etholwyd Meurig yn ddiacon ac ymddiriedolwr. Buont yn eithriadol ffyddlon hyd bron y diwedd, er gwaetha iechyd bregus. Gadawsant un merch, Gillian, priod y Parch. Gareth Morgan Jones, Pontardawe, a'u theulu a'r ddwy chwaer Margaret a Mai i alaru ar eu hôl.
Y chwaer Rosie Bowen, gweddw y diweddar D. John Bowen, a mam dyner June a'r diweddar John. Hi eto'n ffyddlon hyd ei dyddiau olaf.
Y brawd Glyn Griffiths, mab y diweddar Mr a Mrs Eben Griffiths, a thad Mrs Lyn Lewis.
Y brawd Tom Lloyd, Heol Waterloo, gŵr hoffus, newydd ddod atom o Bethania, Aberteifi. Pob cydymdeimlad â'i weddw, Mrs Amy Lloyd, yn ei cholled.
Y brawd Evan J. Thomas, Bank y Rock, priod Mrs Doris Thomas, a thad mwyn Clive ac Yvonne.
Mrs Elsie Richards, mam hoffus Betty ac Evelyn a merch Mr a Mrs Dafydd Bowen; y tad yn un o'r arloeswyr. Y chwaer Mary Ann Lloyd, mam Eifion a mam-gu annwyl; aelod hynaf yr Eglwys.
Y chwaer **Annie Mary Edwards** – merch y diweddar ddiacon Mr Dafydd Edwards, Penybryn. Roedd yn un o aelodau hynaf yr eglwys. Yn ei dydd bu'n athrawes Ysgol Sul; yn un o arweinyddion Urdd y Seren Fore; yn Is-lywydd Cymdeithas y Chwiorydd ac yn Drysoryddes y Gronfa Adeiladu am dros dri deg a thair o flynyddoedd. Bu hefyd yn ffyddlon iawn i'r Ysgol Gân a'r Gymanfa Ganu ac yn aelod ymarferol o'r Cwrdd Gweddi, heblaw bod yn hael iawn ei chyfraniad ariannol at gyllid yr eglwys. Gymaint gwell graen a fyddai ar ein Heglwysi pe bae pob aelod yn ymroddi â'r fath ffyddlondeb i waith yr Arglwydd. Gadawodd Miss Edwards ddwy chwaer, Mabel a Lucy, i alaru ar ei hôl.



**Colli Gweinidog a'r Teulu**

Tybiem ar ôl i'r Parch. Ddr. D. Morgan ennill ei Ddoethuriaeth y byddai rhyw goleg neu gilydd yn siŵr o ofyn am ei wasanaeth cyn bo hir. Felly yn haf 1988 yr hyn a ofnem a ddaeth arnom. Dewiswyd ef yn Ddarlithydd yn Adran Astudiaeth Grefyddol, Coleg y Brifysgol, Bangor. Ffarwelio bu raid â'r Gweinidog ac â'r teulu, er gwaetha'r siom a'r golled.

**Cwrdd Ymadawol**

Rhoddwyd tysteb ariannol i'r Gweinidog a bwrdd coffi i Mrs Morgan fel arwydd o werthfawrogiad yr Eglwys o'u hymdrechion egnïol am yr amser byr y buont yma. Erys coffa da amdanynt yng nghalonnau'r aelodau. Dymunwyd pob llwyddiant a rhwyddineb iddynt, yn eu maes newydd. Cawsom eu gweld ar ymweliad sawl tro ar ôl eu hymadawiad ac, erbyn hyn, fe gafodd Angharad frawd bach o'r enw Iwan.

**Hanes Pellach**

Prysur iawn fu rhawd y Parch. Ddr. Densil Morgan er ei ymadawiad â Chalfaria. Rhwng 1989 a 1994 gwasanaethodd fel Gweinidog cynorthwyol ar Eglwysi Moreia, Garwen, a Phencarneddi, Ynys Môn, a bu'n Llywydd Cymanfa Môn yn 1990. Ef hefyd oedd ysgrifennydd Panel Diwinyddol Undeb Bedyddwyr Cymru, a Golygydd yr Adroddiad 'Canllawiau' yn 1994. Ysgrifennodd yn helaeth ar faterion crefyddol, cyfrolau ar Christmas Evans, Karl Barth a J. E. Daniel. Mae'n gweithio ar hyn o bryd ar 'Hanes Cristionogaeth yng Nghymru'r 20fed Ganrif', heblaw ar y llyfr ar 'Hanes Bedyddwyr Treforys'. Ef hefyd yw golygydd y cylchgrawn *Cristion*.



*Pennod IX*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. J. GERAINT MORSE, B.D., M.Th. (1989-84)

Y nesaf yn y rhestr gynyddol a fu'n gwasanaethu Eglwys Calfaria yn ail hanner canrif ei hanes oedd y Parch. J. Geraint Morse. Brodor o Woodstock, Penfro yw, wedi'i fagu a'i feithrin yn yr Eglwys Bresbyteraidd leol. Derbyniodd ei addysg yn yr Ysgol Gynradd ac yn Ysgol Uwchradd, Hwlffordd, cyn mynd i Goleg Diwinyddol y Presbyteriaid yn Aberystwyth a graddio'n B.D. yno. Wedyn aeth i goleg yn Rhydychen a llwyddo i ennill Diploma mewn Addysg.

Tra'n fyfyriwr yn Aberystwyth cyfarfu Mr Morse a'i wraig, hithau'n dilyn cwrs y B.D. Ar ôl i'r ddau dderbyn eu trwyddedau i fod yn athrawon, ymbriodasant a sefydlu yn New Malden, Surrey. Bu Mr Morse yn athro yn yr Ysgol Gyfun yno. Ganwyd i'r pâr ifanc ddau fab, Dafydd ac Owen.

Yn y cyfnod hwn trodd Mr Morse yn Fedyddiwr o ran argyhoeddiad, ac ar ôl rhai blynyddoedd fel athro ufuddhaodd i'r alwad a gafodd i bregethu'r Efengyl. Derbyniwyd ef i Goleg Diwinyddol y Bedyddwyr yng Nghaerdydd, ac ar ôl ei waith clodwiw iawn yn y Cyrsiau Diwinyddol a Bugeiliol, derbyniodd y radd M.Th.

Maes cyntaf ei weinidogaeth oedd gyda'r Bedyddwyr yng Nghroesgoch a Thŷ Ddewi, maes y Parch. T. Elwyn Williams o 1963-1972. Yn niwedd y flwyddyn 1988 estynnodd y dair Eglwys, Calfaria, Penrhiwgoch a Thabor, alwad iddo ddod i'w bugeilio; ar ôl ateb yn gadarnhaol, cychwynnodd ei wasanaeth yn ein plith ar Ionawr 1, 1989.

**Y Cyfarfod Sefydlu**

Trefnwyd yr uchod i gymryd lle ar ddydd Iau, Ionawr 12fed; y ddau gyfarfod, prynhawn a hwyr, yn Nhabor, Cross Hands. Ysgrifenyddion yr Eglwysi oedd y brodyr Andrew Williams, Calfaria; Denzil Harries, Penrhiwgoch a Mrs Ruby Davies. Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth y chwaer annwyl ac ymroddedig hon, mewn byr o amser, er colled enbyd i'w theulu a'r Eglwys.



**Oedfa Sefydlu yn Nhabor, Cross Hands**
*Dydd Iau, Ionawr 12, 1989 am 2.00 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. Ddr Densil Morgan, Bangor.
Galwad i Addoli – Y Parch. Gwyn E. Rees.
Emyn 381 – Ll.M.N.
Darllen – Y Parch. Wynn Vittle.
Gweddi – Y Parch. D. Carl Williams, B.A.
Gair gan y Llywydd.
Emyn 660 – Ll.M.N.
Y Sefydlu – Yng ngofal y Parch. John Young – Llywydd yr Undeb.
Hanes yr Alwad – Mr Andrew Williams, Ysgrifennydd Eglwys Calfaria.
Ateb yr Alwad – Y Parch. J. Geraint Morse, B.D., M.Th.
Yr Urdd Weddi – Y Parch. T. Elwyn Williams, Adulam, Felinfoel.
Emyn yr Urddo – 767 – Ll.M.N.
Y Fendith – Y Parch. Emrys Williams.

**Y Cyflwyno a'r Croesawu**
*Y Cyflwyno*
Ar ran Groesgoch – Mr Alun Thomas.
Ar ran Tŷ Ddewi – Mr Gwyn Howells.

*Y Croesawu*
Ar ran Eglwys Calfaria – Mrs M. A. Griffiths.
Ar ran Eglwys Tabor – Mr Percy Lewis.
Ar ran Eglwys Penrhiwgoch – Mr Elwyn Jones.
Ar ran Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion – Y Parch. Alun Jones, Pwll.
Ar ran Eglwysi Cylch y Mynydd Mawr – Y Parch. Ddr. Watcyn James.
Emyn 756 – Llawlyfr Moliant Newydd.

**Oedfa Bregethu yn Tabor am 6 o'r gloch**
Llywydd – Y Parch. J. Geraint Morse, B.D., M.Th.
Galwad i Addoli – Y Parch. Maldwyn John, Penygroes.
Emyn 306 – Pa le, pa fodd dechreuaf ...
Darllen – Y Parch. Michael Evans, B.A., Gorslas.
Emyn 458 – Y mae hiraeth arnom Arglwydd ...
Gweddi – Y Parch. Meurig Thomas, Llanelli.
Emyn 550 – Dyma gariad fel y moroedd ...
Pregeth – Y Parch. Cecil Jenkins, B.A., B.D.
Emyn 190 – Duw mawr y rhyfeddodau maith! ...
Y Fendith – Y Parch. G. Carey Jones, B.A., Porthyrhyd.

Teimlwyd bod y ddwy oedfa hon yn adnewyddiad ysbryd i ni a hyfryd oedd gweld y capel yn llawn unwaith eto; a ffrindiau o bell ac agos wedi dod i ddymuno'n dda i'r Parch. J. Geraint Morse a'i deulu ac i'r dair Eglwys. Cafwyd negeseuau trawiadol a grymus gan y ddau gennad y Parch. Ddr. Densil Morgan a Cecil Jenkins, B.A., B.D., a'r Efengyl Sanctaidd yn cael ei throsglwyddo gyda nerth ac argyhoeddiad dwys.

Paratowyd lluniaeth yn helaeth i'r ymwelwyr gan aelodau'r dair Eglwys. Cydweithient yn hapus, gan edrych ymlaen i dymor newydd o wasanaeth yn y rhan hon o winllan yr Arglwydd Iesu.

Ymsefydlodd y teulu bach o Sir Benfro yn gysurus yn y Mans a dechreuodd y Gweinidog newydd ei waith yn ein plith, yn llawn egni a brwdfrydedd.

**Yr Oedfa Saesneg**

O ddechrau'i weinidogaeth yng Nghalfaria bu'r Parch. Geraint Morse yn frwd o blaid cenhadu yn y gymuned. Teimlai'n ddyletswydd arno hefyd i agor ffordd i'r trigolion Saesneg eu hiaith yn yr ardal, i gael cyfle i ddod i addoli yng Nghalfaria. I'r diben hwn paratowyd nifer o bamffledi gwahodd, a bu'r Gweinidog a'i wraig, Tina, yn brysur yn eu dosbarthu ac yn ymweld â'r mwyafrif o'r bobl Saesneg eu hiaith a'u croesawu i'r oedfaon. Er taw Saesneg yw iaith gyntaf Mrs Morse, erbyn hyn gwelir hi'n gwneud pob ymdrech i feistrioli'r Gymraeg. Rhoddwyd cefnogaeth y swyddogion a'r Eglwys i'r fenter newydd hon a chynhaliwyd yr oedfa gyntaf ar brynhawn Sul, Ebrill 2, 1989.

Cynorthwywyd y gweinidog gan y brodyr da, Ivor Hughes a D. T. Samuel, y Tymbl. Er taw siomedig oedd yr ymateb wrth ystyried rhif y Saeson yn y cylch, eto daeth ynghyd gwmni bach diffuant ac ymroddedig iawn ac roedd naws ysbrydol yr oedfaon yn un dyrchafol a hyfryd.

**Gwaith y Plant**

Yn ei flaen yr aeth Gwaith yr Ysgol Sul y Plant, a'r athrawon ymroddedig yn trefnu llyfrau a gwersi yn y dulliau cyfoes; rhai addas i bob oedran. Paratowyd y plant i gymryd rhan yn y Cyrddau Diolchgarwch a'r Pasiantau Nadolig fel arfer a diddorol oedd gweld fel y deuai'r plant llai i lanw lle'r rhai hŷn, yn eu tro.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi'n gyson yn y Festri a'r prif gogydd, y brawd Vernon Samuel, a'i gynorthwywyr yn paratoi 'cawl gorau Cymru' i ni bob blwyddyn. Byddai'r adloniant yng ngofal y gweinidog, y brawd Ivor Hughes, a'r chwiorydd, a da oedd gweld rhai mamau'r plant nad oeddent yn aelodau'n dod i gyd-fwynhau'r noson.

**Tarian yr Ysgol Sul**

Daeth anrhydedd arbennig i blant Calfaria ym mis Medi 1989, am iddynt ennill y darian am y gwaith gorau yn arholiadau blynyddol yr Undeb. Buont mor ffodus a'i hennill yr ail dro hefyd.



**Gŵyl y Gair a'r Gân**

Aeth llond bws o blant, pobl ifanc a'u cefnogwyr o'r Eglwys i Aberystwyth i gymryd rhan yn yr ŵyl uchod am yr ail dro, ar Sadwrn, Medi 23, 1989. Cynhaliwyd hon yn y Neuadd Fawr y Celfyddydau dan nawdd Eglwysi Bedyddwyr Cymru. Enw rhaglen Côr Ysgol Sul Calfaria oedd Gorfoledd y Gair, rhaglen amrywiol o unawdau, deuawdau, canu corawl ac adroddiadau, wedi'i threfnu gan y Gweinidog.

Er na chafodd y Côr wobr y tro hwn, eto'r farn gyffredinol oedd bod y profiad o wrando ar y gwahanol ysgolion yn mynd trwy eu gwaith yn un cyfoethog a phleserus iawn.

**Ymweld â'r Ysgolion**

Bu'r Parch. Geraint Morse yn ymwelydd cyson â'r ysgolion ac yn enwedig â'r ysgol leol. Yma y ceisiai rannu'r efengyl â'r plant hynny na fyddent yn mynychu'r Ysgol Sul. Cawsai groeso cynnes gan y Prifathro Ken Davies bob amser, a diolch iddo ef a'r Staff am y cydweithio hapus a fu rhyngddynt â'r Gweinidog.

**Yr Ysgol Sul yn Eisteddfod yr Urdd**

Menter newydd dan arweiniad y Gweinidog oedd llogi pabell dan nawdd yr Ysgol Sul, ar faes Eisteddfod yr Urdd, Cwm Gwendraeth yn 1989. Yma, dangoswyd rhan o waith y plant a hefyd map o Gymru gyfan, lle cafodd y rhai a ymwelai â'r babell gyfle i nodi eu cartrefi, wrth osod pinnau ar y mannau hynny. Erbyn diwedd yr wythnos roedd na rai cannoedd wedi gwneud hynny. Cynorthwywyd Mr Morse a Mr Ivor Hughes gan rai o'r bobl ifanc a'r chwiorydd.

**Y Bobl Ifanc**

Cyfarfu'r Bobl Ifanc yn gyson yn y Mans bob nos Wener, ac yno treulient amser difyr yn trafod gwahanol bynciau a phroblemau. Weithiau byddent yn cael cwmni darlithwyr o'r tu allan i'r Eglwys, megis Nigel Davies, Cyngor yr Ysgol Sul, Alan Rees o'r Scripture Union, Clyde Briggs, Open Doors-China, Euros Jones-Evans, Brynllynfell ac eraill. Felly ceisiau'r gweinidog arwain yr ieuenctid ar hyd llwybrau goleuni'r Efengyl.

Cafodd y Bobl Ifanc gyfle hefyd gan Mr Morse i gyfeillachu â ieuenctid eglwysi eraill y cylch, mewn chwaraeon a chyd-dreulio penwythnosau mewn gwersylloedd.

**Y Dosbarth Beiblaidd**

Cynhaliwyd hwn bob nos Fercher yng Nghalfaria neu Benrhiwgoch, ar yn ail wythnos, yn ystod gweinidogaeth Mr Morse. Dosbarthiadau darllen a thrafod oeddynt yn ôl dull rhai'r Ysgol Sul. Awyrgylch oedfaon 'pen y mynydd' oedd i rhain ar lawer tro ac yn aml fe deimlwyd bod yr Ysbryd Glân yn agos iawn atom wrth i ni fyfyrio uwchben gwirioneddau mawr yr Efengyl.

Trueni mawr a cholled enbyd i ansawdd bywyd ein Heglwysi bod trwch yr

aelodau'n cilio'n ofnus wrth y profiadau grasol a dyrchafol a geir mewn dosbarthiadau o'r math hwn. Dyma rai o'r pynciau a drafodwyd wrth fyfyrio yn yr Efengylau a rhai o lythyron yr Apostol Paul: Crist yn Maddau; Rhyddid yng Nghrist; Anghrediniaeth; Croeso i'r Brenin; Gwrthod Iesu; Gweddi'r Iesu; Bradychu a Chroeshoelio'r Iesu; Undod yr Ysbryd; Rheolau'r Bywyd Newydd; Llawnder yr Ysbryd, Y Frwydr Ysbrydol.

**Cymdeithas y Chwiorydd**

Er colli llawer o ffyddloniaid hŷn y Gymdeithas hon, eto perthyn iddi ryw bymtheg i ugain o chwiorydd ymroddgar. Dewiswyd Mrs Doris Evans yn llywydd ar ôl ymadawiad ein diweddar chwaer Miss A. M. Edwards, ac ar ôl tair blynedd o lywyddiaeth fywiog a diddorol, ymddiswyddodd a dewiswyd Mrs Eiddwen Hughes i lanw'r bwlch. Er taw chwiorydd wedi ymaelodi yn ein plith yn gymharol ddiweddar yw'r ddwy, diolchwn iddynt am eu parodrwydd i roi o'u gwasanaeth a'u hamser i'r gymdeithas hon. Yr ysgrifenyddes yw'r chwaer egnïol Marion Thomas, y drysoryddes y chwaer ofalus Awen Cray, a'r gyfeilyddes yw Delyth Davies, barod ei gwasanaeth.

Chwiorydd y gymdeithas sy'n gyfrifol am lawer math o wasanaeth yn yr Eglwys; trefnu ambell oedfa yn y Capel; ymweld â'r cleifion a'r henoed yn y Cartrefi; paratoi bwyd yn y Festri ar adeg angladdau, partïon ac achlysuron arbennig, gofalu am Fwrdd y Cymun; ac am lanhau'r Capel pan fo angen.

Heblaw hyn byddant yn cynnal eu cyfarfod misol ac yn gwahodd rhywun arbennig i'w hannerch. Dyma enwau rhai ohonynt a fu'n westeion yn ystod gweinidogaeth y Parch. Geraint Morse – Y Parch. Ficer Terry Williams, Mrs Ann Evans; Parch. Dyfrig Rees, B.D.; Mr Marcus Jones; y Parch. G. Morse; Dr Islwyn Williams; Mr Donald Williams; Mrs Parch. T. G. Morgan; Mr Martin Cray, Mr Ivor Hughes; Y Chwiorydd Eiddwen Hughes; Doris Evans a Gwen Evans; Mrs M. A. Griffiths; Chwiorydd Eglwys Penygroes; Mrs P. Owens, Tabor; Mrs G. Thomas; Miss Eleri Williams; y Parch. Lyn Rees, B.A., B.D.; Mrs Esther Evans; Mrs Margaret Hughes, Mr Gwynallt Pryce; Mr Dorian Richards; Mrs Tina Morse; Y Parch. Ganon David Morris.

Treuliodd y Gymdeithas noson hwylus iawn yng nghwmni Chwiorydd Tabor ar y Nos Lun, Tachwedd 6, 1989. Cawsom ein diddanu a'n swyno gan ddatganiad Côr Ieuenctid Calfaria o 'Orfoledd y Gair', dan arweiniad Mr Morse. Profasom hefyd o haelioni arferol chwiorydd Tabor wrth y byrddau.

Croeso twymgalon i weddill chwiorydd yr Eglwys, o bob oedran i ymuno â'r uned hapus hon.

**Cynhadledd Efengylu Bedyddwyr y Gymanfa**

Ar y Sadwrn, Medi 30, 1989, croesawyd y gynhadledd uchod i Galfaria a daeth



tua hanner cant o gynrychiolwyr ynghyd. Y cenhadon gwadd oedd y Ddr. Earl Martin a'r Dr. Harry Moore o Goleg Diwinyddol Ruschlicon, y Swisdir. Bu'r coleg hwn dan ofal Cynhadledd Bedyddwyr y De, yr Unol Daleithiau, ond oddiar Mai 28, 1989, trosglwyddwyd ef i ofal Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop. Trafodwyd problemau cenhadu, bugeilio, gweinidogaeth cysur a gofal; her yr Islam, cyfrifoldeb personol y Cristion a llawer pwnc cyfoes arall, yn ystod y ddwy eisteddiad. Braint a phleser oedd cael cyfle i sgwrsio â'r ddau gennad, mor gwrtais a llednais eu hysbryd. Diolchodd y Parch. Dewi Davies, Llanelli, yn gynnes iddynt am eu cyfraniad i'n goleuo ynglŷn â'u gwaith ar y cyfandir.

**Gwasanaeth Darlledu**

Ar y Nos Sul, Mawrth 11, 1990, darlledwyd oedfa o dan nawdd Sain Abertawe, yng Nghalfaria, a'r dair Eglwys yn cyd-addoli. Arweiniwyd yr oedfa ar ei hyd gan y Gweinidog. Rhoddwyd yr emynau allan a darllenwyd y Gair gan Donna Connolly, Andrea Evans a Jonathan Cray. Mrs Lynwen Thomas oedd y cyfeilydd. Cododd Mr Morse ei destun o Ioan 9.25: 'Un peth a wn i, lle yr oeddwn yn ddall, yr wyf i nawr yn gweled', pregeth a'i neges i'r unigolyn yn ddigamsyniol.

**Dewis Diaconiaid**

Ar y Sul, Medi 2, 1990, dewiswyd tri o frodyr yn ddiaconiaid ond trist yw gorfod cofnodi taw dim ond un a dderbyniodd y swydd, sef Ivor Hughes. Roedd Ivor cyn hyn wedi profi ei hun yn aelod pur werthfawr ac ymroddedig, yn athro Ysgol Sul, yn aelod cyson o'r Dosbarth Beiblaidd ac yn barod ei wasanaeth yn y pulpud pan fo angen.

Erbyn hyn mae wedi dod yn argyfwng arnom ni yng Nghalfaria ynglŷn â sicrhau arweinwyr i'r dyfodol. Er bod y gwŷr yn gwrthod y cyfrifoldeb a'r ymroddiad sydd ynglŷn â'r swydd ac er gwasanaeth a ffyddlondeb llu o chwiorydd ar hyd y blynyddoedd mae'r rhagfarn yn eu herbyn yn aros. Rwy'n mawr obeithio y symudir hwn yn fuan, er parhad a ffyniant Achos yr Arglwydd Iesu Grist yng Nghalfaria.

**Cyrddau Pregethu Arbennig**

Yn y flwyddyn 1990 cawsom wasanaethu gan dau ŵr gwadd a fu'n gyfarwydd iawn i aelodau'r Eglwys a'r pentref. Ar y Sul, Mai 13, croesawyd y Parch. Ddr. D. Densil Morgan nôl i'n plith. Cafwyd dwy neges effeithiol ac amserol ganddo, wedi'i trosglwyddo â'i asbri a'i daerineb arferol. Cynnes oedd y croeso hefyd i Mrs Morgan, Angharad a'r babi newydd, Iwan, a dymunwyd iddynt bob bendith a rhwyddineb yn eu maes newydd yn y Gogledd.

Ar y Sul, Medi 16, cafwyd eto'r pleser o wrando ar y Ddr. David Enoch yn ein Cyrddau Hanner Blynyddol. Cofir amdano yn pregethu yng Nghalfaria cyn yr

Ail Ryfel Byd ac yntau'n las lanc yn Ysgol Ramadeg, Rhydaman. Ei destun y pryd hwnnw oedd tystiolaeth Ioan ar Ynys Patmos – Datguddiad 1.10: 'Yr oeddwn yn yr Ysbryd ar ddydd yr Arglwydd'. Erbyn hyn adnabyddir ef drwy'r wlad fel meddyg a seiciatrydd o'r radd flaenaf, ond un sy'n parhau i bregethu'r Efengyl gyda grym ac argyhoeddiad dwys.

**Y Parch. J. Geraint Morse yn Essen**

Daeth profiad unigryw i ran y Gweinidog yn 1993. Ymunodd â'r tîm o ryw hanner cant o gyfieithwyr o wahanol fannau y byd, yng Nghyrddau Efengylu Billy Graham, yn Essen, yr Almaen. Efe a'r Parch. J. Treharne, B.A., B.D., Caersalem, Caernarfon, a ddewiswyd i fynd o Gymru. Cawsom ni yma'r fraint o weld fideo o rai o'r cyfarfodydd. Diau i argraff bur ddofn gael ei adael ar ôl ar feddyliau lliaweroedd o'r gwrandawyr yno. Tystiau'r Gweinidog o'r Unol Daleithiau a ddaeth ar ymweliad â Chalfaria ym mis Medi 1995 bod ganddo barch mawr i'r Efengylydd am mai'r un Cristion bonheddig oedd ef gartref ag yr oedd ar lwyfan y byd. Llongyfarchwn Mr Morse ar iddo fedru dod trwy'r profiad arbrofol a gwefreiddiol hwn mor llwyddiannus.

**Cenhadaeth 'Jesus in Me', Mis Mawrth 1994**

Cynhaliwyd cenhadaeth arbennig gan y mudiad uchod 'Jesus in Me', yng nghylch Penygroes, fel yn llawer cylch arall, yn ystod mis Mawrth 1994. Ymunodd yr Eglwysi lleol mewn gweithgareddau a chyfarfodydd cyd-enwadol a fyddai'n debygol o apelio at bobl o bob oedran. Gwahoddwyd y Gospel Choir o Abertawe a'r One Way Youth Choir o Gaerfyrddin i'n diddanu am ddwy noswaith, a Gerald Williams yr arbenigwr tennis ac eraill i ymweld â'r ieuenctid. Cynhaliwyd boreau coffi yng Nghalfaria a'r gweinidogion yn siarad am yn ail yno. Treuliwyd mis o gyd-weithio mewn cyfeillgarwch cynnes rhwng ffyddloniaid yr Eglwysi lleol a theimlwyd i'r Eglwysi dynnu'n nes at eu gilydd oherwydd hynny.

**Mewn Parchus ac Annwyl Goffadwriaeth**

Trist yw gorfod cofnodi ymadawiad dros ugain o frodyr a chwiorydd ffyddlon yn ystod y weinidogaeth hon; y mwyafrif ohonynt wedi'u bedyddio yn yr Eglwys yma.

1989 **Miss A. M. Edwards, Tanybryn** – merch i'r diweddar Mr a Mrs David Edwards, a chwaer annwyl Mabel a Lucy. Bedyddiwyd hi yma gan y Parch. Job Herbert. Gwasanaethodd fel athrawes gydwybodol am bum mlynedd a deugain, yn bennaf yn Ysgol Gynradd, Saron. Roedd yn un o'r ffyddlonaf i holl weithgareddau'r Eglwys hyd wythnosau olaf ei bywyd, yn wythdeg pum mlwydd oed. Gwasanaethodd am gyfnod, yn gyd-arweinydd



Urdd y Seren Fore, yn athrawes Ysgol Sul, yn Is-lywydd y Chwiorydd a thrysorydd y Gronfa Adeiladu am dros ddeg mlynedd ar hugain. Coffa da am ei phresenoldeb siriol ei hymroddiad a'i haelioni i Achos yr Arglwydd Iesu Grist, yma.

Mr Alcwyn Davies – tad annwyl Maureen Pridmore, y diweddar Stella Morgan, a'u brawd. Bu'n aelod ffyddlon yma am gyfnod, ac yn dorrwr beddau cydwybodol iawn.

1990 Mr Ronnie Evans – Heol y Llew Du; priod annwyl Doris a thad a thadcu tyner, aelod ffyddlon wedi ymaelodi yma yn ystod gweinidogaeth y Parch. Carl Williams, B.A.

Mrs Gwennie Armstrong – gwraig ffyddlon Ivor a mam Terry.

Mrs Annie M. Davies – merch y diweddar Mr a Mrs John Davies (Painter), a mam dyner May, Megan a Margaret.

Mr John Davies – Sceti, gŵr Nora a mab Mr a Mrs Rhys Davies, brawd ifanc, ffyddlon iawn pan fu'n byw ym Mhenygroes.

Mrs Elsie Rees – merch hynaf Mr a Mrs Williams, y Bandmaster, aelod ffyddlon a theyrngar, chwaer Eddie a modryb annwyl plant Mr a Mrs Price.

1991 **Mr Ben Evans** – Heol Bryncawr. Efe eto wedi'i fedyddio yma gan y Parch. Job Herbert ac yn ffyddlon i amrywiol weithgareddau'r Eglwys ar hyd ei oes. Gwnaed ef yn ddiacon yn 1968 ac yn ymddiriedolwr yn 1980. Mab ydoedd i'r diweddar Mr a Mrs Daniel Evans, Danycoed, a phriod annwyl Gwen a thad Huw. Mae'r Eglwys yn ddyledus iawn i Ben a Gwen, ei briod, am y rhodd werthfawr o ddrws newydd i'r capel.

Mr T. Lloyd Davies – aelod ffyddlon a brawd merched Golden Key.

Mrs Edith Thomas – merch ieuengaf Mr a Mrs Edwards, Green Grove, a mam annwyl Nan, Maida Iona a Danny.

Mrs Lilian Williams – chwaer i'r uchod, Mrs Elsie Rees, a modryb plant Mr a Mrs Price, aelod ffyddlon iawn hyd y diwedd.

1992 Mrs Morfudd Davies – Heol Bryncawr. Un arall o'r ffyddloniaid, ei thad Daniel Jones, Tŷ'r Llyn yn un o'r arloeswyr; mam dyner Dr Desmond Watters, Maureen a Melanie.

Mr Keri Jenkins – Carmel. Mab y diweddar Mr a Mrs Jenkins, Cwmcoch; priod ffyddlon Megan, cystuddiedig am flynyddoedd, ond ffyddlon iawn ei gyfraniad at yr Achos.

1993 Mrs Barbara Evans – aelod ffyddlon er ei ieuenctid, gofalydd ymroddedig

iawn o'r cysegr a mam dyner ei phlant, Betty a Mel, a mam-gu ofalus.

Mrs Maggie Hughes – merch Mr a Mrs Henry Richards, hithau fel nhw'n eithriadol ffyddlon i'r holl oedfaon ac yn hael iawn ei chyfraniad ariannol.

Miss Nest Griffiths – Eglwyswraig. Wedi'i bedyddio gan y Parch. Carl Williams, aelod gwir werthfawr yn yr oedfaon, am ei chyfraniad ariannol, ei rhoddion amrywiol a'i gofal diflino am yr adeiladau.

Mr Cyril Clarke – mab Mr a Mrs Ben Clarke, gŵr ffyddlon Audrey a brawd annwyl Olive, wedi'i fedyddio yma'n fachgen ifanc.

**Mr Walter Powell** – priod y ddiweddar Dilys, cyn ofalydd y capel a'r Festri. Bu'r brawd yn ddiacon yma er 1968 ac yn drysorydd am rai blynyddoedd; aelod fyddlon cyn i'w afiechyd ei luddias.

1994 Mr William Davies – Bryndedwydfa. Priod hoff Lil a thad tyner Avril a Beryl a thadcu a hen dadcu hoffus iawn, yntau wedi ymaelodi yma'n fore ond wedi methu dod i'r oedfaon oherwydd ei afiechyd.

Mr Ivor Armstrong – priod y diweddar Gwennie a thad Terry; yntau wedi'i fedyddio yma'n ifanc ac yn ffyddlon hyd i'w afiechyd ei atal.

Mrs Annie L. Davies – priod hoff y diweddar Gwilym Davies, ysgrifennydd (1950-1969), a mam dyner Delyth. Bedyddiwyd yma yn 1938 ar ôl ei phriodas a bu'n aelod eithriadol ffyddlon i holl oedfaon yr Eglwys oddiar hynny a pharhau felly hyd wythnosau olaf ei bywyd. Bu hefyd yn ofalydd cydwybodol o'r Cysegr am dymor ac yn llawen iawn ei chroeso i'r pregethwyr a ddeuai ar eu tro i Galfaria.

Mr Trefor Howells – priod tirion Rachel Ann a thad hoffus John. Er nad oedd yn aelod cydnabyddiedig, yr oedd felly o ran ysbryd, a'i ffyddlondeb i'r oedfaon, ei gyfraniad ariannol a'i barodrwydd i wneud hyn a allai i gynnal yr adeiladau yn batrwm i lawer aelod.

**Ymadawiad y Gweinidog**

Ar y Sul olaf o Fehefin, 1994, hysbysodd Mr Morse y Swyddogion ac aelodau'r Eglwys iddo dderbyn yr alwad a gafodd i fugeilio Eglwys Penuel, Caerfyrddin, ac ei fod yn rhoi tri mis o rybudd i orffen ei weinidogaeth yn ein plith.


Fel y gwelir yn ôl yr hanes uchod, er taw cymharol fyr bu arhosiad y Parch. Geraint Morse yn y maes hwn, eto rhoddodd dymor da o wasanaeth yn y pulpud, gyda'r ifanc ac yn y Dosbarthiadau Beiblaidd a gwerthfawrogi'r hynny'n fawr.

Trist oedd gorfod colli un arall o'n gweinidogion ar amser prin fel hwn. Yn y cyfarfod ffarwelio, diolchwyd i'r Parch. Geraint Morse am ei wasanaeth a dymunwyd yn dda iddo ef a Mrs Morse yn eu maes newydd. Y brawd Andrew Williams oedd y llefarydd dros yr Eglwys a throsglwyddodd siec i Mr Morse fel arwydd o'n



diolch a bu Mrs Marion Thomas yn enau dros y Chwiorydd wrth drosglwyddo rhodd o lestr dal blodau i Mrs Morse. Rhoddwyd tocynnau llyfrau i'r ddau fab, Dafydd ac Owen.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Sefydlu y Parch J. Geraint Morse yn Eglwys Penuel, Caerfyrddin, ar ddydd Sadwrn, Hydref 1, 1994. Y brawd Andrew Williams a fu'n ei gyflwyno i'w ofalaeth newydd, ar ran y dair Eglwys Calfaria, Penrhiwgoch a Thabor, Cross Hands.



*Pennod X*

# GWEINIDOGAETH Y PARCH. H. VINCENT WATKINS (1994- )

Ar ôl ymadawiad y Parch. J. Geraint Morse, penderfynodd Eglwys Calfaria fabwysiadu'r hen batrwm o weinidogaeth rhyngddi hi ag Eglwys Penrhiwgoch, a rhyddhau Eglwys Tabor o'i hymrwymiad iddynt. Megis y crybwyllwyd yn barod, teimlwyd y byddai gwell cyfle i weinidog i ddod i afael personol â'i aelodau, o bob oedran, drwy gael gofalaeth llai o faint. Felly symudwyd yn bur gyflym i ymorol am weinidog a fyddai'n barod i ymateb i alwad felly.

Bu'r Parch. H. Vincent Watkins, Caersalem Newydd, Treboeth yn gwasanaethu yn yr Eglwys hon lawer tro cyn hyn a theimlai'r swyddogion y byddai ef yn ŵr cymeradwy iawn i fod yn Arweinydd i ni. Felly ar ôl ymgynghori ag aelodau'r ddwy Eglwys estynwyd galwad unfryd i'r Parch. H. V. Watkins i ddod atom yn Weinidog. Yn sicr nid penderfyniad rhwydd oedd hwn iddo i'w wneud; ymadael ag Eglwys tra llewyrchus yn Nhreboeth i wynebu'r trai enbyd a welir ar bob llaw yn y cylch hwn. Unwaith yn rhagor, wele breintiwyd yr Eglwysi gan ŵr o weledigaeth, ac â phregethwr diffuant.

**Y Parch. H. Vincent Watkins**

Mab yw i Mrs May a'r diweddar Mr Stanley Watkins, Pontlliw, a ganed ef yn y Bantwen, rhwng Pontlliw a Phengelli. Derbyniodd ei addysg gynnar yn ysgolion cynradd ac eilradd y cylch ac yn bur ifanc ymunodd â'r Gwasanaeth Sifil. Nid hir y bu cyn cyrraedd safle gyfrifol yno. Mynychai ef a'r teulu Eglwys Carmel, Pontlliw, ac yno cafodd beth o'i faeth ysbrydol. Nododd y Parch. D. Islwyn Davies, M.A., cyn-ysgrifennydd yr Undeb, yn ei lythyr Cymanfa Bedyddwyr Gorllewin Morgannwg, i Mr Watkins amlygu'n helaeth yn ei bersonoliaeth y gyfeillach, gynnes, ddiwylliedig a defosiynol a ffynnai ar yr aelwyd yn y Bantwen.

Ar ddiwedd y chwedegau rhoes Mr Watkins y gorau i'w swydd fras ac ymatebodd i'r alwad i Weinidogaeth y Gair. Yn gyntaf enillodd Dystysgrif yr Undeb ac yna ar ôl tymor yng Ngholeg Caerdydd enillodd Diploma'r Brifysgol mewn Diwinyddiaeth. Cyn derbyn yr Ofalaeth hon, bu'n Weinidog ar Eglwysi yng nghylchoedd Pontcymer, Aberdâr, Castell Nedd, Sgiwen ac yng Nghaersalem Newydd, Treboeth.



**Y Cyfarfod Sefydlu**

*Ym Mhenrhiwgoch, Nos Wener, Tachwedd 11, 1994, am 7.00 o'r gloch*

Llywydd – Y Parch. John T. Young, Llandeilo.
Galwad i Addoli – Yr uchod.
Emyn 67, Ll.M.N.
Darllen – Parch. Leighton Thomas, Caersalem Newydd.
Emyn 236, Ll.M.N.
Gweddi – Parch. Tegfan Griffiths, Caersalem Newydd.
Emyn 484, Ll.M.N.
Pregeth – Parch. E. T. Sulwyn Jones, B.A., B.D.
Emyn 595, Ll.M.N.
Y Fendith – Parch. G. Carey Jones, B.A., M.Phil., Porthyrhyd.

**Y Cyfarfod Sefydlu**

*Yng Nghalfaria, Dydd Sadwrn, am 2.00 o'r gloch*

Llywydd – Y Parch. J. Geraint Morse, B.D., M.Th.
Galwad i Addoli – Y Parch. Alma Roberts, B.A.
Emyn 720, Ll.M.N.
Darllen – Y brawd Philip Rees, Coleg Caerdydd.
Gweddi – Y Parch. Ddr. D. Densil Morgan, Bangor.
Gair gan y Llywydd.
Emyn – O tyred i'n gwaredu Iesu da. (Bro Aber).
Y Sefydlu yng ngofal y Parch. Milton Jenkins.
Hanes yr Alwad – Mr Andrew Williams.
Ateb yr Alwad – Y Parch. H. V. Watkins.
Yr Urdd Weddi – Y Parch. Aled Jenkins, Felinganol.
Emyn – Rho Dy Wyneb Gydath Gennod.
Pregeth – Y Parch. D. Islwyn Davies, M.A., Carmel, Pontlliw.
Emyn 252, Ll.M.N.
Y fendith – Y Parch. D. Carl Williams, Abergwaun.

**Y Cyflwyno**

Ar ran Caersalem Newydd – Miss Gwyneth Davies.
Ar ran Cymanfa Gorllewin Morgannwg – Mr Eifion Lewis.

**Croesawu**

Ar ran Calfaria – Mrs M. A. Griffiths.
Ar ran Penrhiwgoch – Mr Denzil Harries.
Ar ran Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion – Y Parch. Peter Thomas, B.A., B.Th.
Ar ran Eglwysi Penygroes – Y Parch. Maldwyn John.

Emyn – Diolch i Ti.
Organyddes – Mrs Pat Beynon.

**Y Cyfarfod Pregethu yng Nghalfaria**
*Nos Sadwrn, Tach. 12, am 6.00 o'r gloch*
Llywydd – Y Parch. H. V. Watkins.
Galwad i Addoli – Y Parch. D. Islwyn Beynon.
Emyn – Cenwch i'r Arglwydd. 696, Ll.M.N.
Darllen – Y Parch. Eurof Richards, Seion Newydd, Treforys.
Emyn – O rho dy fendith. 91, Ll.M.N.
Gweddi – Y Parch. Wynn Vittle. Emyn – Mor fawr wyt Ti.
Pregeth – Y Parch. Alun J. Petty, Baglan.
Emyn – 'Crist a orchfygodd' (Macabeus).
Y Fendith – Y Parch. T. Elwyn Williams, Felinfoel.
Organyddes – Mrs Lynwen Thomas.

Beth bynnag a ddywedir am newid gweinidogion yn aml, rhaid cyfaddef bod Cyrddau Sefydlu yn rhoi rhyw ysbrydiaeth a hyder newydd yng nghalonnau aelodau'r Eglwys.

Llawenhawyd ni eto wrth weld cymaint o frodyr a chwiorydd o ewyllus da o'r ardal hon ac o gylch Caersalem Newydd yn dod ynghyd. Gwledd i'r ysbryd oedd awyrgylch dyrchafol yr oedfaon ar eu hyd; y canu gorfoleddus; y gweddïau dwys; y darlleniadau o'r Gair, ynghyd â'r negeseuau amserol ac adeiladol gan y cenhadon. Ac er bod ein cydymdeimlad ni gydag Eglwys Caersalem Newydd, Treboeth, yn ei cholled, eto fedrwn ni fel Eglwys ddim peidio a llawenhau am y cyfle newydd hwn, i fwrw 'mlaen â gwaith y Deyrnas, gydag arweiniad Mr Watkins.

**Y Gweinidod a'i Waith**
Cychwynnodd Mr Watkins ei wasanaeth yn ein plith ar yr ail Sul o Hydref, 1994. Bu'n hollol onest â ni'r aelodau a'n rhybuddiodd iddo ddod i'r Eglwys i 'wneud job', sef i ennill eneidiau i'r Arglwydd Iesu naill ai o fewn yr Eglwys neu o'r cylch ehangach tu allan. I'r perwyl hwn gwelwyd ef yn ymdaflu'n ddiymdroi i fugeilio'r praidd, yng nghwmni'r swyddogion. Nes ymlaen ymwelodd â'r ysgolion lleol, a dod o'r herwydd i gysylltiad â rhieni'r plant. Erbyn hyn mae trigolion Penygroes yn ymwybodol iawn o bresenoldeb ein Gweinidog a'i awydd cryf i ddwyn y plant i oleuni'r Efengyl, a'r rhieni hynny na sydd, hyd yn hyn, wedi wynebu'r ffaith, nad oes obaith am well a diogelach byd ar y ddaear hon heb i drwch y boblogaeth ddilyn yr 'hen lwybrau', a phenderfynu troedio ffordd yr Arglwydd Iesu.

Wrth gwrs mae'r alwad i ymweld â chymell yn ddyletswydd arnom ni'r aelodau



i'w hymateb hefyd; a bydded i'n ffyddlondeb i'r oedfaon a gweithgareddau'r Eglwys adlewyrchu'n cariad a'n dymuniadau diffuant am lwyddiant yr Efengyl yn ein pentref, yn y dyddiau rhyfedd hyn.

Pleser o'r mwyaf yw gweld Mrs Brenda Watkins yn ymsefydlu mor hapus a llawen yn ein plith. Diolch iddi am ei chynorthwy parod ac effeithiol gyda phlant y Festri. Teimlwn bod hithau fel ei phriod â'i holl fryd ar gryfhau a chalonogi'r Eglwys. Ein braint ni'r aelodau fydd dal eu breichiau i fyny, hyd eithaf ein gallu.

Ar ôl dros flwyddyn o weithgarwch brwd yn yr Eglwys, gwelir bod y Parch. H. V. Watkins yn drefnwr llwyr a gofalus iawn bob tro y bydd am ddwyn ryw gynllun newydd i ben. Ei arfer yw cysylltu â'r aelodau ac â charedigion eraill yr Achos drwy lythyrau a rydd wybodaeth fanwl am gynnwys ac amser yr oedfa, a gwahoddiad iddi. Felly y bu ynglŷn ag oedfaon y Plant, y Bobl Ifanc, Diolchgarwch, yr Oedfa Nadolig ac Oedfa'r Canhwyllau. Fel hyn ceir ymateb pur dda a sicrheir diddordeb yng ngweithgareddau'r Eglwys.

**Gwasanaeth y Canhwyllau – 1994**
Yn yr wythnos cyn y Nadolig y cynhaliwyd hwn ac roedd yn brofiad newydd i ni oll. Roedd golau gwan y canhwyllau, rhediad esmwyth, di-dor eitemau'r rhaglen ar tawelwch disgwylgar, yn creu awyrgylch arallfydol a hudolus i'r gwasanaeth ar ei hyd.

Cynrychiolwyd pob oedran o aelodau'r Eglwys yn y Gwasanaeth; yr oedolion yn darllen rhannau priodol o'r Ysgrythur, yn y ddwy iaith, a phlant yr Ysgol Sul a'r Ysgol Gynradd yn cynorthwyo â'u heitemau swynol, tra bu'r gynulleidfa'n cael cyfle i ymuno'n y mawl o garolau; eto'n y ddwy iaith; oedfa deilwng, yn arweiniad i'r Nadolig.

**Cyfarfod Nadolig y Plant**
Hwn ar y Sul, Rhagfyr 18, 1994. Yn y bore casglwyd rhoddion o deganau i'w dosbarthu i blant anghennus cylch Abertawe, ac yn yr hwyr cafwyd perfformiad o Ddrama'r Geni.

**Cyfarfod Nadolig Undebol yng Nghalfaria, Bore Sul, Rhagfyr 25, 1994**
Daeth cynrychiolaeth gref o'r Eglwysi at ei gilydd a chafwyd oedfa fendithiol iawn. Llywyddwyd gan y Parch. H. V. Watkins a chymrwyd rhan gan weinidogion y cylch. Pregethwyd yn Saesneg gan y Pastor P. Crawthorne, o'r Eglwys Apostolaidd.

Eto, erbyn y Nadolig argraffwyd nifer o galendrau 1995 â darlun eglur iawn o'r capel arno, ynghyd â hysbysiadau am oedfaon yr Eglwys am yr wythnosau; ac yn ychwanegol nifer o gardiau Nadolig i'w dosbarthu ymhlith yr aelodau.

**Corlan y Plant**

Doedd dim llawer o blant yn perthyn i aelodau Eglwys Calfaria erbyn diwedd gweinidogaeth Mr Morse a phrin iawn oedd mynychwyr yr Ysgol Sul. Felly penderfynnodd Mr a Mrs Watkins gynnal Corlan y Plant, yn y Festri, bob nos Wener. Yn ffrwyth i ymweliadau cyson ein Gweinidog a'i gysylltiad agos â'r rhieni gwelir rhif y nifer sy'n mynychu yn raddol chwyddo a'r Ysgol Sul, fel y Gorlan yn elwa o hynny.

Cynorthwya rhai chwiorydd da o'r Eglwys hefyd yn y fenter glodwiw hon, sef Awen Cray, Delyth Davies, Cathreen Derrick, a Mrs Joan Davies ac Ifor Hughes.

Yn y cyswllt hwn hefyd, rhaid rhoi diolch cynnes iawn i Brifathro Ysgol Gynradd Penygroes, i Mrs Pat Beynon, y Dirprwy ac i'r Staff i gyd am eu cefnogaeth gwerthfawr iawn i bob ymdrech ar ran y Gweinidog a'r tîm.

**Y Bobl Ifanc**

Eu man cyfarfod presennol yw'r Festri, am 7 bob nos Wener, yng nghwmni Mr Watkins a'i gynorthwywyr. Ar ôl peth amser yn chwarae gemau, cynhelir oedfa, a chyfle ynddi i'r ifanc i gymryd rhan, Gwahoddir nifer o siaradwyr a phrofiad arbennig ganddynt, i'r oedfaon. Fel hyn ceisir agor meddyliau'r aelodau i'r gwaith enfawr a wneir, mewn gwahanol feysydd, yn enw'r Efengyl, yn ein gwlad ni ac yn y byd tu allan. Diolch am bob ymdrech fel hyn i oleuo a dihuno ymwybyddiaeth ein pobl ifanc i bosibliadau anhygoel gwasanaeth i'n cyd-ddyn, yn enw'r Arglwydd Iesu Grist.

**Penwythnos Plant yr Ysgol Sul**

Treuliwyd hon gan rai o blant Ysgolion Sul De Cymru yng Ngholeg y Beibl, Penygroes, eleni, a hynny ym mis Gorffennaf, 1995. Braint Eglwys Calfaria oedd cael cynnal oedfa fore Sul i'r plant a'u rhieni, cyn iddynt ddychwelyd adref. Y Gweinidog oedd â gofal yr oedfa. Hyfryd oedd gweld y gynulleidfa niferus a'r plant yn llawn asbri a brwdfrydedd.

Ar y penwythnos canlynol, tro'r ieuenctid oedd treulio penwythnos yn y Coleg, ac eto cynhaliwyd oedfa fore Sul iddynt hwythau. Gadawodd un bachgen ifanc argraff bur ddofn arnom gan ei ddatganiad diffuant o'i benderfyniad i ddilyn yr Arglwydd Iesu Grist. Boed bendith y nef ar waith ymroddedig arweinwyr y mudiad clodwiw hwn.

**Oedfa Undebol y Coffa, Mai 7, 1995**

Capel Calfaria a ddewiswyd i gynnal yr uchod eleni. Daeth tyrfa niferus ynghyd, er erbyn hyn bu farw llawer iawn o berthnasau agos y milwyr a gollodd eu bywydau yn yr erchyllterau. Roedd y gwasanaeth dan ofal y gweinidogion lleol. Y Parch. H. V. Watkins a drosglwyddodd y neges cryf a threiddgar ar y geiriau,



'Ni phallodd braich yr Arglwydd'. Roedd pwyslais yr oedfa ar Heddwch, Gostyngeiddrwydd a Rhagoriaeth y Bywyd yng Nghrist a'r emynau a ganwyd yn adlewyrchu hynny hefyd.

**Dathlu Arbennig**

Cyd-lawenhau â'r Gweinidog a'i briod a wnaeth aelodau Calfaria a Phenrhiwgoch ar y Sadwrn, Medi 9, 1995, wrth iddynt ddathlu chwarter canrif Mr Watkins yn y Weinidogaeth. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Dathlu yng Nghapel Calfaria am ddau o'r gloch. Y Llywydd oedd ein Ysgrifennydd brwd ac ymroddedig, y brawd Andrew Williams. Arweiniwyd yr Oedfa ddwys a thyner gan y Parch. Islwyn Davies, M.A., Carmel, Pontlliw. Ar ôl croesawu'r gynulleidfa sylweddol a ddaeth ynghyd, yn cynnwys teulu a ffrindiau y Parch. a Mrs Watkins, a chynrychiolaeth o Treboeth, Sgiwen a Chastell Nedd, rhoddodd y Llywydd deyrnged gynnes iawn i'r Parch. H. V. Watkins. Tystiodd i'w weithgarwch brwd a diflino yn ein plith, ei bersonoliaeth lawen a chyfeillgar, ei bregethu treiddiol ac adeiladol a'i ymdrechion cenhadol parhaus yn yr Eglwys a'r pentref. Braint enfawr oedd i'r ddwy Eglwys fedru sicrhau gwasanaeth gŵr mor ymroddedig.

Talodd deyrnged haeddiannol i Mrs Watkins am iddi fod cymaint cefn i'w phriod yn yr Ysgol Sul a'r Gorlan, ac am y ffordd esmwyth a siriol y bu iddi gymryd ei lle yn ein mysg. Fel arwydd o barch Eglwys Calfaria i'r ddau, cyflwynwyd siec i Mr Watkins gan y brawd Andrew Williams a thusw o flodau i Mrs Watkins, ar ran y chwiorydd, gan y chwaer M. A. Griffiths.

Y brawd Denzil Harries oedd yn enau dros Eglwys Penrhiwgoch ac yn ei ddull siriol arferol llongyfarchodd yntau Mr Watkins ar achos y dathlu, a diolchodd yn gynnes am y gwasanaeth cydwybodol iawn a dderbyniodd Eglwys Penrhiwgoch oddi wrtho.

Pregethwyd yr Efengyl yn rymus a phwrpasol gan y Parch. Alun Petty, Port Talbot. Bendith gyfoethog yr Arglwydd fo ar y dathliad hwn ac ar y cyfnod newydd sy'n agor o flaen Mr a Mrs Watkins, a'u gwasanaeth yn y winllan hon.

Does dim dathlu heb ddished o dê, a felly bu. Ar ôl yr oedfa ymneulltiodd y gynulleidfa o gwmni llon, i'r Festri, i'r wledd a baratowyd gan chwiorydd da'r Eglwys, a phleser o'r mwyaf oedd cael cyfarfod â ffrindiau pell ac agos, yn cynnwys mam annwyl ein Gweinidog.

**Y Cenhadon o America**

Ar yr un dydd hefyd, ymwelodd pum aelod o Eglwysi Bedyddwyr y De â'r Eglwys, er cynorthwyo'r Gweinidog yn ei waith cenhadol. Cyflwynwyd a chroesawyd hwynt yn y gwasanaeth fore Sul, Medi 10, 1995, gan y brawd Andrew Williams, yn absenoldeb y Gweinidog; y pump oddent, Pastor G. B. Howell, y brawd A. T. Layne a'r chwiorydd Alma Thomas, Era Mauldii, ac Emily Lenz. Cawsom

oedfa fendithiol iawn, y brawd A. T. Layne yn rhoi tystiolaeth ddiffuant o'i dröedigaeth, a'r Pastor G. B. Howell yn traethu'r Gair gyda nerth ac arddeliad. Felly hefyd yn yr oedfa hwyrol gyda'r chwiorydd yn cymryd rhan, a'r Pastor yn pregethu. Cawsom eu gwasanaeth ar y Sul canlynol eto; yn wir Suliau i'w cofio a'u trysori.

Treuliodd y cenhadon yr wythnos yng nghwmni Mr Watkins, yn ymweld ag Ysgolion Cyfun Tregib a Maesyryrfa ac ag ysgolion Cynradd Maesybont a Phenygroes a chael croeso llawen yno. Yn y prynhawniau ymwelsant â thrigolion y pentref yn eu cartrefi, gan hau y Newyddion Da am yr Arglwydd Iesu. Yn yr hwyr, nos Wener, gwefr i blant niferus y Gorlan a'r Dosbarth Ieuenctid oedd cael eu cwmni llon. Hyfryd o brofiad i ninnau'r chwiorydd oedd cael eu cyfraniadau amrywiol yn yr oedfa nos Lun, Medi 4.

Bu'r brawd Roger Thomas, Peniel, myfyriwr yng Ngholeg yr Enwad, Caerdydd, yn cydweithio â Mr Watkins yn ystod ei wyliau a gwnaeth yntau ei ran i gynorthwyo'r tîm. Yn sicr roedd y profiad unigryw hwn o genhadu yn y gymuned yn un gwerthfawr iddo gogyfer â'i waith yn y dyfodol.

Lletywyr y cwmni siriol oedd rhai o aelodau'r Eglwys, sef Mr a Mrs Connolly, Mr a Mrs Andrew Williams a'r chwiorydd Mrs Margaret Bowen a Mrs M. A. Griffiths. Rhai o'r chwiorydd da a fu'n paratoi ciniawau a swperau iddynt, dan drefniant trwyadl a gofalus Mrs Eiddwen Hughes a Mrs Marion Thomas. Cafwyd cyfraniad derbyniol iawn gan Ysgol Gyfun Maesyryrfa a Mr a Mrs Ifor Hughes.

Derbynied yr aelodau uchod ddiolch dyledus yr Eglwys am hyrwyddo'r gwaith gymaint, drwy eu cyfraniad parod. Pleser pur oedd derbyn yr ymwelwyr a mwynhau eu cwmni cynnes, a'u hysbryd chwilfrydig yng ngwasanaeth dros yr Arglwydd Iesu. 'Hau'r had', ys dywed ein parchus Weinidog; mae peth o'r ffrwyth i'w weld eisioes ym mywyd yr Eglwys a'n gweddi yw y parha'r had a heuwyd i egino'n gynyddol yn ein Heglwys ac yn yr ardal.

**Y Dosbarth Beiblaidd**

Mae myfyrio'r Gair yn parhau i fod yn gymorth ysbrydol cyson i'r dosbarth hwn, dan arweiniad Mr Watkins. Cynhelir ef bob nos Fercher, yng Nghalfaria a Phenrhiwgoch, ar yn ail wythnos. Gwelir cynnydd graddol yn y rhif sy'n ei fynychu ac edrychwn ymlaen i groesawu eraill eto i'n plith. Ceir amser gwir fendithiol a dedwydd a diolchwn i'm Gweinidog am ei ddarpariaeth trwyadl ac am ei gyflwyniadau llawen a siriol. Ar hyn o bryd 'rym yn dilyn Cynllun Alpha, ac yn profi ei gwestiynau treiddgar yn her i ni gyd.

**Cymdeithas y Chwiorydd**

Profiad unigryw i rai ohonom oedd mynd i Gyfarfod Blynyddol y Mudiad, ym



Methania, Maesteg, ar Fedi 7, 1995. Cafwyd dwy oedfa a'r eneiniad yn drwm iawn arnynt. Llywyddwyd y ddwy gan Mrs Avril Jones, Bethania; hi'n Llywydd Cenedlaethol am y flwyddyn. Yn oedfa'r prynhawn, cyflwynwyd y Llywydd newydd, Mrs Mary Williams, Penuel, Bangor, gan y Parch. Mair Bowen, a hefyd yr Is-lywydd, Mrs Wendy Richards, Ebenezer, Rhydaman.

Y wraig wadd oedd Mrs Hilde Sayer, Llywydd Undeb Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop. Soniodd am eu hymweliadau â'r gwahanol wledydd yn Ewrop ac â Georgia, a'r cynni enbyd ymhlith y werin yno. Apeliodd yn daer am gymorth ariannol i'r ffatri olew coginio yn Georgia, a sefydlir er rhoi cyfle i'r chwiorydd gael gwaith. Edmygwn yn fawr aberth rhai fel Mrs Sayer, yn eu hymdrech i dynnu chwiorydd y byd at ei gilydd, mewn cwlwm cariad a gwasanaeth. Yn yr hwyr trosglwyddodd Mrs Avril Jones ei hanerchiad grymus ar 'Bod yn Ddrych'.

Yn ystod y flwyddyn hon cafwyd ymweliadau adeiladol a difyr gan y canlynol, y Canon David Morris, Llandybie; y Parch. H. V. Watkins yn rhoi hanes ei fywyd; y Parch. Glan Roberts, B.Th., Llambed; Mrs Carol Jones (Lamyman); Mrs M. A. Griffiths; Mrs Ann Evans; a Miss Helen Davies, Llandybie.

**Glanhawyr y Capel a'r Festri**

Gwasanaeth cariad, yn sicr a rydd rhai chwiorydd da. Arbedant llawer o ofid ac arian i'r Eglwys. Bendith y Nef ar eu hymroddiad yn hyn o beth a hefyd am baratoi gofalus o'r Cymun. Gwerthfawrogir yn fawr pe bai eraill yn uno i gynorthwyo yn eu tro. Ar hyn o bryd y canlynol sy' wrthi – Awen Cray a Mair Williams; Esta Morgan; Janice Rees; Ifor a Janet Hughes; Myra a Buddug Roberts; Eiddwen Hughes a Doris Evans, ac Ann Williams a'i phriod; Pamela a Delyth Davies.

**Dr. Timothy Richard, 1845-1919**

Cafodd rhai ohonom y cyfle i fod yn bresennol yn Salem, Caeo, ar y degfed o Hydref 1995, mewn oedfa brynhawnol dathlu Canmlwyddiant a Hanner Geni'r cenhadwr enwog uchod. Cafwyd araith wych gan y Parch. Peter Thomas ar hanes bywyd y gŵr breintiedig ac ysbrydoledig hwn a'i gyfraniad enfawr at ledaenu'r Efengyl yn China. Fel mater o ddiddordeb bu Timothy Richard yn dysgu mewn rhyw fath o ysgol yn Mhenygroes, tua 1861/62, cyn bod Ysgol y Cyngor; hefyd mae Mrs Abel Jones, Gorsddu, yn arddel perthynas ag ef; felly hefyd y Parch. Peter Thomas.

**Dathlu yng Nglyn Nest**

Pleser o'r mwyaf oedd cael cyd-ddathlu pumed mlwydd ar hugain oed y Cartref hwn. Dyma ymdrech gyntaf y Bedyddwyr i sefydlu lloches i'w brodyr a chwiorydd, mewn gwth o oedran sy heb neb i ofalu amdanynt. Cynhaliwyd Oedfa'r

Dathlu yng Nghapel y Graig, Castell Newydd Emlyn, ac yno clywsom hanes cychwyn y fenter gan Mrs (Parch.) E. Jones, Dolgellau ar Parch. J. M. Williams, B.A., B.D., Abertawe. Ychydig a feddyliodd mwyafrif y gynulleidfa, wrth wrando ar draethiad eglur a manwl Mr Williams taw dyna'r tro diwethaf iddynt ei glywed yn llefaru. Bydd ei ymadawiad yn golled enfawr i'r Undeb, yn ogystal â'r teulu. Roedd ei gyngor doeth yn deillio o'i brofiad hir, yn amhrisiadwy. Gyda llaw, ei dad-yng-nghyfraith oedd y diweddar Parch. D. R. John, a godwyd i'r weinidogaeth o'r Eglwys hon; a'i fam-yng-nghyfraith yn un o ferched Mr a Mrs Rees, Fferm Brynfuwch, o'r lle hwn.

**Dathlu Hanner Canmlwyddiant**

Gweinidogaeth y Parch. T. Elwyn Williams, Adiwlam, Felinfol, a Salem, Llangennech, oedd achos y dathlu hwn, ar y penwythnos Medi 23/25. Mr Williams yw'r ail o gyn-weinidogion yr Eglwys sy wedi cyrraedd y garreg filltir hon. Y Parch. Job Herbert oedd y cyntaf a da yw gallu tystio bod y ddau mewn iechyd digon da i allu parhau yn eu gwaith ar ôl yr amgylchiad hapus. Ryw dair wythnos cyn hyn, cafodd Mr a Mrs Williams y pleser o ddathlu eu Priodas Aur. Llongyfarchwn hwynt yn gynnes ar y ddau ddigwyddiad.

Yr un fu patrwm gweithgareddau'r Eglwys yn yr ail flwyddyn dan arweiniad Mr Watkins a mawr yw ein diolch am weld cynnydd graddol yn yr oedfaon, yn yr Ysgol Sul, yn ymateb y Bobl Ifanc ac yn y Dosbarth Beiblaidd. Gweddïwn am i'r Arglwydd ein hysbrydoli ymhellach, fel aelodau, ac y gwelir mwy a mwy ohonom yn ymdaflu i waith y Deyrnas; yng nghwmni ein annwyl Weinidog a'i briod.

**Er Cof**

Trist ydym o orfod cofnodi colli pedwar aelod yn ystod 1995.

Mrs May Jones – Golden Key, ar Ionawr 6, yn 88 mlwydd oed, ar ôl dioddef afiechyd am lawer blwyddyn. Roedd yn un o'r ffyddlonaf yn oedfaon yr Eglwys, ac ymhob gweithgaredd arall; yn hael ei chyfraniadau a llawen ei chwmni. Gadawodd eu dwy chwaer, Mrs Lena Davies a Miss Louvaine Davies, yn aelodau yma, a chwaer arall, Mrs Edna Rees, a brawd Ronald.

Mrs Frances Davies – Heol y Norton, ar Ionawr 22, yn 82 mlwydd oed, hithau eto wedi'i chaethiwo i'w chartref am beth amser, wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i ofalu am yr adeiladau. Gwraig fwyn a siriol, er iddi golli ei phriod yn ifanc iawn. Gadawodd dwy ferch a mab i alaru ar ei hôl.

Mr a Mrs Roy Lund – Bu farw'r ddau o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd; Joan wedi methu dod i'r oedfaon oherwydd afiechyd, ond Roy wedi bod yn ffyddlon



iawn. Cafodd y ddau eu galw'n ddi-rybudd er tipyn o sioc i'w teuluoedd a'u cydnabod. Teimlad o hiraeth a erys ar ôl colli rhai annwyl fel hyn.

* * *

Rwyf am orffen hyn o Gronicl o Hanes Eglwys Calfaria, mewn llawenydd, diolchgarwch a hyder. Fedrai ddim peidio a theimlo felly wrth edrych nôl ar y ganrif o gynnal a chadw a fu arni, a hynny'n aml ar adegau digon anodd. Cofiwn yn barchus am ymdrech ddiflino'r tadau a'u teuluoedd, yn ymlwybro iddi o bellter, trwy stormydd y gaeaf, ar ffyrdd digon garw a thywyll.

Cofiwn am y rhes Gweinidogion a fu'n gwasanaethu yma a'u cyfraniad amrywiol i'n hadgyfnerthu a'n goleuo. Eto'r llu cydweithwyr ymroddedig a fu'n cynnal yr Achos yn eu tro, am flynyddoedd lawer. Derbyniwn ninnau'r aelodau presennol, hen ac ifanc, yr her sy'n ymhlig yn yr ymdrechion hyn. Mynnwn drosglwyddo'r dreftadaeth werthfawr a chysegredig hon i blant yr ail ganrif, fel bo enw'r Arglwydd Iesu Grist yn parhau'n ddyrchafedig yn y pentref hwn, a bod 'ffrindiau newydd Iesu' yn gyson yn ymorol am y dwfr bywiol, o'r ffynnon hon.

*Pennod XI*

# SWYDDOGION YR EGLWYS

**Etholwyd Diaconiaid**

| | |
|---|---|
| **1896-1912** | John Griffiths, Bwlch Carreg y Mynydd; John Griffiths, Tŷ'r Glyn; David Mathews, Fforest Fach; John Davies, Cwmcoch; William Edwards, Spien; Eben Griffiths, Caerbryn; Jenkin Davies, London House; William Jones, Pantyclai; Stephen Davies, Cwmcoch; John Davies, Brynyreithin; David Bowen, Tŷ Uchaf; Thomas Richards, Heol y Meadows; Daniel Jones, Pantyclai. |
| **1912** | John Griffiths, Tŷ Uchaf; William Morris, Heol Waterloo; John Rees, Gorsddu; Richard Rees, Glan Nant; Tom Griffiths a Rees Thomas, Y Gât; R. T. Roberts, Heol Waterloo. |
| **1935** | David Edwards, Tan y Bryn; Tom Rees, Glan Nant; Daniel Evans, Danycoed; John H. Davies, Heol y Gât; Ebenezer Griffiths, Lewis Terrace; John Williams, Heol Bryncwar; William Davies, Heol Waterloo. |
| **1946** | David Williams, Bandmaster; Gwilym Davies, Mabon's Row; John Jones, Heol Waterloo; Edmund Thomas a Hubert Bevan, Gorslas. |
| **1950** | Evan J. Griffiths; Talfryn Bowen; George James; Henry Richards; David R. Thomas; John Davies Williams. |
| **1958** | Rees Davies; Andrew Williams; Moelwyn Jones. |
| **1965** | Moses Davies; Vernon Samuel; Eurof Richards. |
| **1968** | Haydn Jones; Walter Powell; Ben Evans; Emrys Edwards. |
| **1974** | D. Meurig Davies; Marcus Jones; Cliff Williams. |
| **1979** | Mrs Margaret A. Griffiths |
| **1990** | Ivor Hughes. |

**Gweinidogion**

| | |
|---|---|
| Parch. Job Herbert | 1896 – 1941 |
| Parch. Handel Turner | 1942 – 1946 |
| Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D. | 1947 – 1956 |
| Parch. T. Elwyn Williams | 1957 – 1963 |
| Parch. Wynn Vittle | 1964 – 1973 |
| Parch. D. Carl Williams, B.A. | 1974 – 1982 |
| Parch. Ddr. D. Densil Morgan | 1982 – 1988 |
| Parch. J. Geraint Morse, B.D, M.Th. | 1989 – 1994 |
| Parch. H. Vincent Watkins | 1994 – |



**Ymddiriedolwyr Capel Calfaria a'r Adeiladau Eraill**

| | |
|---|---|
| **10. 12. 97** | Jenkin Davies, London House. |
| **22. 4. 98** | John Griffiths, Bwlch Carreg y Mynydd; John Griffiths, Tŷ'r Glyn; John Davies, Cwmcoch; Ebenezer Griffiths, Caerbryn; Isaac Williams a George Jenkins, Brynteg; William Edwards, Bryn Bedw; William a Daniel Jones, Pantyclai; George Phillips, Caerbryn Fach; William Evans, Pant y Fer; Joseph Williams, Rhydaman; David Mathews, Abertawe, Parch. Job Herbert. |
| **24. 9. 48** | Y diaconiaid a'r isod a etholwyd i'r swydd. Morgan Rowland Roberts; David John Bowen; John Glyn Richards. |
| **28. 9. 58** | Tom Jones; Tom G. Evans; Moses Davies. |
| **3. 2. 80** | D. Martin Cray; Malcolm Jones, John Cudworth; Arthur Thomas; D. Edgar Williams; T. Sulwyn Evans; H. Edward Williams; D. Percy Rees. |

**Ysgrifenyddion Cyffredinol**

John Griffiths, Tŷ'r Glyn; John Griffiths, Aeron Villa; T. Gwilym Davies, Heol y Norton; Vernon Samuel, Heol Waterloo; Andrew Williams, Gorwelion.

**Trysoryddion**

John Davies, Brynyreithin; John Williams, Heol Bryncwar; David Thomas, Heol y Bryn; Walter Powell, Y Cresent; Andrew Willliams, Gorwelion; Marcus Jones, Nantoer; Vernon Samuel, Heol Waterloo.

**Y Gronfa Adeiladu**

R. T. Roberts a J. H. Davies; Mrs Eirwen John a Miss A. M. Edwards; Mrs Marion Thomas a Mrs Mairwen Jones.

**Y Genhadeth Dramor**

Y Parch. Job Herbert; Mrs John a Mrs Mary A. Griffiths; Mrs Leyshon Thomas a Miss A. J. Davies, Miss Mabel Edwards a Mrs M. A. Griffiths.

**Cynorth Cristnogol**

Mrs M. A. Griffiths; Mrs Awen Cray.

**Gofalwyr am Wrês yn y Capel**
Tom Rees; Reginald a Cliff Griffiths; Morgan R. Roberts; Moses Davies; Gwilym Davies, Andrew Williams.

**Glanhawyr yr Adeiladau**
Mrs Mary Williams; Mrs Magdalen Bowen; Mrs Rees, Glan Nant a'i merched Miss Let Rees, Mrs Mary A. Griffiths a Millie; Mrs John Griffiths, Tŷ'r Glyn a'i merch Eunice; Mrs Annie Davies; Mrs Dilys Powell; Mrs Joan Lund; Mrs Mairwen Jones, Miss Nest Griffiths; Mrs Barbara Evans; Mrs Garfield; Mrs. Frances Davies.

**Arweinyddion y Gân**
Jenkin Davies; Wm. Vaughan; Richard Morgan; John Griffiths, Aeron Villa; Talfryn Bowen; Annie Jones; Margaret A. Griffiths; Marcus Jones.

**Arweinyddion y Plant**
John Davies, Brynyreithin; R. T. Roberts; Dd. Owen Jones; W. Tom Davies; M. A. Griffiths; Talfryn Bowen; Pat Beynon; Delyth Davies; Lynwen Thomas; Jenny Vaughan; Mrs (Dr.) Densil Morgan.

**Organyddion**
Sidney Morris; R. T. Roberts; Tom G. Evans; A. M. Phillips; Betty Davies; John Jones; Pat Beynon; Delyth Davies; Lynwen Thomas; Ann Morgan; Mathew Hughes; Mrs Joan Davies.

## Y PREGETHWYR Y CAFODD YR EGLWYS RAN YN EU MAGWRAETH

**Y Parch. David D. Griffiths, Calfaria, Treforys**
Mab oedd i Mr a Mrs John Griffiths, Bwlch Carreg y Mynydd, a fedyddiwyd yn Eglwys Carmel yn 1895, ac yntau'n bedair ar ddeg oed. Ond mynychu'r Achos ym Mhenygroes a wnaeth o 1896, gyda'r teulu. Dechreuodd bregethu yn Ionawr 1901 ac ar ôl cyrsiau o addysg yn ysgolion Llandeilo, a'r Gwynfryn, Rhydaman a Choleg y Bedyddwyr, Bangor, ordeiniwyd ef yn 1908 yn Ainon, Gelliwen a Chwm Meidrym. Yng Nghorffennaf 1915 symudodd i Galfaria, Treforys. Yma llafuriodd yn egnïol a di-arbed a chynyddodd yr aelodaeth o ychydig dros y 200 i 437, a rhaid oedd ehangu'r capel yn 1920. Ond costiodd hyn yn ddrud iddo a chollodd ei iechyd. Clafychodd yn raddol a bu farw ar Fawrth 1, 1921, yn ŵr ifanc tri deg naw mlwydd oed, gan adael ei weddw a phedwar o blant ar ei ôl.



Erys erbyn hyn ond dau ohonynt, y brodyr Eynon Griffiths, diacon yn Ebenezer Rhydaman, a S. Gwyn Griffiths, cyn-Ysgrifennydd Ariannol yr Undeb. Mawr oedd y golled ar ôl y gŵr cydwybodol ac annwyl hwn, nid yn unig i'w deulu ond i'r Eglwys ac i'r ardal gyfan.

**Y Parch. Stephen Griffiths, Rehoboth a Chlawddcoch**
Brawd ieuengaf yr uchod, ganed ef yn 1893, a beadyddiwyd ef gan y Parch. Job Herbert, pan yn ddwy ar bymtheg oed. Yn 1914, symudodd gyda'r teulu nôl i Garmel. Ni chafodd ef fanteision ysgol ei frawd hŷn ond ymddiwylliodd dan ofal y Parch. T. Thomas, Carmel, a L. Berian James, B.A., Penygroes, a llwyddo yn Arholiadau'r Enwad. Ordeiniwyd ef yng Ngharmel yn 1947 ac ar ôl bugeulio Eglwysi Waunclyndaf a Chwmsarnddu derbyniodd alwad i Rehoboth a Chlawdd-coch, ger Castell Newydd Emlyn yn 1954. Llafuriodd yntau yma'n gydwybodol iawn. Daliodd ati'n wrol hyd i'w iechyd ballu. Bu farw Mai 24, 1967, a gadael ei weddw a thair merch i hiraethu ar ei ôl. Un ohonynt yw Freda, gwraig y Parch. George Elias.

**Y Parch. D. R. John, Rhydwilym**
Mae sôn am y Parch. D. R. John yn bresennol ar yr ail Sul yn hanes yr Eglwys, yn 'Sied y Band'. Bedyddiwyd ef yn ei arddegau cynnar yn Afon y Dderwen, ac yn Awst 1901 aeth ef a David Griffiths am addysg bellach i Ysgol y Gwynfryn ac yna i Goleg yr Enwad, Bangor. Derbyniodd ei alwad gyntaf yn 1908, i fugeilio'r praidd ym Margoed. Derbyniodd alwadau wedyn i'r Porth yn 1915, i Abercynon yn 1920 ac yn olaf i Eglwys hynafol Rhydwilym yn 1931. Cafodd briod deilwng yn un o ferched y pentref, sef Susannah, merch Mr a Mrs G. Rees, Fferm Brynfuwch. Roedd yn bregethwr o argyhoeddiadau dwfn iawn, ac effaith Diwygiad 1904 yn drwm arno. Galwyd ef nôl yn aml i gymryd rhan yng ngwyliau a chyfarfodydd arbennig yr Eglwys hon a gwefreiddiol oedd ei bregethu ef a'r Parch. Jubilee Young yn un o oedfaon Dathlu Hanner Canmlwyddiant Gweinidogaeth y Parch. Job Herbert yn 1939. Ar ôl deugain mlynedd o wasanaeth ffyddlon yng ngwinllan yr Arglwydd Iesu Grist, bu farw yn 1948, yn chwe deg a phedair mlwydd oed. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Calfaria. Un o'i feibion oedd y disglair Parch. W. P. John, Gweinidog Castle Street, ac un arall oedd ysgrifennydd yr un Eglwys, Mr George John, a'i ferch oedd priod y diweddar Barch. M. J. Williams, B.A., B.D.

**Y Parch. S. Gwyneurfryn Davies, Cwmcoch**
Un arall o fechgyn gloyw'r Eglwys a fynychai 'Sied y Band', gyda'i rieni, ac a fedyddiwyd yn Afon y Dderwen 'run pryd a'r Parch. D. R. John. Roedd ef yn fardd lleol adnabyddus iawn ac enillodd amryw gadeiriau am ei weithiau bardd-

onol. Trwy ryw gamddealltwriaeth, ymadawodd ef â'r Eglwys tua 1913 ac ymaelododd yn Eglwys Penygroes. Ar ôl llwyddo yn arholiadau'r Undeb, bu'n bregethwr cynorthwyol am gyfnod cyn derbyn galwad i fugeilio Eglwysi'r Annibynwyr yng Nghefncribwr a Blaengarw, Sir Forgannwg.

**Y Parchgn. Watkin a Tom Edwards**

Meibion Mr a Mrs Dafydd Edward, Penybryn, Capel Hendre, oedd y ddau frawd. Bedyddiwyd hwy yn gynnar yn y ganrif, gan y Parch. Job Herbert. Yn 1923 daethant ill dau dan ddylanwad trwm pregethu'r Efengylwyr Clarke a Bell, megis llawer eraill o'r pentref. Y canlyniad oedd i'r ddau ymateb i alwad i bregethu'r Efengyl, dan y mudiad. I'r perwyl hwn aethant am ysbaid i Goleg Beiblaidd yng Nglasgow.

Ar ôl gorffen ei gwrs, cafodd Tom alwad i Eglwys yn Newcastle on Tyne a bu yno'n gwasanaethu'n gydwybodol am rai blynyddoedd, cyn cael galwad i'r Eglwys Efengylaidd yng Ngorseinon. Yno y bu hyd ei ymddeoliad.

Gwahanol fu gyrfa Watkin. Gwasanaethodd ef yn Durham am beth amser, cyn ymateb i'r alwad i fynd i Angola, fel cenhadwr. Symudodd wedyn i Dde Affrica, lle bu'n gwasanaethu dan yr un mudiad.

Roedd y ddau frawd yn bregethwyr grymus ac o argyhoeddiadau cryfion. Bu farw Tom yn 1972, gan adael un mab, John Edwards, Abergavenny.

Bu farw Watkin ychydig flynyddoedd o'i flaen, gan adael ei weddw a'r ddau fab yn Ne Affrica.

**Y Parch. W. S. John, B.A.**

Mab hynaf Mr a Mrs James John oedd Sidney. Yntau'n aelod ffyddlon yn yr eglwys ac yn gyfrannwr ymarferol yn ei holl weithgareddau. Oherwydd marw cynnar ei dad, cymrodd swydd fel clerc yng Nglofa Cross Hands cyn cael mynediad i Goleg Caerdydd. Yno graddiodd yn y Celfyddydau. Ordeiniwyd ef yn Eglwys Saesneg Bedyddwyr Loughborough, tua 1929. Roedd yn bregethwr cymeradwy iawn yn y ddwy iaith. Tua dechrau'r Ail Ryfel Byd derbyniodd swydd dan y Wladwriaeth Les, gan barhau i bregethu ar y Suliau. Bu farw'n ifanc, cyn cyrraedd ei hanner can mlwydd oed, gan adael gweddw a mab a merch i hiraethu ar ei ôl.

**Y Parch. Emrys John, B.A.**

Ail fab Mr a Mrs James John oedd Emrys. Ar ôl ysbaid yn y lofa a chyfnod yng Ngholeg y Gweithwyr, Selly Oak, Birmingham, derbyniwyd ef i Brifysgol Aberystwyth a graddiodd yn y Celfyddydau. Yna dilynodd gwrs blwyddyn mewn Diwinyddiaeth mewn Coleg ym Mryste, dan yr Eglwys Wladol. Ar ôl rhai blynyddoedd fel curad yn Nhreffynnon, Gogledd Cymru, derbyniodd fywoliaeth Eglwys Meifod, Sir Drefaldwyn, yn 1944, a bywoliaeth eglwys Broughton, ger



Wrexham, mewn ychydig flynyddoedd. Yno bu hyd ei ymddeoliad yn ei saithdegau. Gwelodd ddathlu ei bedwar ugain, ond clafychu'n gyflym a wnaeth wedyn a marw tua 1987, gan adael Edith ei briod, ei un ferch, dau fab ac wyrion ac wyresau ar ôl.

Un o ffyddloniaid Calfaria oedd Edith hefyd, un o deulu niferus Bryn y Wawr, Heol Waterloo. Bu'n Athrawes Ysgol Sul ffyddlon a chyd-arweinyddes Urdd y Seren Fore yma cyn iddi briodi, a gwelwyd ei heisiau'n fawr ar ei hymadawiad. Erbyn hyn mae hithau wedi'n gadael. Coffa da am ddau a roddodd oes o wasanaeth cydwybodol i'r Eglwys.

**Y Parch. Sidney Davies, B.A., Porthyrhyd**

Mab y diweddar Mr a Mrs Rees Davies, 5 Heol y Gât, yw Sidney; un arall o ymgeiswyr am y Weinidogaeth a godwyd ar fron yr eglwys ac a fedyddiwyd gan y Parch. Job Herbert. Bu ei dad a'i fam yn aelodau ffyddlon yma, ei dad yn un o'r diaconiaid. Ar ôl gyrfa lwyddiannus yn Ysgol Ramadeg, Rhydaman, hysbysodd ef y Gweinidog a'r Eglwys ei fod am ymgysegru i'r Weinidogaeth, dan yr Eglwys Wladol. Derbyniwyd ef i Goleg yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan, a graddiodd yno yn 1938. Wedi tair blynedd fel Curad yn Llandysul a naw a hanner ym Mhencader, derbyniodd fywoliaeth yng Nghiliau Aeron, ac yno y bu am dros ddeg mlynedd ar hugain yn weithiwr cydwybodol ac yn fawr ei barch. Ymddeolodd yn 1982 ac ymsefydlu gyda'i wraig Dorothy, ym Mhorthyrhyd.

**Y Parch. Eurof Richards, Seion Newydd, Treforys**

Y ieuengaf o'r gweinidogion a gafodd Eglwys Calfaria ran yn eu meithrin, yw Eurof. Mab yw i Mrs Abi Richards a'r diweddar frawd John Glyn Richards, Gorsddu; hwythau eto yn aelodau ffyddlon iawn yma yn eu dydd. Mae'i fam erbyn hyn wedi colli ei hiechyd, ond bu'n un a roddodd wasanaeth arbennig yn y canu, gyda'i llais alto cyfoethog a hefyd ymhob agwedd o waith yr Eglwys. Ar aelwyd felly y magwyd Eurof, lle roedd yr Eglwys yn ganolbwynt y teulu.

Bedyddiwyd ef yn 1951 gan y Parch. E. Bryn Jones, B.A., B.D., a gwnaed ef yn ddiacon yn 1965, dan weinidogaeth y Parch. W. Vittle. Ffyddlondeb a gwasanaeth oedd ei gyfraniadau yntau hefyd, a blin iawn oedd gorfod derbyn ei ymddiswyddiad yn 1969, pan symudodd ef a'i wraig i fyw i Gorseinon ac ymaelodu'n Seion, Eglwys y Bedyddwyr yno, dan weinidogaeth y Parch. Clifford Davies.

Yn 1985 cymhellwyd Eurof i ddechrau pregethu gan y Parch. Victor H. Evans, gweinidog Seion ar y pryd, a chefnogwyd ef hefyd gan Eglwysi Penuel, Casllwchwr, a Tabernacl, Pontarddulais, a'u gweinidogion y Parch. Tregelles Williams ac Idris Hughes. Yna derbyniwyd ef fel pregethwr cynorthwyol gan Gymanfa Bedyddwyr Gorllewin Morgannwg.

Oddiar iddo ennill ei drwydded fel Peiriannydd Glofeydd (M.E.) yn 1965, cafodd Eurof yrfa lwyddiannus eithriadol. Bu'n Ddirprwy Reolwr ym Mhyllau Brynlliw ac Abernant, yn Arolygwr Ffrwydron yng Nghynheidre ac yn Arolygwr Diogelwch Cynorthwyol dros bymtheg Pwll Glo yn De Orllewin Cymru yn 1986. Yn 1988 derbyniodd y cynnig i ymddeol yn gynnar.

Wedi gwasanaethu fel pregethwr cynorthwyol am dair blynedd oddiar 1985, a dechrau astudio at Dystysgrif yr Undeb, daeth Eurof i'r penderfyniad i ymgysegru ei fywyd i wasanaeth llawn amser dros yr Arglwydd Iesu Grist. Ar ôl eu ymddeoliad derbyniwyd ef i Goleg y Bedyddwyr yng Ngaerdydd yn Hydref 1988. Yna ar ôl gorffen ei gwrs yn llwyddiannus a derbyn Diploma mewn Diwinyddiaeth ordeiniwyd ef yn Seion, Gorseinon, ym mis Mehefin 1991, a'i sefydlu'n weinidog Seion Newydd, Treforys, dydd Sadwrn, Medi 7, 1991. Boed bendith y Nef ar ei ymroddiad cydwybodol ac ar Eglwys ei ofal.